

Adroddiad ar arolygiad dirybudd

# **Carchar EM y Parc**

gan Brif Arolygydd Carchardai EM

**11–22 Tachwedd 2019**

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn gyda chymorth cydweithwyr yn y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac mewn partneriaeth â'r cyrff canlynol:



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

#### Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i <http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/> neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Ble'r rydym wedi nodi deunydd hawlfraint trydydd parti bydd yn rhaid i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n gysylltiedig â'r cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod, neu: [hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk](mailto:hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn: <http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/>

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:  
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi  
3<sup>rd</sup> floor  
10 South Colonnade  
Canary Wharf  
Llundain  
E14 4PU  
Lloegr

# Cynnwys

Cyflwyniad	5
Tudalen ffeithiau	7
Ynglŷn â'r arolygiad a'r adroddiad hwn	9
Crynodeb	11
Adran 1. Diogelwch	21
Adran 2. Parch	31
Adran 3. Gweithgaredd â phwrpas	43
Adran 4. Adsefydlu a chynllunio ar gyfer rhyddau	51
Adran 5. Crynodeb o bryderon allweddol, argymhellion ac arfer da	57
Adran 6. Atodiadau	59
Atodiad I: Y tîm arolygu	59
Atodiad II: Cynnydd ar argymhellion a wnaethpwyd yn yr adroddiad diwethaf	61
Atodiad III: Proffil poblogaeth y carchar	67
Atodiad IV: Ffotograffau	71
Atodiad V: Methodoleg a chanlyniadau arolwg y carcharorion	73

### **Rhestr termau**

Rydym yn ceisio gwneud ein hadroddiadau mor glir â phosibl, ond os byddwch yn dod ar draws termau anghyfarwydd, gweler yr eirfa yn ein 'Canllaw ar gyfer ysgrifennu adroddiadau arolygu' ar ein gwefan yn: <http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprison/about-our-inspections/>

# Cyflwyniad

Mae CEM y Parc yn garchar dynion lleol categori B sy'n dal troseddwr sy'n oedolion ac oedolion ifanc a euogfarnwyd, yn ogystal â nifer sylweddol o garcharorion sydd wedi'u heuogfarnu o droseddau rhywiol. Mae'n garchar mawr a chymhleth iawn, gyda mwy na 1,600 o garcharorion ar adeg yr arolygiad hwn. Fe'i hagorwyd ym 1997, mae wedi'i leoli ger Pen-y-bont ar Ogwr yn Ne Cymru ac fe'i gweithredir o dan gontract gan G4S Care and Justice Ltd.

Arolygwyd y carchar ddiwethaf ym mis Ionawr 2016, ac ar yr achlysur hwnnw, ein dyfarniad oedd nad oedd diogelwch yn y Parc yn ddigon da, roedd parch yn weddol dda ac roedd y profion oedd yn weddill sef gweithgaredd â phwrpas ac adsefydlu a chynllunio ar gyfer rhyddhau ill dau ar ein lefel uchaf, sef yn dda. Ar yr achlysur hwn, roedd y dyfarniadau yn weddol debyg, heblaw ein bod bellach yn canfod bod diogelwch wedi gwella i safon weddol dda. Mae'r rhain yn ganfyddiadau trawiadol ar gyfer y math hwn o garchar, yn enwedig o ystyried yr amgylchedd heriol y bu cymaint o garchardai yn gweithredu ynddo dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Roedd y radd well mewn diogelwch yn gyflawniad sylweddol yn y cyd-destun presennol ar draws yr ystâd warchodol. Roedd y Parc wedi llwyddo i fynd yn groes i'r duedd o ran y cynnydd cyffredinol a sylweddol iawn mewn trais a gofnodwyd. Gwnaeth yr oruchwyliaeth o'r defnydd o rym gan staff argraff fawr arnom. Roedd proses adolygu gadarn, mewnbyn rheolaethol sylweddol a phenderfyniad clir i ddysgu o ddigwyddiadau a rhannu'r dysgu hwnnw gyda staff. Rydym wedi cydnabod yr ymagwedd gyfan at y mater hwn fel arfer da, a byddem yn argymhell yr ymagwedd a fabwysiadwyd yn y Parc i eraill a allai fod eisiau dysgu ohoni.

Yn ogystal â'r gostyngiad yn lefelau trais dros y ddwy flynedd flaenorol, braf oedd gweld y bu gostyngiad diweddar yn lefelau'r hunan-niweidio, er eu bod yn llawer uwch nag ar adeg yr arolygiad diwethaf. Serch hynny, roedd rhai mentrau da ar waith, fel y gofal a'r gefnogaeth a gynigiwyd i garcharorion ar eu noson gyntaf yn y ddalfa, ac roedd y tîm carchar mwy diogel yn gweithio'n galed i gael y budd mwyaf o gynlluniau her, cefnogaeth ac ymyrraeth (CSIP). Roedd hefyd yn werth nodi bod cyfraddau positif mewn profion cyffuriau wedi dirywio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a chyflwynwyd mesurau a allai fod wedi cyfrannu at hyn. Er ei bod yn wir fod cyffuriau yn parhau i fod ar gael yn rhy hawdd, roedd camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y gwaith a wnaed ar draws amrywiol feysydd i wella diogelwch – a adlewyrchir yn ôl pob tebyg yn yr arwyddion cynnar o welliant mewn sawl maes – yn ddigonol i wella ein gradd i 'weddol dda'.

Yn ein harolwg, dywedodd dros hanner y carcharorion yn y Parc wrthym fod ganddynt broblem gyda'u hiechyd meddwl. Fodd bynnag, dim ond 23% a ddywedodd eu bod wedi cael cymorth i fynd i'r afael â'u materion, a oedd yn ffigur is nac mewn carchardai cymharol. Ni feintolwyd y galw yn iawn mewn asesiad o anghenion iechyd ac, o bosibl oherwydd hyn, er bod cefnogaeth ar gael ar gyfer rhai anghenion, roedd ymyriadau a chefnogaeth annigonol i eraill. Un o'n prif bryderon yn deillio o'r arolygiad hwn oedd y dylid mynd i'r afael â'r gwendid hwn, gan wneud ystod lawn o ymyriadau therapiwtig ar gael ar gyfer yr holl gyflyrau seicolegol.

Nodwedd gadarnhaol iawn y Parc oedd ansawdd y perthnasoedd rhwng staff a charcharorion: dywedodd 73% o garcharorion wrthym fod staff yn eu trin â pharch, ac ymddengys fod y cynllun gweithiwr allweddol yn gweithio'n dda. Er ei bod yn sicr yn wir fod y carchar yn gyffredinol yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, a bod mynediad gweddol dda i gyfleusterau fel golchi dillad a chawodydd, roedd lle i wella ym maes bwyd. Yn ein harolwg, dywedodd cyn lleied â 28% o garcharorion fod y bwyd yn dda, a dywedodd llai na thraean wrthym eu bod yn cael digon i'w fwyta bob amser neu'r rhan fwyaf o'r amser. Roedd yn braf gweld carchar lle'r oedd prydau'n cael eu bwyta ar y cyd, ond mae angen mynd i'r afael â'r canfyddiadau gwael iawn hyn o'r bwyd, a atgyfnerthwyd gan ein harsylwadau ein hunain.

Rydym wedi egluro ein pryderon ac wedi gwneud argymhellion i fynd i'r afael â hwy, a dim ond rhywfaint ohonynt y byddaf yn eu crybwyll yn y cyflwyniad hwn gan eu bod wedi'u nodi'n glir yn adrannau perthnasol yr adroddiad. Mae'n bwysig nodi bod 17% o'r carcharorion a ddaliwyd yn y Parc wedi'u heuogfarnu o droseddau rhywiol, ond roedd y ddarpariaeth ymyrraeth yn druenus o annigonol. Yn sicr, roedd rhai carcharorion yn cael eu trosglwyddo i garchardai eraill i dderbyn ymyriadau priodol, ond o ystyried maint y boblogaeth troseddwyr rhyw yn y Parc, dylid bod wedi darparu ar gyfer hyn o fewn y sefydliad ei hun.

Fel arolygiaeth, rydym yn aml yn tynnu sylw at ba mor bwysig ydyw bod carcharorion yn cael eu rhyddhau i lety sefydlog i ddechrau eu bywyd yn ôl yn y gymuned. Mae diffyg llety priodol, neu fel y gwelwn yn llawer rhy aml, unrhyw lety o gwbl, yn cael ei gydnabod yn eang fel ffactor sylweddol a all gyfrannu at aildroseddu. Yn y Parc, rhyddhawyd tua 100 o garcharorion bob mis ar gyfartaledd, ac nid oedd gan 17% ohonynt gyfeiriad i fynd iddo. Gwelsom gryn dipyn o ymdrech yn mynd i mewn i adsefydlu a chynllunio ar gyfer rhyddhau yn y Parc, ac yn wir, ein barn gyffredinol yn y maes hwn oedd bod y canlyniadau i garcharorion yn cyfiawnhau ein gradd uchaf. Fodd bynnag, mae risg ddifrifol y gallai llawer o'r gwaith da hwn gael ei danseilio gan ddiffyg llety priodol i garcharorion ar ôl eu rhyddhau. Felly, rydym wedi gwneud argymhelliad i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) un uniongyrchol y dylai weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod llety ar gael i garcharorion ar ôl eu rhyddhau.

Er bod rhai o'r farn fod carchardai mawr yn israddol i sefydliadau llai, mae'r Parc yn dangos nad oes angen i hyn fod yn wir. Yn wir, cefais argraff glir o sut mae'r Parc wedi osgoi bod yn anhyblyg a monolithig wrth ddarparu ei wasanaeth, a'i fod, mewn gwirionedd, wedi defnyddio ei faint a'i ehangder adnoddau i ddarparu ystod o wasanaethau i wahanol grwpiau na ellid eu gwneud ar gael mewn sefydliadau llai. Er enghraifft, roedd gwasanaethau pwrpasol ar gyfer carcharorion ag anabledau dysgu neu awtistiaeth. Roedd uned ragorol yn canolbwyntio ar gyn-filwyr, ac roedd gan oedolion ifanc ddarpariaeth arbenigol, fel yr oedd gan garcharorion agored i niwed a'r rheini ag anghenion byw â chymorth. Wrth gwrs, mae'r Parc wedi cadw ei enw da yn rhyngwladol am y gwaith a wneir gyda phlant a theuluoedd hefyd. Canlyniad hyn yw nad yw'n teimlo fel sefydliad enfawr i'r carcharorion a gedwir yno, ac yn sicr nid oedd yn haeddu disgrifiad difriol o 'warws' sydd weithiau'n cael ei anelu at sefydliadau mawr.

Mae'r Parc wedi buddio o gysondeb arweinyddiaeth dros nifer o flynyddoedd, ac roedd yn amlwg yn ystod fy nghyfarfodydd gyda'r llywodraethwr, uwch reolwyr a staff yn y Parc eu bod yn falch o'r hyn a gyflawnwyd, ac yn haeddu teimlo felly. Wrth gwrs, fel yn achos pob carchar, roedd lle i wella, rhywfaint o hynny ar frys ac mewn meysydd allweddol, ond ar y cyfan roedd hyn yn garchar a oedd, fel yr oeddem yn ei ystyried, yn cyflawni ei ddibenion craidd ac yn perfformio'n dda.

**Peter Clarke CVO OBE QPM**

Prif Arolygydd Carchardai EM

Chwefror 2020

# Tudalen ffeithiau

## Tasg y sefydliad

Mae'r Parc yn garchar lleol categori B sy'n dal oedolion ac oedolion ifanc gwrywaidd, troseddwy'r rhyw ar remand a euogfarnwyd, a phobl ifanc.

## Capasiti llety a gweithredol arferol ardystiedig<sup>1</sup>

Carcharwyr a gadwyd adeg yr arolygiad: 1,612

Capasiti arferol ardystiedig llinell sylfaen: 1,559

Capasiti arferol ardystiedig wrth gael ei ddefnyddio: 1,559

Capasiti gweithredol: 1,699

## Nodweddion nodedig yr arolygiad hwn

*Yn ein harolwg, dywedodd 52% o garcharorion fod ganddynt broblem iechyd meddwl.*

*Roedd y model Rheoli Troseddwy'r yn y Ddalfa wedi'i weithredu'n llawn ar gyfer carcharorion o Gymru.*

*Roedd yr uned Cynnwys yn darparu amodau byw â chymorth i garcharorion ag ystod eang o anableddau.*

*Roedd y carchar yn dal carcharorion ar remand, oedolion ifanc, poblogaeth uchel o garcharorion a euogfarnwyd o drosedd rywiol, carcharorion hŷn yn ogystal â'r boblogaeth oedolion gwrywaidd.*

*Nid oedd unrhyw ymyriadau ar gyfer carcharorion a euogfarnwyd o drosedd rywiol.*

## Statws y carchar (cyhoeddus a phreifat) a darparwyr allweddol

Preifat – Mae'n cael ei redeg gan G4S Care and Justice Ltd

Darparwr iechyd corfforol: G4S Health

Darparwr iechyd meddwl: G4S Health

Darparwr camddefnyddio sylweddau: G4S Health

Darparwr dysgu a sgiliau: G4S Education

Cwmni adsefydlu cymunedol (CRC): CRC Cymru

Contractiwr hebrwng: GeoAmey

## Grŵp/Adran carchar

Cymru

## Hanes cryno

Wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr, De Cymru, CEM/STI y Parc oedd y carchar cyntaf i gael ei adeiladu yn y DU o dan y fenter cyllid preifat (PFI), ac agorodd ym mis Tachwedd 1997. Mae gan G4S Care & Justice Ltd gontract gweithredu 25 mlynedd i reoli'r carchar ar ran Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi sy'n rhedeg tan 2022. Mae'r Parc yn dal cymysgedd cymhleth o breswylwyr, gan gynnwys pobl ifanc rhwng 15 a 17 oed, oedolion ifanc, carcharorion sydd wedi'u dedfrydu am oes a'r rhai sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol, gan ei wneud yn un o'r carchardai mwyaf yn y DU.

<sup>1</sup> CNA llinell sylfaen yw cyfanswm yr holl lety ardystiedig mewn sefydliad ac eithrio celloedd mewn unedau gwahanu, celloedd neu ystafelloedd gofal iechyd na chânt eu defnyddio fel mater o drefn i ddarparu llety ar gyfer cleifion arhosiad hir. Yn weithredol, mae CNA yn CNA llinell sylfaen llai y lleoedd hynny nad ydynt ar gael i'w defnyddio ar unwaith, megis celloedd a ddfirodyd, celloedd y mae gwaith adeiladu yn effeithio arnynt, a chelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio oherwydd prinder staff. Capasiti gweithredol yw cyfanswm y carcharorion y gall sefydliad eu dal heb achosi risg ddifrifol i drefn dda, diogelwch a rhedeg y gyfundrefn a gynlluniwyd yn iawn.

### **Disgrifiad byr o'r unedau preswyl**

A2 yw'r uned cynefino/dyddiau cynnar yn y ddalffa ar gyfer y prif garcharorion preswyl.

Mae A4 (uned Dewis) yn darparu uned ddilynol ar ôl cynefino.

Mae'r uned Cynnwys yn darparu amodau byw â chymorth i garcharorion sydd ag anawsterau dysgu neu anabledau, anhwylder sbectrwm awtistiaeth a/neu anaf i'r ymennydd.

B3 yw'r uned oedolion ifanc, lle mae ffocws ar hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a pharchus ymhlith carcharorion iau.

Uned D yw'r uned cefnogaeth camddefnyddio sylweddau, wedi'i theilwra'n benodol ar gyfer unigolion sy'n profi defnydd dibynnol a/neu broblemus o sylweddau.

T1 yw'r uned tro cyntaf yn y ddalffa/coleg, sy'n darparu mynediad â ffocws i addysg mewn amgylchedd dysgu.

T3 yw'r uned tro cyntaf yn y ddalffa a chyn-filwyr milwrol.

T4 yw'r uned teuluoedd ac eraill arwyddocaol.

Mae T5 (uned Taith) yn darparu cefnogaeth i droseddwyr ar y rhaglen sgiliau meddwl ac ymyriadau achrededig Resolve.

Mae'r uned Coed yn gartref i garcharorion agored i niwed – wedi'u heuogfarnu ac ar remand.

X1 yw'r uned cynefino/dyddiau cynnar yn y ddalffa ar gyfer carcharorion agored i niwed.

Mae X3 a T6 yn unedau byw â chymorth ar gyfer carcharorion sy'n hŷn neu'n glinigol agored i niwed.

### **Enw'r llywodraethwr/cyfarwyddwr a dyddiad yn y swydd**

Janet Wallsgrove (2005)

### **Cadeirydd y Bwrdd Monitro Annibynnol**

Brian Thomas

### **Dyddiad yr arolygiad diwethaf**

30 Tachwedd – 1 Rhagfyr 2015; 18–22 Ionawr 2016



# Ynglŷn â'r arolygiad a'r adroddiad hwn

- A1** Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn sefydliad annibynnol a statudol sy'n adrodd ar driniaeth ac amodau'r rhai hynny a gedwir mewn carchardai, sefydliadau troseddwy'r ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, cyfleusterau cadw mewnfudo, dalfeydd yr heddlu a'r llysoedd a dalfeydd milwrol.
- A2** Mae pob arolygiad a gynhelir gan Arolygiaeth Carchardai EM yn cyfrannu at ymateb y DU i'w rhwymedigaethau rhyngwladol o dan y Protocol Opsiynol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedol yn erbyn Arteithio a Thriniaeth Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT). Yn ôl OPCAT mae'n ofynnol bod cyrff annibynnol yn ymweld yn rheolaidd â phob dalfa – a elwir y Mekanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) – sy'n monitro triniaeth ac amodau i garcharorion. Mae Arolygiaeth Carchardai EM yn un o sawl corff sy'n rhan o'r NPM yn y DU.
- A3** Mae pob un o adroddiadau'r Arolygiaeth Carchardai yn cynnwys crynodeb o amodau a thriniaeth y carcharorion, yn seiliedig ar bedwar prawf carchar iach a gyflwynwyd gyntaf yn adolygiad thematig yr arolygiaeth hon *Suicide is everyone's concern*, a gyhoeddwyd ym 1999. Y profion yw:

- Diogelwch** Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel.
- Parch** Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch i'w hurddas fel pobl.
- Gweithgaredd â phwrpas** Mae carcharorion yn gallu, ac y disgwylir iddynt, gymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt.
- Adsefydlu a chynllunio ar gyfer rhyddhau** Mae carcharorion yn cael eu cefnogi i gynnal a datblygu perthnasoedd gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael eu helpu i leihau'r tebygrwydd o ailddosedd ac mae eu risg o niwed yn cael ei rheoli'n effeithio. Mae carcharorion yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau i'r gymuned.

- A4** O dan bob prawf, rydym yn asesu canlyniadau ar gyfer carcharorion ac felly o berfformiad cyffredinol y sefydliad yn erbyn y prawf. Mae pedwar dyfarniad posibl: Mewn rhai achosion, effeithir ar y canlyniad hwn gan faterion sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y sefydliad, y bydd angen i Wasanaethau Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) roi sylw iddynt.

- **Mae'r canlyniadau i garcharorion yn dda.**  
Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y canlyniadau i garcharorion yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn unrhyw faes arwyddocaol.
- **Mae'r canlyniadau i garcharorion yn weddol dda.**  
Mae dystiolaeth o ganlyniadau andwyol i garcharorion mewn nifer fach o feysydd yn unig. Yn achos y mwyafrif, nid oes unrhyw bryderon mawr. Mae gweithdrefnau ar waith i ddiogelu canlyniadau.
- **Nid yw'r canlyniadau i garcharorion yn ddigon da.**  
Mae dystiolaeth bod carcharorion yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn sawl maes neu'n benodol yn y meysydd hynny o'r pwys mwyaf i les carcharorion. Mae problemau/pryderon, os na chânt sylw, yn debygol o ddatblygu i fod yn feysydd o bryder difrifol.

- **Mae'r canlyniadau i garcharorion yn wael.**  
Mae tystiolaeth bod y canlyniadau i garcharorion yn cael eu heffeithio'n ddifrifol gan yr arferion presennol. Nid yw'r carchar hyd yn oed yn gallu sicrhau triniaeth a/neu amodau boddhaol i'r carcharorion. Mae angen cymryd camau adfer ar unwaith.
- A5 Gall ein hasesiadau arwain at un o'r canlynol:
- **Argymhellion a phryderon allweddol:** nodi'r materion sydd bwysicaf i wella canlyniadau i garcharorion ac sydd wedi'u cynllunio i helpu sefydliadau i flaenoriaethu a mynd i'r afael â'r gwendidau mwyaf arwyddocaol yn y driniaeth o garcharorion a'u hamodau.
  - **Argymhellion:** bydd angen newid sylweddol ac/neu adnoddau newydd neu wedi'u hailgyfeirio, na ellir eu cyflawni ar unwaith, a byddant yn cael eu hadolygu ar gyfer eu gweithredu yn arolygiadau'r dyfodol.
  - **Enghreifftiau o arfer da:** arferion canmoladwy sydd nid yn unig yn cyrraedd neu'n rhagori ar ein disgwyliadau, ond y gallai sefydliadau eraill eu dilyn i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i garcharorion.
- A6 Mae arolygwyr yn defnyddio pum prif ffynhonnell o dystiolaeth: arsylwi; arolygon barn carcharorion; trafodaethau â staff a thrydydd parti perthnasol; a dogfennaeth. Yn ystod arolygon rydym yn defnyddio ymagwedd dull cymysg tuag at gasglu a dadansoddi data, gan ddefnyddio methodoleg ansoddol a meintiol. Mae tystiolaeth o wahanol ffynonellau'n cael ei thriongli i gryfhau dilysrwydd ein hasesiadau.
- A7 Heblaw am amgylchiadau eithriadol, mae ein holl arolygiadau yn ddirybudd ac yn cynnwys dilyniant o argymhellion yr arolygiad blaenorol.
- A8 Cynhelir pob arolygiad ar garchardai ar y cyd ag Ofsted neu Estyn (Cymru), y Comisiwn Ansawdd Gofal, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) ac Arolygiaeth Prawf EM. Mae'r gwaith ar y cyd hwn yn sicrhau bod gwybodaeth arbenigol yn cael ei defnyddio mewn arolygiadau ac yn osgoi cynnal sawl ymweliad arolygu.

## Yr adroddiad hwn

- A9 Dilynir yr esboniad hwn o'n hymagwedd gan grynodedb o ganfyddiadau ein harolygiad yn erbyn y pedwar prawf carchar iach. Dilynir hyn gan bedair adran sydd oll yn cynnwys adroddiad manwl ar ein canfyddiadau yn erbyn ein *Expectations. Criteria for assessing the treatment of prisoners and conditions in prisons (Fersiwn 5, 2017)*.<sup>2</sup> Mae'r cyfeirnodau ar ddiwedd rhai argymhellion yn dangos eu bod yn cael eu hailadrodd, ac yn rhoi lleoliad paragraff yr argymhelliad blaenorol yn yr adroddiad diwethaf. Mae Adran 5 yn coladu'r holl argymhellion ac enghreifftiau o arferion da sy'n deillio o'r arolygiad. Mae Atodiad II yn rhestru argymhellion o'r arolygiad blaenorol, ac a ydynt wedi'u cyflawni yn ôl ein hasesiad ni.
- A10 Ceir manylion am y tîm arolygu a phroffil poblogaeth y carchar yn yr atodiadau.
- A11 Mae canfyddiadau arolwg barn y carcharorion a disgrifiad manwl o fethodoleg yr arolwg i'w gweld yn atodiad olaf yr adroddiad hwn. Sylwer ein bod yn cyfeirio at gymarebau â sefydliadau cymaradwy neu arolygon blaenorol pan fydd y rhain yn arwyddocaol yn ystadegol yn unig.<sup>3</sup>


<sup>2</sup> <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprison/our-expectations/prison-expectations/>

<sup>3</sup> Mae'r lefel arwyddocaâd wedi'i phennu ar 0.01, sy'n golygu mai dim ond 1% o siawns sydd bod y gwahaniaeth mewn canlyniadau wedi digwydd drwy siawns.

# Crynodeb


- S1 Gwnaethom arolygu CEM y Parc ddiwethaf yn 2015 a gwneud cyfanswm o 37 o argymhellion. Derbyniodd y carchar 31 o'r argymhellion yn llawn a derbyn tri argymhelliad yn rhannol (neu'n destun adnoddau). Gwrthododd dri o'r argymhellion.
- S2 Yn yr arolygiad dilynol hwn, canfuom fod y carchar wedi cyflawni 17 o'r argymhellion hynny, roedd wedi cyflawni dau argymhelliad yn rhannol a heb gyflawni 17 o'r argymhellion. Nid oedd un argymhelliad yn berthnasol bellach.

**Ffigur 1: Cynnydd CEM y Parc ar argymhellion o'r arolygiad diwethaf (n=37)**



- S3 Ers ein harolygiad diwethaf o CEM y Parc, arhosodd y canlyniadau i garcharorion yr un fath mewn tri maes carchar iach, gyda Pharch yn parhau i fod yn weddol dda, a Gweithgaredd â Phwrpas ac Adsefydlu a chynllunio ar gyfer rhyddhau yn parhau i fod yn dda. Gwellodd diogelwch o ddim yn ddigon da i fod yn weddol dda.

**Ffigur 2: Canlyniadau carchar iach CEM y Parc 2015 a 2019<sup>4</sup>**



<sup>4</sup> Sylwer bod y meini prawf a aseswyd o dan bob maes carchar iach wedi'u diwygio ym mis Medi 2017. Mae canlyniadau carchar iach yn adlewyrchu'r disgwyliadau a oedd ar waith ar adeg pob arolygiad.

## Diogelwch

- S4** Cyrhaeddodd carcharorion y sefydliad gydag ystod o anghenion, yn enwedig problemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl. Roedd staff ar ddyletswydd noson gyntaf a chynefino yn gefnogol ac yn gweithio'n dda i fynd i'r afael â'r materion hyn. Roedd trais ymhlith carcharorion ychydig yn uwch nag mewn carchardai tebyg. Roedd rheoli ymddygiad yn weddol dda. Roedd goruchwyllo'r defnydd o rym yn arbennig o dda. Roedd y gyfundrefn ar yr uned wahanu yn gyfyngedig. Bu chwe marwolaeth drwy hunanladdiad ers yr arolygiad diwethaf. Roedd angen cymorth ar nifer fawr o garcharorion i atal hunan-niwed a hunanladdiad. Roedd rheolwyr wedi gweithredu mentrau i atal camddefnyddio sylweddau, lleihau'r risg o ddyled a darparu gweithgareddau i'r rheini mewn perygl. Roedd lefelau hunan-niwedid, er eu bod yn gostwng o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn llawer uwch nag ar adeg yr arolygiad blaenorol. **Roedd canlyniadau i garcharorion yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**
- S5** Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2015, canfuom nad oedd y canlyniadau i garcharorion yn CEM y Parc yn ddigon da yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Gwnaethom saith argymhelliad ym maes diogelwch.<sup>5</sup> Yn yr arolygiad hwn, canfuom fod chwech o'r argymhellion wedi'u cyflawni ac roedd un heb ei gyflawni.
- S6** Roedd cyfleusterau yn y dderbynfa wedi gwella ac yn dda. Roedd y carcharorion a welsom yn cael eu derbyn yn cael eu trin yn dda a'u cefnogi, ac roedd y gweithdrefnau asesu yn gadarn. Rhoddwyd blaenswm arian parod i garcharorion oedd newydd eu derbyn, er mwyn lleihau'r risg o gronni dyled.
- S7** Roedd lefelau uchel o angen wrth gyrraedd; yn ein harolwg, dywedodd 79% o ymatebwyr eu bod wedi cael problemau wrth gyrraedd y carchar, gyda mwy o garcharorion nag mewn carchardai tebyg yn dweud eu bod wedi dioddef iselder ysbryd, bod ganddynt broblemau camddefnyddio sylweddau neu fod ganddynt broblemau iechyd meddwl eraill.
- S8** Roedd celloedd y noson gyntaf yn lân ac wedi'u cyfarparu'n ddigonol. Roedd y broses gynefino ar gyfer carcharorion prif ffrwd yn gynhwysfawr, ac roedd bellach wedi'i threfnu'n mewn dau gam, er mwyn diwallu anghenion carcharorion tro cyntaf yn well. Roedd y broses gynefino ar yr uned carcharorion agored i niwed, er ei fod yn ddigonol, yn llai strwythuredig. Ymgynghorwyd â charcharorion ar sut y gellid gwella cynnwys a fformat y broses gynefino.
- S9** Roedd lefelau trais ymhlith carcharorion ychydig yn uwch nag mewn carchardai tebyg. Roedd nifer yr ymosodiadau ar staff yn isel. Roedd rheoli ymddygiad yn rhesymol ar y cyfan ond yn cael ei danseilio, yn rhannol, gan ddiffyg her a goruchwyliaeth gan rai staff. Defnyddiwyd cynlluniau herio, cefnogi ac ymyrryd<sup>6</sup> i fynd i'r afael ag ymddygiad treisgar a chefnogi dioddefwyr. Roedd y cynlluniau a adolygwyd gennym o ansawdd uchel ac roedd gan staff yr uned ddealltwriaeth dda ohonynt.
- S10** Ni ddefnyddiwyd y cynllun cymhellion ac ennill breintiau (IEP) gan staff i ysgogi ymddygiad da, er bod rhai cymhellion da ar waith. Roedd y cynllun cymhellion ar wahân ar gyfer pobl rhwng 18 a 25 oed ar uned B3 yn cymhell ymddygiad da, gyda gwobrwyon ar unwaith. Roedd nifer y dyfarniadau yn uwch nag mewn carchardai tebyg. Roedd cyhuddiadau'n briodol ar y cyfan

<sup>5</sup> Roedd hyn yn cynnwys argymhellion ynghylch triniaeth camddefnyddio sylweddau, sydd bellach yn ymddangos ym maes parch carchar iach yn ein cyhoeddiad Disgwyliadau wedi'u diweddarau (Fersiwn 5, 2017).

<sup>6</sup> Defnyddir cynlluniau herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP) gan bob garchar oedolion i reoli'r carcharorion hynny sy'n dreisgar neu'n peri risg uwch o fod yn dreisgar. Mae'r carcharorion hyn yn cael eu rheoli a'u cefnogi ar gynllun gyda thargedau unigol ac adolygiadau rheolaidd. Mae rhai carchardai hefyd yn defnyddio'r fframwaith CSIP i gefnogi dioddefwyr trais.

ond nid oedd cofnodion yn dangos ymholiad digonol. Roedd cyfran y dyfarniadau oedd heb eu datrys ar yr uned carcharorion agored i niwed yn rhy uchel.

- S11 Defnyddiwyd grym yn briodol i ddatrys achosion o drais. Roedd lefelau defnyddio grym yn weddol uchel. Roedd llywodraethu yn dda, gyda deunydd ffilm o'r holl ddigwyddiadau yn cael eu gwyllo. Roedd dadansoddi a defnyddio pwyntiau dysgu i hysbysu hyfforddiant gloywi yn arfer da. Roedd y broses sicrhau ansawdd ar gyfer gwaith papur defnyddio grym yn gynhwysfawr ac wedi lleihau lefelau'r adroddiadau defnydd o rym oedd heb eu cwblhau. Defnyddiodd staff eu camerâu fideo a wisgir ar y corff ar gyfer bron pob digwyddiad.
- S12 Roedd nifer y carcharorion a gadwyd yn yr uned wahanu yn is nag mewn carchardai cymharol. Fodd bynnag, roedd nifer fawr o garcharorion ar wahân ar yr unedau tra'n aros am ddyfarniad. Roedd y gyfundrefn ar yr uned wahanu yn gyfyngedig. Er gwaethaf rhywfaint o gynllunio ailintegreiddio, trosglwyddwyd cyfran fawr o'r rhai a gadwyd yn yr uned wahanu i sefydliadau eraill.
- S13 Roedd rheoli cudd-wybodaeth ddiogelwch yn dda, gydag ymateb rhagweithiol i'r wybodaeth a dderbyniwyd. Roedd polisi cynhwysfawr ar leihau cyflenwad cyffuriau ac roedd rheolwyr wedi gweithredu ystod o fesurau i leihau argaeledd cyffuriau. Roedd nifer y profion cyffuriau gorfodol positif, er eu bod yn is nag yn 2018/19, yn uwch nag mewn safleoedd cymharol ac ar adeg yr arolygiad blaenorol.
- S14 Roedd lefelau uchel o angen ymhlith y boblogaeth; yn ein harolwg, nododd 52% o garcharorion fod ganddynt broblem iechyd meddwl, ac roedd cyfran fawr (27%) wedi bod yn destun asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) ar gyfer rheoli achosion carcharorion mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio. Ystyriwyd bod lleihau hunan-niweidio yn flaenoriaeth, ac yn ystod y 12 mis blaenorol, mabwysiadwyd ymagwedd fwy integredig, yn seiliedig ar egwyddorion wedi'u hysbysu gan drawma, er mwyn ceisio cyflawni hyn. Roedd hyn yn cynnwys mwy o gyfranogiad gan staff arbenigol, a chamau i leihau'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon ac atal carcharorion rhag cronni dyled.
- S15 Er ei bod yn lleihau o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol, parhaodd y lefel hunan-niweidio i fod yn uchel ac roedd yn llawer uwch nag ar adeg yr arolygiad blaenorol. Ers yr arolygiad blaenorol, bu chwe marwolaeth wedi'u categorio fel hunan-achosedig a phump fel rhai nad oeddent yn naturiol, ac roedd un arall heb ei gategoreiddio eto. Cymerwyd argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (PPO) o ddifrif, a chynhaliwyd ymarferion 'dysgu gwers' yn brydlon. Roedd mwyafrif yr argymhellion wedi arwain at ymateb digonol, ond roedd gwendidau yn ansawdd y recordio a'r ffordd y cynhaliwyd gwiriadau trwy arsylwi. Yn ystod yr arolygiad, roedd 60 o garcharorion ar ddogfennaeth ACCT. Roedd y rhai y gwnaethom siarad â hwy yn gadarnhaol am eu triniaeth, yn enwedig y rhai ag anghenion cymhleth, wedi'u lleoli yn yr uned carchar mwy diogel. Roedd ansawdd dogfennaeth ACCT yn rhy amrywiol. Roedd diffyg manylion ar fapiau gofal ac roedd amseriad rhai arsylwadau'n rhy ragweladwy. Yn ogystal, roedd gwendidau mewn gofal iechyd meddwl. Gwnaeth rheolwyr ymdrechion arbennig i sicrhau bod carcharorion a oedd mewn perygl o hunan-niweidio a oedd hefyd ar lefel sylfaenol y cynllun IEP yn cael cyfleoedd i fynychu gwaith neu addysg.

## Parch

- S16** Roedd perthnasoedd rhwng staff a charcharorion yn gadarnhaol ac roedd y cynllun gweithwyr allweddol yn gweithio'n dda. Roedd y manau mewnol ac allanol yn lân, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac yn rhydd o graffiti. Roedd gan garcharorion ganfyddiadau gwael o'r bwyd a ddarperir, ac yn gyfiawn i deimlo hynny. Rheolwyd ceisiadau a chwynion yn dda. Roedd y tîm cydraddoldeb yn weddol newydd ac roedd yr ymgynghori'n datblygu'n dda. Roedd darpariaeth cydraddoldeb yn weddol dda i fwyafrif y grwpiau. Nid oedd y gaplaniaeth yn gallu diwallu anghenion pob ffydd. Roedd mwyafrif y gwasanaethau iechyd yn parhau i fod yn weddol dda ond roedd y ddarpariaeth iechyd meddwl eilaidd yn wael. **Roedd canlyniadau i garcharorion yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**
- S17** Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2015, canfuom fod canlyniadau i garcharorion yn CEM y Parc yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Gwnaethom 20 o argymhellion ym maes parch. Yn yr arolygiad hwn, canfuom fod saith o'r argymhellion wedi'u cyflawni ac na chyflawnwyd 13 ohonynt.
- S18** Yn ein harolwg, dywedodd 73% o'r ymatebwyr fod y rhan fwyaf o'r staff yn eu trin â pharch, ac yn gyffredinol gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng staff a charcharorion ym mhob maes. Roedd goruchwyliaeth staff yn dda ar y cyfan, ond ni heriwyd rhai achosion o dorri rheolau lefel is bob amser, megis fepio ar y landin. Roedd y cynllun gweithiwr allweddol wedi disodli'r cynllun swyddog personol, ac roedd hyn yn gweithio'n dda. Roedd carcharorion yn gadarnhaol am eu gweithiwr allweddol, ac roedd staff yn dangos dealltwriaeth dda o'r carcharorion a oedd dan eu gofal.
- S19** Roedd y tir o amgylch y carchar wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn daclus. Yn gyffredinol, roedd llety byw a manau cymunedol yn lân, wedi'u cyfarparu'n dda a heb fawr o graffiti. Roedd mynediad at ddeunydd glanhau, y golchdy a chawodydd yn eithaf da. Yn ein harolwg, dim ond 32% o ymatebwyr a ddywedodd fod clychau galw'r celloedd yn cael eu hateb o fewn pum munud, ac nid oedd unrhyw system ar waith o hyd i fonitro hyn.
- S20** Yn ein harolwg, dim ond 28% o'r ymatebwyr a ddywedodd fod ansawdd y bwyd a ddarparwyd yn dda neu'n eithaf da, a oedd yn waeth nag mewn carchardai cymharol. Atgyfnerthwyd y canfyddiad hwn gan ein harsylwadau ein hunain a sylwadau carcharorion yn ystod yr arolygiad. Roedd angen atgyweirio llawer o'r offer yn y gegin. Gellid bwyta pob pryd o fwyd ar y cyd, a gellid paratoi rhywfaint o fwyd ar yr unedau.
- S21** Cynhaliwyd rhai fforymau ymgynghori â charcharorion, ac roeddent wedi hysbysu newidiadau i garcharorion, ond roedd y rhain yn amrywio o ran rheoleidd-dra ar draws yr unedau. Roedd y system rheoli ganolog (CMS; y ciosgau electronig a ddefnyddir i brosesu ceisiadau carcharorion) yn boblogaidd ymhlith carcharorion, ac roeddent yn eu defnyddio i wneud y mwyafrif o'u ceisiadau. Fodd bynnag, roedd y system yn chwalu yn aml, a oedd yn achosi rhwystredigaeth ddealladwy. Roedd nifer y cwynion a gyflwynwyd yn debyg i'r nifer ar adeg yr arolygiad blaenorol, ac roedd y mwyafrif yn gysylltiedig ag eiddo, materion preswyl a bwyd. Roedd yr ymatebion a welsom yn barchus ac yn amserol.
- S22** Darlun cymysg oedd rheolaeth strategol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth; roedd strategaeth newydd ar waith ond nid oedd yn hysbys yn eang ac nid oedd unrhyw broses ar waith ar gyfer monitro ei gweithrediad. Roedd adroddiadau cydraddoldeb misol yn helaeth ac yn fanwl, ond wedi'u strwythuro yn y fath fodd fel ei bod yn anodd nodi achosion o anghymesuredd. Bu cyfarfod misol ar waith ers mis Medi 2019 ond nid oedd yn cael ei

fynychu'n dda. Roedd ei ffocws wedi'i gyfyngu'n bennaf i ystyried yr adroddiad cydraddoldeb misol. Roedd y cyfarwyddwr wedi mynd i'r afael ag oedi wrth ddelio â ffurflenni adrodd am achosion o wahaniaethu ac roedd y system yn gweithio'n effeithiol bellach. Roedd ymgynghoriadau rheolaidd gyda charcharorion â nodweddion gwarchodedig a rennir. Roedd y carchar yn darparu ystod o wasanaethau, cefnogaeth ac ymyriadau i garcharorion ag anghenion yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig penodol. Roedd cynlluniau unigol ar waith ar gyfer carcharorion trawsryweddol ond nid oeddent bob amser yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Nid oedd manylion carcharorion ar gynlluniau gadael mewn argyfwng ar gael yn rhwydd bob amser. Roedd y ddarpariaeth ffydd yn rhesymol ar gyfer y mwyafrif o garcharorion ond roedd diffyg caplaniaid ar gyfer rhai crefyddau yn golygu nad oedd pob carcharor yn gallu ymarfer ei ffydd yn llawn.

- S23 Disgrifiodd llawer o garcharorion fod mynediad at wasanaethau a thriniaethau iechyd yn broblemus, ond canfuom ystod o wasanaethau gofal sylfaenol priodol, gydag amseroedd aros byr i'r rhan fwyaf ohonynt, gan gynnwys y meddyg teulu. Roedd cefnogaeth i gleifion â chyflyrau tymor hir wedi gwella o ganlyniad i well staffio. Roedd trefniadau gofal cymdeithasol wedi'u sefydlu'n dda a chyflwynwyd pecynnau cymorth unigol da.
- S24 Roedd y galw am wasanaethau iechyd meddwl yn uchel ac, er bod gwasanaethau gofal sylfaenol wedi gwella, nid oedd gallu digonol yn y tîm iechyd meddwl eilaidd i ddarparu gofal a thriniaeth briodol i garcharorion ag anghenion cymhleth. Roedd y ddarpariaeth ar gyfer carcharorion ag anawsterau dysgu yn drawiadol.
- S25 Roedd y galw am driniaeth camddefnyddio sylweddau clinigol wedi mwy na dyblu ers yr arolygiad blaenorol ond roedd yn cael ei reoli'n dda, ac roedd cefnogaeth seicogymdeithasol ddynodedig yn gwella'r ddarpariaeth. Roedd goruchwyliaeth swyddogion o weinyddu meddyginiaeth ar y mwyafrif o unedau yn briodol ac roedd ciwiau wedi'u trefnu'n dda ar y cyfan, ond roedd y trefniadau yn y fferyllfa gofal iechyd yn annigonol.
- S26 Roedd mynediad at ddarpariaeth ddeintyddol yn dda, heblaw am garcharorion agored i niwed oedd yn preswyllo yn uned X, a oedd â mynediad mwy cyfyngedig i'r gwasanaeth.

## Gweithgaredd â phwrpas

**S27** Gallai'r mwyafrif o garcharorion gyrchu cyfundrefn a oedd yn bodloni ein disgwyliadau ac roedd llai o garcharorion dan glo yn ystod y diwrnod gwaith nag ar adeg yr arolygiad blaenorol. Roedd darpariaeth y gampfa a'r llyfrgell ill dau yn dda. Gweithiodd carcharorion i safon uchel mewn sawl maes ac roedd cyfraddau cyflawni yn dda. Roedd presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad mewn dysgu, hyfforddiant a gwaith yn dda. Roedd yr addysgu o safon uchel yn y mwyafrif o sesiynau ac roedd y defnydd o fentoriaid cymheiriaid yn rhagorol. Cyflwynodd rheolwyr gwricwlwm wedi'i gynllunio'n dda ac roedd digon o weithgareddau i ddifyrru'r boblogaeth. Roedd y gyfradd ddiweithdra wedi gostwng, ac roedd yn isel. **Roedd y canlyniadau i garcharorion yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.**

S28 Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2015, canfuom fod y canlyniadau i garcharorion yn CEM y Parc yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Gwnaethom bum argymhelliad ym maes gweithgaredd â phwrpas. Yn yr arolygiad hwn, canfuom fod dau o'r argymhellion wedi'u cyflawni, bod dau wedi'u cyflawni'n rhannol ac nad oedd un wedi'i gyflawni.

S29 Roedd amser allan o'r gell wedi cynyddu i'r rhan fwyaf o garcharorion, a gallai'r rhai ar lefel uwch y cynllun IEP a oedd yn gweithio'n llawn amser fod allan o'u celloedd am fwy na 12 awr

- y dydd bellach. Yn ein gwiriadau rhôl, canfuom fod 29% o garcharorion dan glo yn ystod y dydd, a oedd, er ei fod yn ormod, yn is nag ar adeg yr arolygiad blaenorol.
- S30 Roedd gwasanaeth y llyfrgell yn dda ar y cyfan ond, er gwaethaf camau a gymerwyd i wella'r ddarpariaeth i garcharorion agored i niwed, roedd y cynnig ar uned X yn dal i fod yn fwy cyfyngedig nag ar gyfer carcharorion eraill. Roedd y ddarpariaeth AG yn dda.
- S31 Mewn gweithdai galwedigaethol, cyrsiau cyflogadwy ac mewn sesiynau addysg, gwnaeth bron i bob carcharor gynnydd effeithiol tuag at eu nodau dysgu. Roedd eu cyfraddau llwyddiant cyffredinol yn gyson yn uwch na gofynion cytundebol y carchar, ac yn cymharu'n ffafriol â rhai carchardai eraill yng Nghymru. Enillodd bron pob dysgwr sgiliau defnyddiol a fyddai'n eu helpu i symud ymlaen i gyflogaeth neu hyfforddiant. Cwblhawyd gwaith cwrs a gwaith ymarferol i safon dda. Roedd enghreifftiau da o waith allgymorth yn cefnogi carcharorion i gymryd rhan mewn addysg ac i ddatblygu sgiliau hanfodol. Fe wnaeth llawer o ddysgwyr wella eu llythrennedd a'u rhifedd o leiaf un lefel, ac aeth ychydig ymlaen i lefel dau neu dri.
- S32 Roedd y rhan fwyaf o garcharorion yn gwybod gyda phwy i siarad os oedd ganddynt bryderon, ac roeddent yn dangos lefel uchel o ymddiriedaeth mewn staff addysgu a mentoriaid cymheiriaid. Fe wnaethant ymateb yn dda i ymyriadau a oedd yn cefnogi eu lles, megis rhaglenni adsefydlu, cwnsela, cymorth dysgu a'r celfyddydau creadigol. Datblygodd dysgwyr sgiliau pwysig mewn goddefgarwch, gwydnwch a pharch. Mynychodd y mwyafrif ohonynt eu gwersi yn rheolaidd ac yn brydlon. Fe wnaethant ymgartrefu mewn gweithgareddau strwythuredig yn gyflym, cynnal lefelau canolbwyntio da a chwblhau tasgau'n bwrpasol. Sefydlodd bron pob carcharor berthynas dda â thiworiaid, gan ddangos parch at staff a charcharorion eraill.
- S33 Datblygodd bron pob athro berthynas waith gadarnhaol a chefnogol gyda charcharorion. Darparodd llawer ohonynt anogaeth, cyngor ac adborth ar lafar gwerthfawr i helpu carcharorion i wella eu gwaith. Cynlluniodd sawl tiwtor sesiynau ymgysylltiol i helpu carcharorion i wella eu gwybodaeth a datblygu sgiliau newydd. Fodd bynnag, roedd ychydig o diwtoriaid nad oeddent yn darparu'n ddigon da ar gyfer yr ystod lawn o alluoedd dysgwyr gyda'u grwpiau. Manteisiodd llawer o diwtoriaid ar draws y ddarpariaeth ar gyfleoedd i ddatblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd carcharorion yng nghyd-destun y dysgu galwedigaethol neu academiaidd. Roedd y ddarpariaeth yn darparu ar gyfer galluoedd a diddordebau carcharorion yn dda, gan gynnig ystod eang o ddewis.
- S34 Gweithiodd mentoriaid cymheiriaid yn effeithiol gyda dysgwyr. Fe wnaethant gynefino dechreuwyr newydd, arddangos sgiliau a rhannu eu gwybodaeth â'u cyd-garcharorion, a chwarae rôl ddefnyddiol wrth asesu gwaith dysgwyr.
- S35 Aseswyd anghenion a galluoedd addysgol carcharorion yn effeithiol wrth eu cynefino. Defnyddiodd staff ganlyniadau asesu yn dda i nodi carcharorion ag anghenion ychwanegol. Roedd y rôl partner a mentor cymheiriaid wedi cael effaith gadarnhaol ar les a safonau'r partneriaid, mentoriaid a charcharorion cymheiriaid. Defnyddiwyd data yn dda i ddatblygu strategaethau a theilwra darpariaeth i gynorthwyo dysgwyr ar eu taith ddysgu a'u paratoi'n dda ar gyfer eu rhyddhau. Mewn ychydig o feysydd, ni rannwyd gwybodaeth am garcharorion yn effeithiol.
- S36 Roedd darpariaeth bwrpasol ddigonol i ddiwallu anghenion carcharorion, gyda chyfleoedd da iddynt gyfuno addysg a gweithio o fewn eu hamserlen gweithgareddau. Roedd nifer y carcharorion cwbl ddi-waith wedi lleihau ers yr arolygiad blaenorol, ac roedd yn isel. Roedd uwch arweinwyr yn blaenoriaethu dysgu, sgiliau a chyflogaeth o ran cynllunio a rheolaeth strategol y carchar. Roedd adroddiad hunanasesu cynhwysfawr yn meincodi lefelau perfformiad dysgwyr yn erbyn y rhai a gofnodwyd ar gyfer ystod eang o ddarparwyr tebyg, gan wneud defnydd effeithiol o ddata i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn y ddarpariaeth.



Roedd y cynllun datblygu ansawdd yn blaenoriaethu meysydd i'w datblygu yn briodol, a chafodd cynnydd ei fonitro. Gwnaeth cynllunio ddefnydd effeithiol o wybodaeth am y farchnad lafur a phartneriaethau cyflogwyr, i hysbysu datblygiad gweithgareddau dysgu a oedd yn gwella cyfleoedd carcharorion am gyflogaeth. Roedd gan staff fynediad da at hyfforddiant, ond mewn rhai achosion, nid oedd asesu perfformiad yn ystyried anghenion datblygu staff yn llawn. Er bod y carchar wedi buddsoddi'n helaeth mewn offer technoleg gwybodaeth, nid oedd gosodiad y campws rhithwir (mynediad i'r rhyngwyrdd i garcharorion i gyfleodd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth gymunedol) wedi'i gwblhau eto.

## Adsefydlu a chynllunio ar gyfer rhyddau

**S37** Roedd gwaith i gefnogi carcharorion i gynnal cysylltiad â phlant, teuluoedd ac eraill arwyddocaol ymhlith y gorau yr ydym wedi'i weld. Roedd rheolwyr wedi gweithredu'r model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa yn dda. Gweithiodd rheolwyr troseddwyr yn galed i gwblhau asesiadau system asesu troseddwyr (OASys), ac roedd yr ôl-groniad yn fach. Roedd y cyswllt rhwng gweithwyr allweddol a charcharorion yn dda ac roedd cyswllt rheolaidd rhwng rheolwyr troseddwyr y carchar a'u cymheiriaid yn y gymuned. Roedd trefniadau amddiffyn y cyhoedd yn dda. Ac eithrio carcharorion a euogfarnwyd o droedd rywiol, darparwyd ystod eang o raglenni ac ymyriadau priodol. Darparodd y cwmni adsefydlu cymunedol asesiad amserol o anghenion carcharorion oedd yn agosáu at gael eu rhyddhau, ond nid oedd gan oddeutu 17% o garcharorion lety i fynd iddo ar ddiwrnod rhyddhau. **Roedd canlyniadau i garcharorion yn dda yn erbyn y prawf carchar iawn hwn.**

**S38** Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2015, canfuom fod y canlyniadau i garcharorion yn CEM y Parc yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Gwnaethom bum argymhelliad ym maes ailsefydlu. <sup>7</sup> Yn yr arolygiad hwn, canfuom fod dau o'r argymhellion wedi'u cyflawni, na chyflawnwyd dau ac nad oedd un yn berthnasol bellach.

**S39** Yn ein harolwg, atebodd mwy o garcharorion nag mewn carchardai cymharol y rhan fwyaf o'r cwestiynau ynghylch cynnal cysylltiad â theulu a ffrindiau yn gadarnhaol. Roedd y carchar wedi cynnal ei ymagwedd drawiadol i gefnogi cysylltiadau carcharorion â theuluoedd ac eraill arwyddocaol, ac ers yr arolygiad diwethaf roedd hefyd wedi ehangu'r ddarpariaeth oedd ar gael. Roedd cyfleusterau ymweliadau yn dda, gan gynnwys y rhai ar gyfer carcharorion agored i niwed. Ategwyd yr amserlen ymweliadau dyddiol gan ymweliadau teuluol a mentrau fel digwyddiadau rhieni/athrawon. Roedd Barnado's Cymru yn rhedeg y ganolfan ymwelwyr ac yn darparu cefnogaeth i garcharorion a'u teuluoedd.

**S40** Roedd gan y carchar strategaeth lleihau aildroseddu gynhwysfawr, yn seiliedig ar ddadansoddiad da o anghenion carcharorion, ac roedd wedi gwneud cynnydd da o ran cyflwyno Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC),<sup>8</sup> gan gynnwys darparu gweithwyr allweddol a rheolwyr troseddwyr carchar (POM). Gwnaethom adolygu 15 achos o garcharorion a oedd wedi cyrraedd yn ddiweddar, a oedd ar fin cael eu rhyddhau neu yn y sefydliad yn y tymor hir. Roedd asesiad system asesu troseddwyr (OASys) ar waith ar gyfer pob achos a oedd ei angen, wedi'i gwblhau i safon resymol, a hefyd cynllun dedfryd a chynllun rheoli risg lle bo angen.

<sup>7</sup> Roedd hyn yn cynnwys argymhellion ynghylch cynllunio ailintegreiddio ar gyfer materion cyffuriau ac alcohol ac ailintegreiddio ar gyfer addysg, sgiliau a gwaith, sydd bellach yn ein dogfen *Expectations* (Fersiwn 5, 2017) wedi'u diweddarau yn ymddangos o dan y meysydd carchar iach sef parch a gweithgaredd â phwrpas yn y drefn honno.

<sup>8</sup> Cyflwynwyd y model OMiC yn 2017. Yn y cam cyntaf, cyflwynwyd gweithwyr allweddol swyddogion y carchar gyda'r nod o gael cyswllt rheolaidd â charcharorion unigol. Yn yr ail gam, cyflwynir rheolwyr troseddwyr craidd a rheolwyr troseddwyr carchar.

- S41 Roedd ôl-groniad OASys yn fach. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd gan 86 o garcharorion asesiad lle y dylent fod wedi cael asesiad; cyfrifoldeb y carchar oedd 54 o'r rhain, ac roedd 32 yn gyfrifoldeb partneriaid cymunedol. Roedd y carchar yn mynd ar drywydd y rhain. Roedd POM wedi gweld carcharorion nad oeddent yn gymwys i gael OASys o dan OMiC, ac roedd hyn wedi arwain at greu dogfen a rennir a oedd yn weladwy i holl staff y carchar. Roedd yn mynd i'r afael â sgrinio am risg o niwed, ymyriadau, statws ymadawr gofal ac yn cofnodi manylion cyswllt â'r carcharor.
- S42 Roedd gweithrediad OMiC wedi'i ddatblygu'n dda. Cynhaliwyd sesiynau gwaith allweddol yn rheolaidd ac roedd tystiolaeth o gysylltu â'r uned rheoli troseddwr (OMU) a'r tîm ailsefydlu. Roedd llwyth achosion yn uchel, ac roedd cyswllt ystyrllon rhwng carcharorion a POMs yn isel. Lliniarwyd y diffyg cyswllt rheolaidd hwn gan fewnbwn rheolaidd y gweithwyr allweddol. Roedd gormod o garcharorion wedi profi oedi cyn eu rhyddhau ar gyrffw cyfyngu i'r cartref.
- S43 Rhoddwyd blaenoriaeth briodol i waith amddiffyn y cyhoedd. Nododd yr asesiadau cychwynnol a wnaed gan POM a gweinyddwyr bryderon perthnasol ac roeddent yn cynnwys amodau trwydded priodol ar gyfer eu rhyddhau. Roedd yn amlwg o'r achosion a adolygwyd gennym fod yr OMU wedi rheoli achosion rhyddhau trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAAPA) yn effeithiol, gan gynnwys cwblhau gwaith papur rhannu gwybodaeth (ffurflenni F MAPP) a rhannu gwybodaeth rhwng y POM a'r rheolwr troseddwr cymunedol. Roedd prosesau i asesu cyfyngiadau cyswllt plant yn effeithiol, a rheolwyd trefniadau i gynnal ac adolygu monitro galwadau ffôn a phost yn dda.
- S44 Roedd prosesau ail-gategoreiddio yn brydlon, ond gallai trosglwyddiadau i'r ystâd agored fod yn araf ac nid oedd y carchar wedi gwneud unrhyw ddefnydd o ryddhau ar drwydded dros dro i liniaru hyn.
- S45 Cynigiodd y carchar sawl ymyrraeth achrededig a heb eu hachredu, ond nid oedd unrhyw beth i garcharorion a euogfarnwyd o droseddau rhywiol, er bod y carchar wedi gwneud ymdrechion sylweddol i ddarparu rhaglen addas yn fewnol. Roedd hwn yn fwch mawr yn y ddarpariaeth, o ystyried bod y carcharorion hyn yn llunio 17% o'r boblogaeth. Cafodd hyn ei liniaru i raddau gan nifer y trosglwyddiadau blaengar a drefnodd y carchar i sefydliadau eraill a oedd yn cynnig ymyriadau a oedd yn mynd i'r afael â throsteddu rhywiol.
- S46 Ar gyfartaledd, rhyddhawyd mwy na 100 o garcharorion bob mis. Darparodd y cwmni adsefydlu cymunedol asesiad amserol o'u hanghenion. Er gwaethaf ymdrechion gorau staff, roedd tua 17% o garcharorion wedi cael eu rhyddhau heb gyfeiriad yn ystod y chwe mis blaenorol. Helpodd staff Ymddiriedolaeth St Giles garcharorion i agor cyfrifon banc cyn eu rhyddhau. Rhoddodd gweithwyr ar y safle y Ganolfan Byd Gwaith gyngor ar hawlio budd-daliadau yn ogystal â threfnu apwyntiadau cymunedol i garcharorion wneud hawliadau ar ôl cael eu rhyddhau. Roedd y trefniadau ar gyfer y diwrnod rhyddhau yn dda.

## Argymhellion a phryderon allweddol

- S47 Pryder allweddol: Ymddengys fod lefel yr angen ymhlith poblogaeth y carchar wedi cynyddu, ac roedd hyn yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau cefnogi. Er gwaethaf tystiolaeth o ddirywiad yn ystod y flwyddyn flaenorol, parhaodd y lefel hunan-niweidio i fod yn uchel iawn ac roedd, ynghyd â'r nifer gymharol uchel o farwolaethau o hunanladdiad, yn parhau i beri pryder difrifol.

### **Argymhelliad: Dylid lleihau lefelau hunan-niweidio ar frys.**

- S48 Pryder allweddol: Roedd y galw am wasanaethau iechyd meddwl yn uchel ac nid oedd y ddarpariaeth gwasanaeth yn bodloni'r galw. Er bod y gefnogaeth a oedd ar gael ar gyfer mân

broblemau neu broblemau cymedrol wedi gwella, roedd yr ystod o ymyriadau a chefnogaeth arbenigol i garcharorion ag anghenion mwy cymhleth yn annigonol ac roedd gormod o gleifion yn aros yn rhy hir i gael mynediad at wasanaethau presennol.

**Argymhelliad: Dylid sefydlu anghenion iechyd meddwl y boblogaeth a dylai'r model gwasanaeth ddarparu asesiad prydlon a mynediad amserol i gefnogaeth integredig ac ystod lawn o ymyriadau therapiwtig ar gyfer yr holl gyflyrau seiciatrig.**

S49 Pryder allweddol: Dim ond un sesiwn ddeintydd wythnosol y gallai carcharorion agored i niwed ar uned X gael mynediad iddi, a allai fod wedi arwain atynt yn wynebu oedi wrth dderbyn gofal ar frys.

**Argymhelliad: Dylai fod gan bob carcharor fynediad teg at ofal deintyddol, gan gynnwys darparu gofal brys.**

S50 Pryder allweddol: Nid oedd targedau cynllun dysgu unigol carcharorion yn glir yn gyson, nac wedi'u personoli i ysgogi cynllunio gwella. Mewn lleiafrif o achosion, nid oeddent yn ddigon manwl i helpu carcharorion i ganolbwyntio ar yr union beth oedd angen iddynt ei wneud yn y tymor byrrach i wneud y cynnydd gorau y gallent.

**Argymhelliad: Dylid personoli targedau cynllun dysgu unigol carcharorion i ysgogi cynllunio gwella.**

S51 Pryder allweddol: Euogfarnwyd dau ar bymtheg y cant o boblogaeth y Parc o drosedd rhywiol ond nid oedd unrhyw ymyriadau penodol ar gael yno i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol. Yn hytrach, roedd yn rhaid iddynt drosglwyddo i garchardai eraill i gael mynediad at ymyriadau.

**Argymhelliad: Dylai carcharorion sy'n euog o droseddau rhywiol allu cael mynediad at ymyriadau ymddygiad troseddol perthnasol heb fod angen trosglwyddo i garchar arall.**

S52 Pryder allweddol: Er gwaethaf ymdrechion y tîm ailsefydlu a'r carchar, roedd tua 17% o garcharorion a ryddhawyd yn ystod y chwe mis blaenorol wedi gadael y carchar heb gyfeiriad i fynd iddo, a danseiliodd gyfleoedd ailsefydlu.

**Argymhelliad: Dylai HMPPS weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod llety ar gael i garcharorion sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa.**



# Adran 1. Diogelwch

**Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu dal yn ddiogel.**

## Dyddiau cynnar yn y ddalfa

### Canlyniadau disgwylidig:

**Mae carcharorion sy'n cael eu trosglwyddo'n ôl a blaen o'r carchar yn ddiogel ac yn cael eu trin yn deg. Ar gyrraedd, mae carcharorion yn ddiogel ac yn cael eu trin â pharch. Nodir risgiau a rhoddir sylw iddynt yn y dderbynfa. Cefnogir carcharorion ar eu noson gyntaf. Mae'r rhaglen gynefino yn gynhwysfawr.**

- I.1 Ni chawsom unrhyw gwynion am y ffordd yr oedd newydd-ddyfodiaid yn cael eu trin yn ystod eu taith i'r carchar. Roedd achosion o gyrraedd y carchar yn hwyr yn brin ac ymdriniwyd â'r rhan fwyaf o dderbyniadau newydd yn ystod y diwrnod gwaith, pan oedd digon o staff ar gael.
- I.2 Roedd y dderbynfa yn eang, yn lân ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda, ac roedd yn rhoi argraff gyntaf gadarnhaol o'r carchar. Roedd y cyfleusterau yn y dderbynfa wedi gwella ers yr arolygiad blaenorol, gyda mwy o le ar gyfer cyfweiliadau preifat ac ystafell ddal ar wahân oedd bellach wedi'i neilltuo ar gyfer carcharorion agored i niwed, gan ganiatáu i'r carcharorion hyn gael eu gwahanu'n haws. Yn ddiweddar gosodwyd peiriant sganio'r corff yn y dderbynfa ac, ar ôl rhai problemau sefydlu cychwynnol, roedd y dechnoleg hon a gweithdrefnau newydd wrthi'n cael eu treialu.
- I.3 Yn ein harolwg, dywedodd 79% o ymatebwyr eu bod wedi cael problemau pan gyrhaeddodd nhw, a oedd yn uwch nag ar adeg yr arolygiad blaenorol (61%): dywedodd 42% eu bod wedi dioddef o iselder ysbryd, dywedodd 30% eu bod wedi cael problemau iechyd meddwl eraill, a dywedodd 18% eu bod wedi cael problemau gyda chyffuriau neu alcohol, pob un yn uwch na'r cymaryddion priodol.
- I.4 Ymdriniwyd yn gwrtais ac yn sensitif â'r carcharorion a welsom yn cael eu derbyn i'r carchar, ac adlewyrchwyd hyn yng nghanlyniadau ein harolwg. Cafodd newydd-ddyfodiaid gyfweiliad asesu cychwynnol cynhwysfawr, a gynhaliwyd gan aelod o staff yn breifat. Yna cawsant eu gweld am drafodaeth fwy anffurfiol gan garcharor Mewnol (carcharor sy'n cyflwyno newydd-ddyfodiaid i fywyd yn y carchar), a roddodd ddiod boeth iddynt a gwybodaeth ar lafar ac ysgrifenedig iddynt am arferion y carchar a'r gwasanaethau y gellid eu cyrchu. Mewn ymgais i leihau'r risg o gronni dyled, ac fel rhan o'r ymgais gyffredinol i leihau hunan-niweidio, rhoddwyd blaenswm arian parod i garcharorion oedd newydd eu derbyn. Roedd y fenter ddefnyddiol hon yn cael ei datblygu ymhellach trwy gynnig a oedd newydd gael ei gyflwyno, i gael cyllid i sefydlu siop fach yn y dderbynfa. Byddai hyn yn galluogi carcharorion i gael gafael ar y cynnyrch a brynwyd ganddynt ar unwaith, gan ddileu'r oedi gyda'r system gyfredol (gweler paragraff 2.13 hefyd).
- I.5 Roedd celloedd noson gyntaf yn lân ac wedi'u cyfarparu'n ddigonol. Lleolwyd carcharorion prif ffrwd ar A2 i gychwyn, ac roedd carcharorion agored i niwed oedd newydd gyrraedd bellach yn cael eu lleoli yn uned XI, ac nid oeddent bellach yn rhannu cyfundrefn ranedig â carcharorion eraill yn yr uned garchar mwy diogel. Yn ein harolwg, roedd ymatebion i gwestiynau am fynediad i opsiynau amnewid nicotin, pethau ymolchi a galwad ffôn am ddim ar y noson gyntaf yn well nag mewn carchardai cymharol. Cynhaliwyd gwiriad lles gweledol

ychwanegol ar bob newydd-ddyfodiad cyn hanner nos, yn ogystal â thri gwiriad afreolaidd arall yn ystod y nos.

- I.6** Trefnwyd y broses gynefino ar gyfer carcharorion prif ffrwd yn ddau gam, ac roedd yn gynhwysfawr. Cynhaliwyd y rhan gyntaf ar A2 a pharhaodd am dridiau. Cyflwynwyd hyn gan gynrychiolwyr carcharorion a staff, ac roedd yn cwmpasu'r gofynion gorfodol. Dyluniwyd yr ail adran, a ddarparwyd ar A4, ar gyfer carcharorion newydd i'r ddalfa, a pharhaodd am bythefnos. Roedd yr ail gam defnyddiol hwn yn cynnwys mewnbwn defnyddiol a pherthnasol ar sut i osgoi mynd i ddyled; deunydd addysgol am effaith defnyddio cyffuriau anghyfreithlon; a hyfforddiant sylfaenol ar gymorth cyntaf. Roedd carcharorion agored i niwed yn cael eu sesiwn gynefino ar XI; arweiniwyd hyn gan un aelod o staff ac roedd yn llai strwythuredig nag ar gyfer carcharorion prif ffrwd, ond roedd yn ddigonol.
- I.7** Ymgynghorwyd â charcharorion ar sut y gellid gwella cynnwys a fformat y broses gynefino, ac roedd yr ymarfer diweddaraf i fod i arwain at symleiddio ail gam y rhaglen gynefino.

## Rheoli ymddygiad

### Canlyniadau disgwylidig:

**Mae carcharorion yn byw mewn amgylchedd diogel, trefnus ac ysgogol lle mae eu hymddygiad cadarnhaol yn cael ei hyrwyddo a'i wobrwyo. Ymdrinnir ag ymddygiad annerbyniol mewn modd gwrthrychol, teg, cymesur a chyson.**

### Annog ymddygiad cadarnhaol

- I.8** Roedd lefelau trais ymhlith carcharorion wedi cynyddu ers yr arolygiad blaenorol, ac roeddent ychydig yn uwch nag mewn sefydliadau eraill, ond roeddent wedi bod yn gostwng bob blwyddyn ers cyrraedd uchafbwynt yn 2017.
- I.9** Yn ystod y chwe mis blaenorol, bu 45 o ymosodiadau yn erbyn staff, a oedd yn is nag mewn carchardai tebyg a thua'r un fath ag ar adeg yr arolygiad blaenorol. Dim ond pum ymosodiad difrifol a fu yn erbyn staff yn y cyfnod hwn, a oedd yn is nag mewn carchardai cymharol.
- I.10** Yn ddiweddar, roedd yr uwch dîm rheoli wedi adolygu strwythur yr adran carchar mwy diogel, a oedd yn rheoli'r strategaeth lleihau trais a'r systemau a ddefnyddir i reoli trais. Roeddent wedi cyflogi dadansoddwr ymddygiad ac wedi cyflwyno uwch aelod o staff fel rheolwr lleihau niwed, ac roedd eu mewnbwn i'w weld yn ansawdd uchel y cynlluniau herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP).<sup>9</sup> Ar gyfer pob CSIP, roedd cynllun gweithredu manwl a oedd wedi'i deilwra'n benodol i'r carcharor, a dyrannwyd uwch aelod o staff fel rheolwr achos. Roedd 17 CSIP ar waith ar adeg yr arolygiad. Yn ogystal â'r uwch dîm, roedd pum gweithiwr cynnal ac ymgysylltu, a gyfarfu â'r carcharorion ar CSIP yn rheolaidd, yn ymwneud â'u rheolaeth o ddydd i ddydd ac yn cynnal ymchwiliadau i bob digwyddiad treisgar.
- I.11** Roedd cyfarfod ymyrraeth diogelwch wythnosol, a oedd yn trafod pob carcharor ar CSIP, yn adolygu pob cynllun gweithredu ac yn gwneud argymhellion pellach i gefnogi'r carcharorion dan sylw. Roedd y cyfarfod hwn yn amlasiantaethol ac yn fanwl, gyda mewnbwn da gan staff y gwasanaethau iechyd; roedd yn amlwg bod y carcharorion dan sylw yn hysbys iawn a bod y camau a drafodwyd yn cael eu cwblhau fel blaenoriaeth. Gwnaed staff ar yr unedau yn

<sup>9</sup> Mae pob carchar oedolion yn defnyddio cynlluniau herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP) i reoli'r carcharorion hynny sy'n dreisgar neu sy'n peri risg uwch o fod yn dreisgar. Mae'r carcharorion hyn yn cael eu rheoli a'u cefnogi ar gynllun gyda thargedau unigol ac adolygiadau rheolaidd. Mae rhai carchardai hefyd yn defnyddio'r fframwaith CSIP i gefnogi dioddefwyr trais.

ymwybodol o bob carcharor ar CSIP trwy sesiynau briffio a thaflen wybodaeth fewnol wedi'i seilio ar y fewnwyd.

- I.12** Roedd y tîm carchar mwy diogel hefyd wedi adolygu strategaeth a fformat cyfarfod lleihau trais, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r system flaenorol a mewnbwn gan y tîm newydd â chymhwyster proffesiynol i hysbysu'r broses hon. Roedd y cyfarfodydd a'r cynllun gweithredu canlyniadol o ansawdd uchel.
- I.13** O'r 17 CSIP a welsom, dim ond un oedd ar gyfer dioddefwr trais. Gwelsom chwech o garcharorion a oedd yn hunan-ynysu ac yn aros yn eu celloedd gan eu bod yn teimlo'n anniogel – pump oherwydd dyled ac un oherwydd natur ei drosedd. Cyfyngwyd y gyfundrefn ar gyfer y carcharorion hyn i un awr allan o'u celloedd bob dydd, pan ganiatawyd iddynt fynd y tu allan, gwneud ceisiadau a golchi dillad. Roedd y carchar yn monitro'r grŵp hwn yn dda; ceisiodd y tîm cefnogi ac ymgysylltu i'w hailintegreiddio ond nid oedd unrhyw gynlluniau ffurfiol, prinder cefnogaeth arall a dim ond ychydig o ymyriadau ar gael iddynt, ac roedd bron pob un ohonynt wedi'u cofrestru i'w trosglwyddo i garchardai eraill.
- I.14** Gweithredodd y carchar ddau gynllun cymhellion ac ennill breintiau (IEP); un ar gyfer y grŵp oedran 18-25 oed (yn preswyllo yn uned B3) ac un ar gyfer gweddill y carchar. Nod y cynlluniau hyn oedd hyrwyddo ymddygiad da a herio ymddygiad gwael lefel isel heb droi at gyhuddiadau o dan y cod disgyblaeth.
- I.15** Roedd rhai mentrau da ar waith i hyrwyddo ymddygiad da, ond nid oedd staff bob amser yn defnyddio'r rhain ac roedd gorddibyniaeth ar y system ddyfarniadau. Gwnaethom arsylwi ar sawl achlysur pan nad oedd staff yn herio ymddygiad gwael lefel isel carcharorion – er enghraifft, feipio ar y landin, rhegi a pheidio â gwisgo'n briodol (gweler paragraff 2.2 hefyd).
- I.16** Roedd y prif gynllun IEP yn gweithio ar system bwyntiau; os enillodd carcharor 10 pwynt, fe symudodd i fyny naill ai i'r lefel safonol neu'r lefel uwch (yn dibynnu ar ei lefel bresennol); pe byddent yn colli 10 pwynt, gallent gael eu hisraddio un lefel. Roedd cymhellion da i symud ymlaen, ac ychydig o garcharorion oedd ar lefel sylfaenol y cynllun ar unrhyw un adeg. Roedd gan y rhai a oedd ar y lefel sylfaenol gynlluniau rheoli ymddygiad cynhwysfawr ac adolygiadau wythnosol.
- I.17** Roedd y cynllun IEP ar B3 wedi'i gymell, gyda gwobrwyon ar unwaith a slipiau teilyngdod am ymddygiad da. Roedd y tri carcharor gyda'r nifer fwyaf o deilyngdod ar ddiwedd y mis yn dewis gwobr; roedd hyn yn boblogaidd ymhlith y carcharorion hyn ac roedd wedi gwella safonau ymddygiad.

## Dyfarniadau

- I.18** Bu 3,904 o ddyfarniadau yn ystod y chwe mis blaenorol, a oedd yn uwch nag mewn carchardai cymharol. Roedd gormod o gyhuddiadau am droseddau lefel isel y dylid bod wedi delio â nhw trwy ddefnyddio'r cynllun IEM neu drwy siarad â'r carcharorion dan sylw. Cynhaliwyd dyfarniadau ar gyfer carcharorion agored i niwed a phrif ffrwd yn yr uned carcharorion agored i niwed ac yn yr uned wahanu, yn y drefn honno, ac fe'u rheolwyd ar wahân.
- I.19** Cynhaliwyd y mwyafrif o ddyfarniadau ar yr uned wahanu. Er mwyn sicrhau bod modd rheoli nifer y dyfarniadau oedd yn weddill o hyd, clywyd 25 bob dydd; roedd hyn yn cynnwys yr holl gyhuddiadau newydd, gyda'r gweddill yn dod o'r rhai a ohiriwyd am amryw reswm. Roedd y fenter hon wedi gweithio i gadw'r ôl-groniad i lawr, a dim ond 97 oedd heb eu penderfynu ar y diwrnod y gwnaethom arolygu hyn. Fodd bynnag, roedd hyn wedi dylanwadu ar ansawdd yr ymholiad ym mhob dyfarniad, a gwelsom rai enghreifftiau gwael yn y cofnodion a welsom. I

gymhlethu hyn, roedd y cyfarwyddwr wedi atal y broses sicrhau ansawdd, ac felly aeth yr ymholiad ansawdd gwael hwn heb ei herio.

- I.20** Roedd cyfanswm o 190 o ddyfarniadau wedi'u cynnal ar yr uned carcharorion agored i niwed yn ystod y chwe mis blaenorol. Roedd lefelau ymholi ar gyfer y rhain yn well nag ar yr uned wahanu, oherwydd bod gan gyfarwyddwyr unedau fwy o amser i gynnal y gwrandawiadau. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad roedd 57 o wrandawiadau heb eu clywed a oedd wedi'u gohirio, gyda rhai ohonynt yn dyddio'n ôl chwe mis.
- I.21** Roedd y system a ddefnyddiwyd i ddarparu adroddiad ymddygiad ar gyfer carcharorion a euogfarnwyd yn dda. Roedd yn cynnwys cofnod cronolegol o ddyfarniadau yn y gorffennol a'r gosb a roddwyd am bob canfyddiad o euogrwydd, ac adroddiadau ymddygiad gan swyddogion uned, goruchwylwyr gwaith ac unrhyw staff eraill â buddiant a oedd wedi helpu. Roedd y cosbau a roddwyd yn gymesur.

## Defnyddio grym

- I.22** Defnyddiwyd grym 584 gwaith yn ystod y chwe mis blaenorol, a oedd yn uwch nag mewn carchardai cymharol ac ar adeg yr arolygiad blaenorol.
- I.23** Roedd uwch reolwr yn goruchwyllo tîm bach a oedd yn cynnwys cydlynnydd rheoli ac ataliaeth<sup>10</sup> a oedd hefyd yn hyfforddwr, a gweinyddwr a oedd yn rheoli ac yn cynghori ar ddefnyddio grym ar draws y carchar. Roedd y cydlynnydd yn gwyllo deunydd ffilm o'r holl ddefnydd o rym, er mwyn sicrhau ei fod yn briodol ac i dynnu sylw at unrhyw anghenion hyfforddi. Roedd digonedd o ddefnydd ffilm ar gael ar gyfer pob digwyddiad gan fod y carchar yn gweithredu teledu cylch cyfyng eang, ac roedd staff yn gwisgo eu camerâu fideo ar gyfer bron pob digwyddiad. Os gwelwyd aelod o staff ar adolygiad heb i'w gamera gael ei droi ymlaen (wedi'i nodi gan olau coch ar y camera) yn ystod digwyddiad, byddent yn cael eu ceryddu gan reolwr.
- I.24** Amlygwyd unrhyw achosion o ddefnyddio grym yn amhriodol neu ddefnydd gwael o dechnegau rheoli ac ataliaeth yn y cyfarfod defnyddio grym misol, ynghyd â dadansoddiad cynhwysfawr o'r rhesymau dros ddefnyddio grym. Roedd y dadansoddiad hwn yn fanwl, gan ystyried a oedd yr unigolyn dan sylw ar ddogfen rheoli achos asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT), neu a oedd ganddo broblemau iechyd meddwl; y staff dan sylw; y rhan o'r carchar lle digwyddodd yr achos a nifer o ffactorau eraill. Roedd hyn yn galluogi'r carchar i gael dealltwriaeth dda o'r rheswm dros ddefnyddio grym ac i hysbysu strategaeth i geisio lleihau ei ddefnydd.
- I.25** Defnyddiodd yr hyfforddwyr y gwersi a ddysgwyd o'r dadansoddiad hwn a gwyllo deunydd ffilm i wella hyfforddiant i staff hefyd. Defnyddiwyd deunydd ffilm, gan guddio hunaniaeth yr unigolion dan sylw, i ddangos arfer da a gwael i staff. Gwelwyd effaith hyn yn y deunydd ffilm o'r achosion a welsom, gyda staff yn defnyddio technegau dad-ddwysáu ym mhob achos ac yn gwneud defnydd da o dechnegau rheoli ac ataliaeth.
- I.26** Cwblhawyd adroddiadau defnyddio grym mewn modd amserol; ar adeg yr arolygiad, dim ond 27 oedd heb eu cwblhau ar gyfer y 12 mis diwethaf. Roedd y rheolwr ar ddyletswydd yn awdurdodi pob achos defnyddio grym a gynlluniwyd ac yn goruchwyllo'r digwyddiad, ac yna'n cwblhau adolygiad cychwynnol ac yn dechrau ar y broses sicrhau ansawdd. Roedd y broses sicrhau ansawdd ar gyfer gwaith papur defnyddio grym yn dda; fe'i cymeradwywyd yn ffurfiol

<sup>10</sup> 'Rheolaeth ac ataliaeth' yw'r term a ddefnyddir gan HMPPS ar gyfer y technegau a'r rheoliadau a ddefnyddir gan staff hyfforddedig i atal carcharorion gwrywaidd gwrthsafol sy'n oedolion ac adfer trefn ar ôl gweithredoedd o annisgyblaeth gydlynol.



gan y dirprwy gyfarwyddwr ac roedd yn darparu lefel arall o ddiogelu i'r broses adolygu a oedd eisoes yn drawiadol.

**I.27** Ni ddefnyddiwyd llety arbennig yn ystod y chwe mis blaenorol.

## Arfer da

**I.28** *Roedd ansawdd defnyddio grym, ei reolaeth a sicrhau ansawdd ei ddefnydd yn rhagorol; edrychodd y cydlynnydd defnyddio grym ar bob digwyddiad, gyda'r holl arfer da a gwael yn cael ei amlygu yn y cyfarfod defnyddio grym a'i ddefnyddio i wella hyfforddiant i staff.*

## Gwahanu

**I.29** Roedd cyfanswm o 258 o garcharorion wedi'u gwahanu yn ystod y chwe mis blaenorol, a oedd yn is nag mewn carchardai cymharol. Roedd gan yr uned wahanu 24 o gelloedd dros ddau lawr; ar adeg yr arolygiad, roedd 20 o garcharorion wedi'u lleoli yno, gyda dwy o'r celloedd ddim yn cael eu defnyddio. Roedd yr uned yn lân ac yn olau, ac roedd y celloedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

**I.30** Roedd tua dwy ran o dair o'r carcharorion yn yr uned ar adeg yr arolygiad wedi'u lleoli yno oherwydd eu hymddygiad aflonyddgar. Roedd pob un o'r carcharorion hyn yn aros am drosglwyddiad gan eu bod naill ai wedi gwrthod dychwelyd i'r unedau neu na ellid eu dychwelyd oherwydd eu hymddygiad. Roedd y traean arall ar gosb yn dilyn dyfarniad profedig. Gwnaed rhai ymdrechion i ailintegreiddio carcharorion yn ôl i'r unedau ond trosglwyddwyd nifer fawr allan; yn ystod y chwe mis blaenorol, roedd 103 o garcharorion wedi'u trosglwyddo o'r uned wahanu.

**I.31** Roedd pob achos o wahanu carcharor yn cael ei awdurdodi'n gywir a'i adolygu gan banel bob wythnos. Roedd awdurdodau ar gyfer arosiadau estynedig (mwy na 42 diwrnod) yn destun cymeradwyaeth gan gyfarwyddwr y grŵp carchardai, a oruchwyliodd yr holl garchardai yn y rhanbarth. Cwblhawyd adolygiadau gwahanu mewn modd amserol a mynychodd y cyfarwyddwr adolygiadau yn y cam 84 diwrnod.

**I.32** Roedd y caplan yn ymweld â'r uned yn ddyddiol ond nid oedd yn glir o'r cofnodion bod rhywun o'r tîm gofal iechyd yn mynychu bob dydd. Fodd bynnag, roedd y meddyg teulu yn mynychu tair gwaith yr wythnos, ac roedd aelod o'r bwrdd monitro annibynnol a'r cyfarwyddwr yn mynychu bob wythnos.

**I.33** Roedd y gyfundrefn ar gyfer carcharorion a wahanwyd yn gyfyngol, yn enwedig i'r rhai a oedd yn cael eu dal yno am gyfnodau estynedig (er enghraifft, roedd dau carcharor wedi'u dal ar wahân am fwy nag 84 diwrnod yn y chwe mis blaenorol). Roeddent yn cael cynnig hanner awr ar yr iard ymarfer corff, cawod a galwad ffôn bob dydd. Yn ein harolwg, dim ond 33% o'r ymatebwyr a oedd wedi'u gwahanu a ddywedodd eu bod wedi cael mynediad i'r iard ymarfer corff bob dydd, a oedd yn llawer is nag mewn carchardai tebyg. Oherwydd y nifer fawr o garcharorion a wahanwyd, cychwynnodd eu datgloi ddilyniannol i wneud galwadau ffôn ychydig ar ôl amser brechwast a pharhau trwy'r dydd; fodd bynnag, ni ellid gwneud galwadau ffôn gyda'r nos, gan wneud cyswllt teuluol yn anodd.

**I.34** Roedd cyfanswm o 353 o garcharorion wedi'u gwahanu ar yr unedau preswyl yn aros am ddyfarniad yn ystod y chwe mis blaenorol am drosedd yn erbyn y cod disgyblaeth, a oedd yn llawer uwch nag mewn carchardai cymharol. Dim ond pan fydd risg naill ai i'r carchar, i'r carcharor neu i unrhyw unigolyn arall y dylai'r math hwn o wahanu ddigwydd, ond gwelsom ei fod yn cael ei ddefnyddio fel mater o drefn ar gyfer troseddau lefel isel.

## Argymhelliad

- I.35** Dylid gwella cyfundrefn yr uned wahanu, er mwyn sicrhau bod carcharorion yn cael amser y tu allan yn gyson ac yn gallu cysylltu â'u teuluoedd ar amser priodol.

## Diogelwch

### Canlyniadau disgwylidig:

**Mae diogelwch a threfn dda yn cael eu cynnal trwy roi sylw i faterion corfforol a gweithdrefnol, gan gynnwys cudd-wybodaeth ddiogelwch effeithiol a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a charcharorion. Mae carcharorion yn ddiogel rhag dod i gysylltiad â chamddefnyddio sylweddau ac mae mesurau effeithiol i leihau cyflenwad cyffuriau ar waith.**

- I.36** Roedd gweithdrefnau diogelwch corfforol yn gymesur. Roedd nifer o weithgorau y tu allan, ac roedd y carcharorion hyn wedi cael asesiadau risg i weithio heb oruchwyliaeth ar dir a gerddi'r carchar.
- I.37** Roedd cyfanswm o 5,943 o adroddiadau gwybodaeth wedi'u cyflwyno yn ystod y chwe mis blaenorol, ac roedd y rhain wedi'u rheoli'n dda. Roedd bron pob un o'r adroddiadau hyn wedi'u hadolygu, a chytunwyd ar unrhyw gamau dilynol cyn pen 48 awr ar ôl eu cyflwyno. Er mwyn sicrhau bod yr adroddiadau'n cael eu blaenoriaethu'n briodol, defnyddiwyd system raddio goch, oren a gwyrdd.
- I.38** Cyflawnodd y carchar 100% o'r profion cyffuriau wedi'u targedu ac 80% o'r chwiliadau wedi'u targedu y gofynnwyd amdanynt, a sicrhaodd rheolwyr fod nifer y staff yn ddigonol, pan oedd angen, fel rhan o ymagwedd ragweithiol i ymateb i'r wybodaeth hon.
- I.39** Cynhyrchodd y carchar asesiad tactegol lleol misol, a oedd yn ddadansoddiad o'r holl adroddiadau gwybodaeth a gyflwynwyd, yn ogystal â'r rhesymau am drais, a'r prif feysydd ar gyfer trais, ac unrhyw ganfyddiadau cyffuriau a thueddiadau cyflenwi cyffuriau i'r carchar. Yn ddefnyddiol, bu dadansoddiad hefyd o effaith y camau a gymerwyd yn ystod y mis hwnnw ac yn flaenorol ar y materion a nodwyd. Cafodd y wybodaeth hon ei bwydo i'r cyfarfod diogelwch misol. Gosodwyd amcanion diogelwch yn y cyfarfod hwn a chafodd cynnydd yn erbyn yr amcanion hyn ei fonitro'n agos. Roedd hyn yn cynnwys amcanion i fonitro'r risgiau penodol sy'n gysylltiedig â chael poblogaeth fawr o garcharorion a oedd wedi'u heuogfarnu o drosedd rywiol.
- I.40** Roedd y carchar wedi defnyddio'r dadansoddiad hwn i nodi bylchau yn ei ddiogelwch, a buddsoddodd mewn sawl datrysiad technolegol er mwyn helpu i leihau faint o gyffuriau sy'n dod i mewn i'r carchar. Roedd y carchar wedi prynu sganiwr ïon, a oedd yn gwirio'r holl bost sy'n dod i mewn am olion cyffuriau 'traddodiadol' neu gyffuriau seicoweithredol (PS),<sup>11</sup> a pheiriant sganio'r corff newydd, a ddechreuodd gael ei ddefnyddio yn ystod yr arolygiad. Roedd synhwyrdd drôn arbenigol wedi llwyddo i leihau nifer y pecynnau anghyfreithlon a ddanfonwyd gan ddrôn.
- I.41** Roedd cysylltiadau â'r heddlu wedi gwella, ac roeddent yn chwarae rôl bwysig ym mhob asesiad risg yn ymwneud â diogelwch, gan gysylltu gwybodaeth am unigolion sy'n gysylltiedig â throeddau trefnedig a chefnogi'r carchar i leihau nifer y pecynnau anghyfreithlon sy'n cael eu taflu dros ffens y perimedr. Roedd yr heddlu'n rheoli cronfa ddata 'troseddu yn y carchar', a

<sup>11</sup> Mae sylweddau seicoweithredol naill ai'n gyfansoddion naturiol, rhannol-synthetig neu gwbl synthetig. Pan gânt eu cymryd, maent yn effeithio ar brosesau meddwl neu gyflwr emosiynol unigolyn. Mewn carchardai, cyfeirir at y sylweddau hyn yn aml fel 'sbeis'. I gael mwy o wybodaeth gweler <https://www.gov.uk/guidance/psychoactive-substances-in-prisons#what-are-psychoactive-substances>.

oedd yn caniatáu mwy o ddadansoddiad ac yn galluogi'r naill barti i fonitro cynnydd unrhyw erlyniadau; er enghraifft, roedd yr holl ymosodiadau a ddigwyddodd yn y carchar yn cael eu cofnodi yna, yn ogystal â chanlyniad unrhyw ymchwiliad yr heddlu.

- I.42** Y gyfradd bositif ar gyfer profion cyffuriau gorfodol ar hap oedd 15.68%, a oedd yn uwch nag mewn carchardai cymharol ac ar adeg yr arolygiad blaenorol. Roedd gan y carchar bolisi a chynllun gweithredu da ar gyfer lleihau cyflenwad cyffuriau, a gafodd ei hysbysu gan yr asesiad tactegol lleol. Roedd gan y carchar a'r heddlu lleol ddealltwriaeth dda o'r mathau o sylweddau a ddefnyddir a'r dulliau a ddefnyddir i ddod â nhw i'r carchar. Bu rhywfaint o lwyddiant diweddar o ran lleihau'r cyflenwad ac, er bod y gyfradd bositif ar gyfer profion cyffuriau yn uwch yn ystadegol nag mewn carchardai eraill ar hyn o bryd, bu tuedd ar i lawr cyffredinol yn ystod y tair blynedd diwethaf.
- I.43** Roedd y polisi hwn i leihau cyflenwad yn rhan o strategaeth gyffuriau gynhwysfawr ehangach a oedd yn dod â holl rannau'r carchar at ei gilydd ac yn meddu ar feysydd ar wahân i ddelio â'r gwahanol fathau o gamddefnyddio sylweddau a'r gefnogaeth a gynigir. Cyfarfu'r pwyllgor strategaeth cyffuriau bob mis ac roedd llawer yn ei fynychu, a chafodd pob cynllun gweithredu ei adolygu a'i ddiweddarau yno.

## Diogelu

### Canlyniadau disgwylidig:

**Mae'r carchar yn darparu amgylchedd diogel sy'n lleihau'r risg o hunan-niweidio a hunanladdiad. Nodir carcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio neu hunanladdiad a rhoddir gofal a chefnogaeth briodol iddynt. Mae pob oedolyn agored i niwed yn cael ei nodi, ei ddiogelu rhag niwed ac esgeulustod ac yn derbyn gofal a chefnogaeth effeithiol.**

### Atal hunanladdiad a hunan-niweidio

- I.44** Roedd lefelau uchel o angen ymhlith y boblogaeth. Yn ein harolwg, nododd 52% o garcharorion fod ganddynt broblem iechyd meddwl a 41% fod ganddynt anabledd. Yn ogystal, dywedodd 27% o ymatebwyr, yn fwy nag mewn carchardai tebyg, eu bod wedi bod yn destun gweithdrefnau ACCT.
- I.45** Ystyriwyd bod lleihau hunan-niweidio yn flaenoriaeth, ac yn ystod y 12 mis blaenorol roedd ymagwedd fwy integredig wedi'i mabwysiadu, yn seiliedig ar egwyddorion gwybodus am drawma, i geisio cyflawni hyn. Roedd hyn yn cynnwys mwy o ddefnydd o staff arbenigol, gan gynnwys seicolegydd a dadansoddwr ymddygiad, a roddodd arweiniad a chynghor i gefnogi staff gweithredol. Roedd cydnabyddiaeth glir am y cysylltiadau posibl rhwng carcharorion sy'n defnyddio cyffuriau, yn mynd i ddyled ac yna'n troi at hunan-niweidio. O ganlyniad i hyn, cymerwyd camau i geisio lleihau'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon, gan gynnwys cyflwyno sganiwr corff (gweler paragraff 1.40 hefyd), yn ogystal â darparu mewnbwn addysgol i garcharorion ynghylch peryglon defnyddio cyffuriau. Cymerwyd mesurau hefyd i geisio atal carcharorion yn cronni dyled, gan ddarparu blaenswm arian parod wrth eu derbyn i'r carchar (gweler paragraff 1.4 hefyd).
- I.46** Er gwaethaf yr ymagwedd newydd hon, roedd lefel yr hunan-niweidio yn peri pryder o hyd. Er bod hyn wedi gostwng o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o thua 130 i thua 100 o ddigwyddiadau bob mis, roedd yn llawer uwch nag ar adeg yr arolygiad blaenorol: bu 608 o ddigwyddiadau hunan-niweidio yn ystod y chwe mis blaenorol, o'i gymharu â 386 yn yr un cyfnod ar adeg yr arolygiad blaenorol. Nifer y dogfennau ACCT a agorwyd yn ystod y chwe mis blaenorol oedd 710, o'i gymharu â 454 yn yr un cyfnod ar adeg yr arolygiad blaenorol,

gyda 332 o garcharorion yn ymwneud â hunan-niweidio yn y cyfnod hwn, o'i gymharu â 234 yn flaenorol (gweler pryder allweddol ac argymhelliad A47).

- I.47** Ers yr arolygiad blaenorol, bu chwe marwolaeth wedi'u categorio fel rhai hunan-achosedig, tair wedi'u categorio fel annaturiol a dwy sy'n aros am wybodaeth ychwanegol. Cymerwyd argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf o ddirif ac fe'u hadolygwyd gan y staff carchar mwy diogel yn rheolaidd, yn ogystal â chael eu monitro yn y cyfarfod strategol carchar mwy diogel misol. Roedd y rhan fwyaf o'r argymhellion wedi arwain at ymateb digonol, ond roedd gwendid yn ansawdd y cofnodion a'r ffordd yr oedd gwiriadau goruchwylio yn cael eu cynnal. Cynhaliwyd ymarferion 'dysgu gwersi' yn brydlon cyn unrhyw graffu annibynnol.
- I.48** Yn ystod yr arolygiad, roedd 60 o garcharorion ar ddogfennaeth ACCT. Roedd y rhai y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am eu triniaeth, yn enwedig y rhai ag anghenion cymhleth, wedi'u lleoli yn yr uned carchar mwy diogel.
- I.49** Roedd ansawdd dogfennaeth ACCT yn gymysg. Er bod mesurau sicrhau ansawdd ar waith, roedd diffyg manylion ar fapiau gofal ac nid oedd arsylwadau bob amser yn cael eu cynnal ar gyfnodau anrhagweladwy.
- I.50** Roedd yn gadarnhaol canfod bod y defnydd o ddrillad gwrth glymau wedi lleihau'n sylweddol ers yr arolygiad blaenorol. Yn ystod y 12 mis blaenorol, dim ond mewn un achos y defnyddiwyd hyn, ac roedd y cofnodion manwl yn adlewyrchu bod modd cyfiawnhau hyn.
- I.51** Roedd carcharorion a oedd yn destun gweithdrefnau ACCT a oedd ar lefel sylfaenol y cynllun IEP yn cael eu monitro'n agos bob dydd, er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu gwaith neu addysg, ac yn cael digon o amser allan o'u celloedd.

## Amddiffyn oedolion mewn perygl<sup>12</sup>

- I.52** Roedd polisi diogelu cyfredol a chynhwysfawr, a luniwyd mewn cydweithrediad â thîm diogelu oedolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- I.53** Y dirprwy lywodraethwr oedd yr arweinydd diogelu dynodedig ac roedd yn gyfranogwr gweithredol ar ddau fwrdd diogelu lleol. Roedd cynrychiolydd o un o'r byrddau wedi cyflwyno hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o ddiogelu i staff yn y carchar.
- I.54** Ers yr arolygiad blaenorol, roedd cyflwyno gweithwyr cymdeithasol a therapydd galwedigaethol wedi'u lleoli yn y carchar wedi helpu i wella cyfathrebu a chryfhau perthnasoedd gwaith rhwng y carchar a'r awdurdod lleol.
- I.55** Roedd gweithdrefnau asesu ac atgyfeirio i nodi carcharorion a oedd angen lefel uchel o ofal arbenigol yn addas, ac roedd saith carcharor yn derbyn pecyn gofal cymdeithasol, a ddarparwyd gan staff yn y gymuned, ar adeg yr arolygiad.
- I.56** Roedd trefniadau ar gyfer gwneud atgyfeiriadau diogelu, ac roedd hyn wedi digwydd yn achos rhywfaint o garcharorion ers yr arolygiad blaenorol.

<sup>12</sup> Mae dyletswyddau diogelu yn berthnasol i oedolyn sydd:

- ag anghenion gofal a chefnogaeth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio); ac
- yn profi, neu sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso; ac
- o ganlyniad i'r anghenion gofal a chefnogaeth hynny, ddim yn gallu amddiffyn ei hun rhag naill ai'r risg o gamdriniaeth neu esgeulustod, neu'r profiad o hynny (Deddf Gofal 2014).

- I.57** Cafodd carcharorion a oedd yn destun gweithdrefnau ACCT a gadwyd ar yr uned wahanu wiriad meddygol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod i ddangos bod goruchwyliaeth rheolwyr yn cael ei weithredu dros y grŵp o garcharorion agored i niwed arbennig hwn. Rhoddodd rheolwyr y carchar drefniadau addas ar waith cyn gynted ag y daethom â hyn i'w sylw.



## Adran 2. Parch

**Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch at eu hurddas dynol.**

### Perthnasoedd rhwng staff a charcharorion

#### Canlyniadau disgwylidig:

**Mae staff yn trin carcharorion â pharch trwy gydol eu hamser yn y ddalfa, ac fe'u hanogir i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau eu hunain.**

- 2.1 Roedd perthnasoedd rhwng staff a charcharorion yn parhau i fod yn dda, ac yn ein harolwg, dywedodd 73% o'r ymatebwyr fod y rhan fwyaf o staff yn eu trin yn barchus. Roedd y rhan fwyaf o ryngweithio a welsom ar draws y carchar yn barchus, yn gwrtais ac yn dangos ymagwedd ofalgar broffesiynol gan staff. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn adnabod y carcharorion dan eu gofal yn dda, ac roedd llawer o garcharorion yn siarad yn gadarnhaol am y staff, gan eu disgrifio fel pobl hawdd mynd atynt ac yn deall eu hanghenion.
- 2.2 Roedd yr unedau preswyl yn ddigynnwrf, hyd yn oed yn ystod cymdeithasu, ac ni chlywsom garcharorion yn chwarae cerddoriaeth uchel nac yn gweiddi o'r ffenestri. Roedd goruchwyliaeth staff ar yr unedau yn dda ar y cyfan, er i ni weld rhywfaint o dorri rheolau lefel isel yn mynd heb ei herio, fel fepio ar y landin, ac arhosodd ychydig o swyddogion mewn swyddfeydd yr adain ar adegau pan allent fod wedi bod ar y landin.
- 2.3 Roedd y cynllun gweithwyr allweddol wedi disodli'r cynllun swyddogion personol. Roedd hyn yn gweithio'n dda ac roedd staff yn cofnodi sesiynau'n dda. Dywedodd aelodau newydd o staff wrthym eu bod yn teimlo'u bod yn cael cefnogaeth dda gan gydweithwyr mwy profiadol. Dyrannwyd gweithiwr allweddol i garcharorion newydd trwy broses baru, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cyfateb i sgiliau'r staff a oedd ar gael. Yn ein harolwg, dywedodd 62% o'r ymatebwyr fod eu swyddog a enwir yn ddefnyddiol iawn neu'n eithaf defnyddiol, a disgrifiodd y mwyafrif o garcharorion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu troi at eu gweithiwr allweddol am gefnogaeth, a bod y cyswllt hwn yn rheolaidd ac yn ystyrlon.

### Bywyd bob dydd

#### Canlyniadau disgwylidig:

**Mae carcharorion yn byw mewn amgylchedd glân a gweddus ac yn ymwybodol o reolau ac arferion y carchar. Darperir gwasanaethau sylfaenol hanfodol iddynt, ymgynghorir â hwy'n rheolaidd a gallant wneud cais am wasanaethau a chymorth ychwanegol. Mae'r prosesau cwyno a gwneud iawn yn effeithlon ac yn deg.**

#### Amodau byw

- 2.4 Roedd y carchar wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn lân ar y cyfan. Roedd y tir allanol wedi'i gadw'n dda ac yn daclus, gyda garddwriaeth drawiadol yn y rhan fwyaf o'r prif fannau awyr agored (gweler Atodiad IV). Fodd bynnag, roedd iardiau ymarfer corff yn llwm (gweler Atodiad IV). Roedd ardal fach y tu ôl i unedau preswyl B wedi'i gorchuddio â sbwriel a malurion eitemau a daflwyd o ffenestri'r celloedd.
- 2.5 Roedd yr amodau byw y tu mewn yn dda ac roedd y manau cymunol ar yr unedau preswyl yn olau ac yn lân ar y cyfan, heb lawer o graffiti, fandaliaeth na difrod. Roedd gan

garcharorion fynediad at bwl a thennis bwrdd mewn mannau cymdeithasu, ac roedd yn ymddangos eu bod i gyd mewn cyflwr da. Yn ein harolwg, dywedodd 69% o'r ymatebwyr fod mannau cymunedol/rhanedig eu hunedau yn lân iawn neu'n weddol lân. Roedd gan rai carcharorion gawodydd yn eu celloedd, ac roedd y cawodydd cymunedol yn lân ac wedi'u sgrinio'n briodol. Yn ein harolwg, dywedodd 98% o'r ymatebwyr y gallent gael cawod bob dydd.

- 2.6** Roedd celloedd wedi'u dodrefnu'n briodol a gallai carcharorion olchi eu dillad eu hunain ar yr uned. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad roedd ychydig o beiriannau golchi diffygiol yn aros i gael eu hatgyweirio. Yn ddiweddar, roedd y carchar wedi cyflwyno pecyn hylendid wythnosol trawiadol i bob carcharor, gan gynnwys sebon, cadach, tabled golchi a dau rolyn toiled. Fodd bynnag, roedd barn carcharorion am hyn yn gymysg a dywedodd rhai eu bod yn cael trafferth yn cael gafael ar roliau toiled ychwanegol, ac ymddengys nad oeddent yn ymwybodol y gallent ofyn am fwy. Dyranwyd tegell iddynt wrth gyrraedd ac roedd ganddynt fynediad i rai cyfleusterau coginio ar yr unedau preswyl. Dywedodd ychydig o garcharorion wrthym fod mynediad i gypyrddau a llenni wedi bod yn broblem, ond bod y cymorthfeydd wythnosol ar yr uned gyda staff wedi'u helpu i adrodd a datrys materion cynnal a chadw, a chynhaliwyd rhestr eiddo ar yr holl gelloedd bob tri mis.
- 2.7** Yn ein harolwg, dywedodd 32% o'r ymatebwyr fod cloch galw eu celloedd yn cael ei hateb o fewn pum munud. Fodd bynnag, nid oedd system i fonitro hyn yn electronig. Roedd y carchar wedi ceisio gwella'r system, gan gynnwys gwiriadau wythnosol gan reolwyr gweithredol ar bob uned breswyl i wirio amseroedd ymateb ar hap, ond ni fu'r rhain yn llwyddiannus. Roedd clychau galw'r celloedd yn cael eu trin fel galwad â blaenoriaeth, lle'r oedd galwad yn mynd drwodd i'r ystafell reoli a chysylltwyd â'r swyddog ar ei radio, ar ôl un munud. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw larymau clywadwy na dangosyddion golau ar y landin ar yr unedau hyn (unedau A, B, C, D na'r uned carchar mwy diogel) y tu allan i'r swyddfa, a oedd yn peri pryder.

## Argymhelliad

- 2.8 Dylid ateb clychau galwadau celloedd brys o fewn pum munud.**

## Gwasanaethau preswyl

- 2.9** Yn ein harolwg, dim ond 28% o'r ymatebwyr a ddywedodd fod ansawdd y bwyd a ddarperir yn dda iawn neu'n eithaf da, a oedd yn waeth nag mewn carchardai cymharol. Atgyfnerthwyd y canfyddiad hwn gan ein harsylwadau ein hunain. Yn ogystal, dim ond 30% a ddywedodd eu bod yn cael digon i'w fwyta amser bwyd bob amser neu'r rhan fwyaf o'r amser. Dywedodd llawer o garcharorion y gwnaethom siarad â nhw fod yn well ganddynt brynu eu bwyd eu hunain fel dewis arall i'r bwyd a ddarparwyd neu yn ychwanegol at y bwyd a ddarparwyd. Fodd bynnag, roedd mynediad cyfyngedig i rai o'r cyfleusterau coginio ar yr unedau.
- 2.10** Gellid bwyta pob pryd ar y cyd. Roedd amseroedd prydau bwyd yn briodol ac yn gyson, ac roedd goruchwyliaeth staff yn yr ystafelloedd arlwygo wedi gwella. Dewisodd carcharorion eu prydau bwyd o fwydlen dreigl bedair wythnos, a oedd yn cynnwys ffrwythau a llysiau. Darparwyd pecynnau brecwast y diwrnod cyn eu bod i gael eu bwyta. Nid oedd llyfrau sylwadau bwyd yn cael eu defnyddio bellach oherwydd gallai carcharorion ddefnyddio'r ciosgau electronig yn y system rheoli ganolog (CMS) i wneud sylwadau yn uniongyrchol i'r gegin.
- 2.11** Roedd cyflenwr allanol yn cyflenwi rhywfaint o'r bwyd, gyda'r gweddill yn cael ei baratoi'n ffres ar y safle. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, roedd angen atgyweirio llawer o'r offer yn



y gegin, gan gynnwys y peiriant golchi llestri. Gadawyd gwastraff bwyd y tu allan dros nos oherwydd diffyg lle, a oedd yn peri pryder. Roedd dyddiadau, amseroedd a thymheredd coginio yn cael eu monitro a'u cofnodi, ac archwiliwyd sgôr hylendid bwyd y gegin ym mis Mai 2019 ac roedd wedi gwella o dri (boddhaol) i bedwar (da).

- 2.12** Roedd y gegin yn rhy fach i boblogaeth y carchar, a oedd yn cyfyngu ar nifer y carcharorion a allai weithio yno, ac roedd rhestr aros hir. Ychydig o ymgynghori ffurfiol a gafwyd gyda charcharorion ynghylch y bwyd a ddarparwyd ond roedd y rheolwyr arlwygo wedi cydnabod bod angen gwella hyn, ac roedd fforwm misol rheolaidd wedi cychwyn yn ddiweddar.
- 2.13** Roedd siop y carchar yn cael ei rhedeg yn fewnol, ac roedd digon o eitemau ar gael i garcharorion eu prynu (gan gynnwys papurau newydd a chylchgronau), yn wythnosol, am bris rhesymol. Gosodwyd pob archeb gan ddefnyddio'r ciosgau CMS. Roedd yn rhaid i garcharorion newydd a gyrhaeddodd ar ôl y diwrnod pan osodwyd archebion siop aros yn rhy hir i wneud eu harcheb lawn gyntaf. Gallai carcharorion hefyd archebu nwyddau, gan gynnwys dillad, eitemau trydanol a chrefyddol, o ystod o gatalogau.

## Ymgynghori, ceisiadau a gwneud iawn i garcharorion

- 2.14** Cynhaliwyd ymgynghori â charcharorion trwy fforymau, ond roedd y rhain yn amrywio o ran rheoleidd-dra ar draws yr unedau. Yn ein harolwg, dywedodd 52% o ymatebwyr yr ymgynghorwyd â hwy ynghylch materion bwyd, siop y carchar, gofal iechyd a'r uned breswyl. Dywedodd rhai carcharorion wrthym fod cyfarfodydd ymgynghori wedi arwain at wneud rhai newidiadau ond nad oedd cyfarfodydd wedi'u cynnal ar yr unedau preswyl ers sawl mis.
- 2.15** Er mwyn gwella ymgynghori, roedd y carchar wedi neilltuo pob pennaeth swyddogaethol, fel arlwygo a chydraddoldeb, i gynnal ei ymgynghoriad ei hun ond ni wnaed hyn yn gyson.
- 2.16** Yn ein harolwg, dywedodd 71% o'r ymatebwyr ei bod yn hawdd gwneud cais. Gwnaed y mwyafrif o geisiadau gan ddefnyddio'r ciosgau CMS. Roedd rheolwyr y carchar wedi penderfynu cadw'r rhai yr oedd angen eu prosesu gan fwy nag un adran fel ceisiadau yn seiliedig ar bapur, a oedd yn lleihau oedi. Roedd sicrhau ansawdd ac addasrwydd ac amseroldeb ymatebion wedi gwella ers yr arolygiad blaenorol, ac roedd y rhai a adolygwyd gennym wedi'u hateb yn briodol ac yn brydlon. Roedd ciosgau CMS yn boblogaidd ymhlith carcharorion ond roeddent yn chwalu ac yn torri i lawr yn aml, gan achosi rhwystredigaeth ddealladwy.
- 2.17** Roedd nifer y cwynion a gyflwynwyd yn debyg i'r nifer ar adeg yr arolygiad blaenorol, ac roedd y mwyafrif yn ymwneud ag eiddo, materion preswyl a bwyd. Roedd fframwaith polisi cwynion newydd wedi'i gyflwyno, ac roedd y broses gwynion wedi'i diweddarau. Roedd ffurflenni cwyno ar gael yn rhwydd ar bob un o'r unedau preswyl, a gwagiwyd blychau cwynion gan y rheolwr nos a'u pasio i'r clerc cwynion. Cofnodwyd ffurflenni gyda rhif cyfresol a'u haseinio i'r rheolwr priodol. Defnyddiwyd y ciosgau CMS i ddarparu ymateb dros dro, a chroesawyd hyn gan y carcharorion y gwnaethom siarad â nhw. Roedd yr ymatebion a welsom yn barchus ac yn amserol.
- 2.18** Roedd sicrhau ansawdd ymatebion i gwynion yn dda, cynhaliwyd dadansoddiad yn y cyfarfod penaethiaid swyddogaethol, i sefydlu patrymau a thueddiadau, a chymerwyd camau i fynd i'r afael â meysydd a oedd yn peri'r pryder mwyaf.
- 2.19** Nid oedd unrhyw staff gwasanaethau cyfreithiol i helpu carcharorion gyda materion cyfreithiol ond roedd y swyddog cydraddoldeb yn eu cyfeirio at gymorth cyfreithiol. Roedd gan y llyfrgell amrywiaeth briodol o destunau cyfreithiol. Roedd y trefniadau ar gyfer ymweliadau cyfreithiol yn foddhaol ac roedd gan y carchar bum ystafell ar gyfer ymweliadau

cyfreithiol yn y neuadd ymweld. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd yr amser aros ar gyfer yr ymweliad cyfreithiol nesaf yn ormodol.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a ffydd

### Canlyniadau disgwylidig:

**Mae ymagwedd glir i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon a meithrin perthnasoedd da. Mae gwahanol anghenion carcharorion sydd â nodweddion gwarchoddedig penodol<sup>13</sup> ac unrhyw nodweddion lleiafrifol eraill yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw. Mae carcharorion yn gallu ymarfer eu crefydd. Mae'r gaplaniaeth yn chwarae rhan lawn ym mywyd y carchar ac yn cyfrannu at ofal, cefnogaeth ac adsefydlu cyffredinol y carcharorion.**

### Rheolaeth strategol

- 2.20** Ad-drefnwyd rheoli cydraddoldeb yn ddiweddar. Yn gadarnhaol, roedd y cyfarwyddwr bellach yn bennaeth y tîm cydraddoldeb, ac roedd rheolwr cydraddoldeb ymroddedig a phedwar swyddog cydraddoldeb wedi'u recriwtio. Er bod strategaeth newydd yn amlinellu amcanion defnyddiol ar gyfer gwaith y carchar ar gydraddoldeb, nid oedd staff allweddol yn ymwybodol o hyn na'r cynllun gweithredu a ddatblygwyd i gyflawni ei ddarpariaethau. Nid oedd fforwm i adolygu na monitro gweithrediad y strategaeth na'r cynllun gweithredu.
- 2.21** Roedd adroddiadau cydraddoldeb misol yn helaeth ac yn cynnwys llawer iawn o ddata, ond nid oedd llawer o'r wybodaeth yn ddefnyddiol iawn, ac nid oedd hynny a oedd yn weddill bob amser yn cael ei chyflwyno mewn ffordd a oedd yn ei gwneud hi'n hawdd nodi ac olrhain achosion o anghymesuredd neu i fonitro tueddiadau.
- 2.22** Cynhaliwyd cyfarfod misol ddwywaith ers ei sefydlu ym mis Medi 2019. Roedd uwch aelodau staff yn cadeirio hwn (y cyfarwyddwr neu bennaeth y carchar mwy diogel) ond roedd presenoldeb wedi bod yn gyfyngedig ar bob achlysur. Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar adolygu'r adroddiad cydraddoldeb misol, gan roi ystyriaeth gyfyngedig i faterion perthnasol eraill.
- 2.23** Roedd rhwydwaith o garcharorion yn gyfrifol am hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y carchar. Er bod dyhead i gael tair haen o rolau cydraddoldeb carcharorion – cydlynedd, mentor a chynrychiolydd – ar adeg yr arolygiad, roedd un mentor ac 17 cynrychiolydd yn y swydd. Dim ond y mentor ac un o'r cynrychiolwyr oedd wedi derbyn hyfforddiant cydraddoldeb, a chanfuom fod gwybodaeth am gydraddoldeb yn amrywio'n eang ymhlith y cynrychiolwyr. Er bod disgrifiadau swydd a oedd yn diffinio cyfrifoldebau'r gwahanol rolau cydraddoldeb wedi'u llunio, nid oedd y rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr y buom yn siarad â hwy yn gwbl glir ynghylch yr hyn a ddisgwylid ganddynt. Roedd y mentor cydraddoldeb yn gwneud gwaith da, yn cysylltu â'r cynrychiolwyr ac yn rhoi cyngor a chefnogaeth iddynt, a chafwyd cyfarfod o gynrychiolwyr a oedd wedi tyngu sylw at faterion penodol ac wedi arwain at well cydgysylltu rhyngddynt.
- 2.24** Gwelsom nad oedd ffurflenni adrodd am wahaniaethu (DIRF) a gyflwynwyd yn gynharach yn y flwyddyn bob amser wedi cael eu trin yn gyflym ac yn effeithiol, ac nid oedd rhai a oedd wedi cyflwyno un ar yr adeg honno wedi derbyn ymateb o gwbl. Roedd hyn wedi arwain at rai carcharorion yn colli hyder yn y broses DIRF. Fodd bynnag, dysgwyd gwersi o'r achosion hyn, ac roedd y broses o ddelio â'r DIRF wedi gwella'n sylweddol yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Bellach, roedd y cyfarwyddwr yn derbyn, yn adolygu ac yn aseinio DIRF ar gyfer

<sup>13</sup> Y seiliau y mae gwahaniaethu yn anghyfreithlon (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2010).

gwaith dilynol. Ymdriniwyd yn briodol ac yn amserol â'r DIRFs a adolygwyd gennym a gyflwynwyd yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf.

- 2.25** Roedd ymgynghoriadau rheolaidd gyda charcharorion â nodweddion gwarchoddedig a rennir, yn y prif garchar ac yn rhan y carchar sy'n dal charcharorion agored i niwed. Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, roedd fforymau o'r fath wedi cael eu cynnal ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig; Sipsiwn, Roma, Teithwyr; hoyw a deurywiol; trawsryweddol; a charcharorion sy'n wladolion tramor, yn ogystal â'r rhai ag anableddau. Roedd y fforymau wedi amrywio o ran eu defnyddioldeb, a byddai llawer o faterion a nodwyd wedi cael sylw mwy priodol mewn fforymau unedau mwy cyffredinol, er nad oedd y rhain yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar draws pob un o'r unedau (gweler paragraff 2.14 hefyd). Fodd bynnag, ar y cyfan, rhannwyd gwybodaeth ddefnyddiol yn y cyfarfodydd hyn, gan feithrin dealltwriaeth o brofiadau ac anghenion y rhai a ymgynghorwyd â hwy.
- 2.26** Roedd materion penodol a godwyd, a'r camau angenrheidiol a oedd yn deillio ohonynt, ym mhob un o'r ymgynghoriadau wedi'u cynnwys mewn cynllun canolog ar gyfer gwaith dilynol ac olrhain, er nad oedd gwybodaeth am statws dilyniant bob amser yn cael ei bwydo'n ôl yn gyflym.
- 2.27** Yn wahanol i'r fforwm ymgynghori, roedd y carchar wedi cyflwyno cyngor pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn ddiweddar, dan arweiniad y cyfarwyddwr a chyda chyfranogiad gan gynrychiolwyr charcharorion. Nod y cyngor oedd gwella dealltwriaeth o anghenion y grŵp hwn o garcharorion ac addasu gwasanaethau yn unol â hynny. Bu ffocws cychwynnol y cyngor ar ddarparu bwyd ond roedd yn rhy gynnar i wybod a fyddai, ac i ba raddau y byddai'n cwrdd â'i amcanion.

## Nodweddion gwarchoddedig

- 2.28** Ceisiodd y carchar ddiwallu anghenion grwpiau penodol o garcharorion. Yn fwyaf nodedig, roedd unedau yn darparu ar gyfer anghenion iechyd penodol charcharorion. Er enghraifft, darparodd yr uned Cynnwys gefnogaeth i'r rheini ag anawsterau dysgu ac anableddau, anhwylder sbectrwm awtistiaeth ac anafiadau i'r ymennydd, tra bod unedau T6 ac X3 yn darparu amodau byw â chymorth i garcharorion hŷn a'r rheini ag anableddau.
- 2.29** Nid oedd pob carcharor ag anghenion cefnogaeth ar unedau arbenigol, ac roedd charcharorion ar gynlluniau byw â chymorth a/neu gynlluniau personol gadael mewn argyfwng (PEEP) ar draws y carchar. Gwnaethom siarad â charcharor â chyflwr tymor hir a olygai fod ganddo symudiad cyfyngedig yn un o'i draed a'i fod yn symud o gwmpas ar ffyn baglau. Er i staff ddweud wrthym ei fod ar PEEP, nid oedd unrhyw wybodaeth am hyn, naill yn swyddfa'r uned nac ar ddrws ei gell.
- 2.30** Yn fwy cyffredinol, gwelsom fod cofnodi gwybodaeth am y rhai ar PEEP yn amrywio rhwng yr unedau. Ar rai unedau, nid oedd unrhyw wybodaeth am y rhai ar PEEP ar y byrddau arddangos yn y swyddfeydd. Wrth gael eu holi ynglŷn â hyn, dywedodd staff y byddent naill ai'n gwybod lleoliad y rhai ar PEEP neu y byddent yn gwirio ffeiliau achos yn ôl yr angen. O ystyried bod PEEP yn ymwneud â sefyllfaoedd argyfwng, nid oedd yr un o'r ymatebion hyn yn ddigonol.
- 2.31** Gwnaed gwaith da gyda charcharorion sy'n wladolion tramor. Roedd un o'r swyddogion cydraddoldeb yn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Yn ogystal â grŵp ffocws a nododd eu pryderon, gallent fynychu gwasanaeth galw heibio rheolaidd gyda swyddog mewnffudo.

- 2.32** Darparodd byrddau adolygu ar gyfer carcharorion trawsryweddol ymagwedd amlddisgyblaethol i ddatblygu ac adolygu cynlluniau, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd mewn grwpiau ffocws, a thrwy siarad â charcharorion trawsryweddol, roedd yn amlwg eu bod yn dal i wynebu heriau penodol, yn enwedig wrth gael gafael ar ddillad a cholur addas.

## Argymhellion

- 2.33** Dylid arddangos gwybodaeth am garcharorion sydd ar gynlluniau personol gadael mewn argyfwng yn glir ar ddrysau eu celloedd, neu'n agos atynt, ac yn y brif swyddfa.
- 2.34** Dylai carcharorion trawsryweddol allu cael gafael ar ddillad a cholur addas yn hawdd ac yn gyflym.

## Ffydd a chrefydd

- 2.35** Roedd darpariaeth ffydd yn rhesymol ar gyfer y mwyafrif o garcharorion. Arweiniodd caplan rheoli dîm o bum caplan amser llawn a phum caplan rhan amser. Roedd y gaplaniaeth yn darparu'n dda ar gyfer anghenion ffydd Cristnogion a Mwslemaidd, ac roedd swydd wag i gaplan Catholig yn y broses o gael ei llenwi. Ar hyn o bryd, nid oedd ddarpariaeth gaplaniaeth ar gyfer y rhai â chredoau Hindŵaidd, Sikhaid, Bwdhaidd, Rastaffariaidd a Phaganaidd. Er y gwnaed ymdrechion i sicrhau y gallai carcharorion o'r crefyddau hyn ymarfer eu crefydd, dywedodd rhai ohonynt wrthym fod diffyg caplan yn eu ffydd yn cael effaith niweidiol ar hyn.
- 2.36** Roedd y ganolfan aml-ffydd wedi'i lleoli ym mhrif ran y carchar, ac roedd ganddi ddwy ystafell fawr y gellid eu defnyddio'n hyblyg ar gyfer gwasanaethau a digwyddiadau. Mewn rhan arall o'r carchar, roedd canolfan llai a ddefnyddiwyd yn benodol ar gyfer gwasanaethau a digwyddiadau i garcharorion agored i niwed.
- 2.37** Gallai carcharorion archebu presenoldeb mewn gwasanaethau gan ddefnyddio ciosgau CMS. Gallent hefyd ddefnyddio'r rhain ar gyfer ymholiadau eraill yn ymwneud â ffydd neu i ofyn am gefnogaeth, a gwelsom dystiolaeth bod hyn yn gweithio'n dda.
- 2.38** Roedd gan y gaplaniaeth galendr prysur o ddigwyddiadau i ddathlu diwrnodau a oedd yn bwysig i ystod o grefyddau, ac roeddent yn defnyddio'r ciosgau CMS i gyfleu gwybodaeth am y dyddiau hyn i boblogaeth gyffredinol y carchar.
- 2.39** Roedd y caplaniaid yn darparu cefnogaeth fugeiliol i unigolion ac roeddent yn weladwy ar yr unedau, yn enwedig mewn manau lle'r oedd carcharorion yn fwyaf tebygol o fod mewn argyfwng. Ni wahoddwyd aelodau'r gaplaniaeth i bob adolygiad rheoli achos asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT), ond fe wnaethant geisio mynychu'r rhai y dywedwyd wrthynt amdanynt. Cyfaddefodd y caplan rheoli nad oedd gan y gaplaniaeth ddigon o adnoddau i fynychu'r holl adolygiadau o'r fath, ac roedd o'r farn bod gwahoddiadau'n cael eu hanfon mewn achosion lle ystyriwyd y gallai'r gaplaniaeth ychwanegu gwerth penodol.
- 2.40** Roedd grwpiau ffocws ar grefydd wedi'u trefnu gan y tîm cydraddoldeb yn y prif garchar ac yn ardal y carchar oedd yn gartref i'r carcharorion agored i niwed. Nid oedd y sesiynau hyn yn cynnwys y gaplaniaeth, er bod y cofnodion yn cael eu rhannu gyda nhw.

## Iechyd, lles a gofal cymdeithasol

### Canlyniadau disgwylidig:

**Mae cleifion yn derbyn gofal gan wasanaethau sy'n asesu ac yn diwallu eu hanghenion iechyd, gofal cymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau ac yn hyrwyddo gofal parhaus wrth iddynt gael eu rhyddhau. Mae safon y ddarpariaeth yn debyg i hynny y gallai cleifion ddisgwyl ei derbyn rhywle arall yn y gymuned.**

### Strategaeth, partneriaethau a llywodraethu clinigol

- 2.41** Cynhaliwyd yr arolygiad o wasanaethau iechyd ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) ac Arolygiaeth Carchardai EM o dan gytundeb memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng yr asiantaethau.
- 2.42** G4S Health Medical Services UK ('G4S') oedd y prif ddarparwr iechyd. Roedd gwasanaethau is-gontractiedig yn cynnwys darpariaeth ddeintyddol Time for Teeth a Marnel Medical Services. Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn gyfrifol am wasanaethau iechyd meddwl eilaidd, a gomisiynwyd trwy lywodraeth Cymru.
- 2.43** Cynhyrchwyd dadansoddiad o anghenion iechyd ond roedd yn cynnig cyfeiriad strategol cyfyngedig ar gyfer darparu gwasanaeth. Roedd prosesau llywodraethu ar waith ac roedd cyfarfodydd rheolaidd yn adolygu gweithgaredd clinigol, ond prin oedd y craffu allanol oherwydd absenoldeb y bwrdd partneriaeth. Roedd gorddibyniaeth ar hunan-adrodd a goruchwyliaeth gan G4S yn amhriodol ac roedd angen mynd i'r afael ag ef.
- 2.44** Roedd rhaglenni archwilio clinigol ar waith, gan gynnwys asesiad rheoli heintiau yn ddiweddar a oedd wedi nodi rhai meysydd i fynd i'r afael â hwy. Roedd staff yn defnyddio'r system rheoli achosion yn effeithiol a gwelsom dystiolaeth o wersi o hyn yn cael eu rhannu.
- 2.45** Roedd yr ymgynghori â charcharorion ar faterion iechyd yn gryf. Fe'i harweiniwyd gan aelod o staff brwdfrydig ac ymroddedig a ddarparodd gefnogaeth yn ystod y cyfnod cynefino, yn ogystal â gwasanaeth cyngor a chyswllt gwerthfawr i gleifion a oedd yn galluogi carcharorion i ddatrys pryderon unigol yn adeiladol.
- 2.46** Roedd nyrsys ar gael 24 y dydd. Roedd staffio wedi gwella'n sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf ac roedd yn darparu gwell gefnogaeth nyrsio arbenigol. Roedd arweinyddiaeth effeithiol ar y gwasanaeth, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo'u bod yn cael cefnogaeth dda, gyda chyfnod ymsefydlu da, ac roedd tystiolaeth o oruchwyliaeth reoliadol a chlinigol. Roedd y nifer oedd yn derbyn hyfforddiant gorfodol yn dda ac yn cael ei fonitro'n agos. Darparwyd mynediad at ddatblygiad proffesiynol a dysgu mewnol hefyd, yn gysylltiedig â datblygiad unigol ac anghenion cleifion. Gwnaethom arsylwi ymgysylltiad proffesiynol â charcharorion trwy gydol yr arolygiad.
- 2.47** Roedd y ganolfan iechyd yn lân a'r offer wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, ac roedd ystafelloedd triniaeth yr unedau mewn cyflwr da ac yn addas i'w defnyddio.
- 2.48** Roedd staff gwasanaethau iechyd wedi'u hyfforddi'n briodol i ymateb i argyfyngau meddygol, ac roedd yr offer yn briodol. Roedd trefniadau ymateb i argyfwng wedi newid ers yr arolygiad blaenorol a bellach yn cynnwys parafeddyg a oedd yn cwmpasu'r safle cyfan.
- 2.49** Erbyn hyn roedd system gwynion gofal iechyd annibynnol, a hysbysebwyd hyn yn dda. Fodd bynnag, nid oedd yr ymatebion i'r cwynion hyn yn mynd i'r afael â'r pryderon a amlygwyd yn

gyson, a oedd yn amlygu'r angen am well sicrhau ansawdd. Gofynnwyd am adborth ar draws pob clinig ar ffurf holiaduron, mewn ymgais i wella gwasanaethau.

## Hybu iechyd a lles

- 2.50** Roedd gan y carchar ymagwedd gydlynol tuag at hybu iechyd. Defnyddiodd y tîm gofal iechyd galendr o ddigwyddiadau a oedd yn adlewyrchu rhaglenni cenedlaethol, ac arddangoswyd gywbodaeth hybu iechyd ledled y carchar.
- 2.51** Roedd asesiadau sgrinio iechyd cychwynnol effeithiol ac asesiadau eilaidd ychwanegol yn galluogi mynediad amserol i brofion ar gyfer firysau a gludir yn y gwaed a gweinyddu amrywiaeth briodol o imiwneiddiadau. Roedd aelod o staff iechyd arweiniol ar gyfer carcharorion hŷn, a chefnogaeth barhaus a oedd yn cynnwys cefnogaeth sylweddol i garcharorion agored i niwed ar uned X.
- 2.52** Gallai carcharorion gyrchu rhaglenni sgrinio cenedlaethol priodol i'w hoedran trwy gyswllt effeithiol ag asiantaethau allanol. Darparwyd cefnogaeth i roi'r gorau i ysmegu lle bo angen, a chynhaliwyd clinig iechyd rhywiol, gyda gorchudd rhwystr ar gael yn gyfrinachgar ar gais. Roedd polisi lleol ar gyfer rheoli achosion o glefydau trosglwyddadwy.

## Gwasanaethau gofal sylfaenol a chleifion mewnol

- 2.53** Cynhaliwyd asesiadau sgrinio iechyd cychwynnol yn brydlon ac yn effeithiol yn y dderbynfa, gydag atgyfeirio priodol at wasanaethau eraill lle bo angen. Cynigiwyd sgrinio eilaidd fel mater o drefn, ac roedd y nifer a gymerodd hyn a chofnodion wedi gwella yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd ymarferwyr iechyd yn mynychu'r uned wahanu yn rheolaidd i gefnogi carcharorion yno, ond nid oedd eu presenoldeb yn cael ei gofnodi'n iawn bob amser.
- 2.54** Gwnaeth carcharorion apwyntiadau trwy'r ciosgau CMS, ac fel rheol roeddent yn cael slot ar gyfer nyrsys brysbennu yn y lle cyntaf. Fe wnaethant ddweud wrthym y gallai fod yn anodd cael mynediad at wasanaethau ond gwelsom ystod o glinigau gofal sylfaenol priodol yn cael eu rhedeg o'r ganolfan iechyd, gydag amseroedd aros byr i'r mwyafrif, gan gynnwys gwasanaethau meddygon teulu, ffisiotherapi, optegydd a thrin traed. Roedd mewnbyn meddygon teulu yn dda, ac yn cynnwys gwasanaeth y tu allan i oriau rhagorol. Roedd y gwasanaethau meddygol yn cynnwys mynediad at bresgripsiynydd fferyllol annibynnol, a ddarparodd haen werthfawr o gefnogaeth i gleifion.
- 2.55** Roedd ailstrwythuro trefniadau staffio wedi arwain at well cefnogaeth fedrus i garcharorion â chyflyrau tymor hir. Gwelsom gynllunio gofal yn cael ei ddatblygu ond nid oedd y trefniadau wedi'u hymgorffori na'u personoli'n llawn eto. Roedd goruchwylio a monitro amlddisgyblaethol ar gleifion â materion rheoli poen yn galluogi ymagwedd gyson a gwrthrychol, yn enwedig pan ddangoswyd ymddygiad a oedd o bosibl yn ceisio a chael cyffuriau.
- 2.56** Anaml y byddai'r carchar yn cyfyngu ar fynediad i apwyntiadau ysbyty allanol arferol, ac roedd y meddyg teulu bob amser yn cydlynu unrhyw flaenoriaethu. Roedd clinigau cyn rhyddhau yn galluogi cefnogaeth porth effeithiol i wasanaethau cymunedol. Roedd llwybr gofal lliniarol wedi'i sefydlu ac fe'i defnyddiwyd yn briodol.

## Gofal cymdeithasol

- 2.57** Roedd memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a phartneriaid allweddol ar gyfer darparu gofal cymdeithasol, ac roedd gan y carchar oruchwyliaeth dda o'r trefniadau hyn. Roedd tîm o weithwyr cymdeithasol a therapydd galwedigaethol pwrpasol wedi'u cydleoli yn y carchar, er mwyn galluogi i anghenion gael eu nodi'n brydlon, cynnal asesiadau trylwyr a chyfeirio'r gefnogaeth a'r addasiadau angenrheidiol ar gyfer y 38 carcharor a oedd yn derbyn rhyw fath o fewnbwn gofal cymdeithasol. Gwelwyd carcharorion a atgyfeiriwyd i'w hasesu yn y flwyddyn flaenorol yn brydlon, gyda'r cyngor yn contractio G4S i ddarparu gofal personol manwl i'r rhai a oedd yn bodloni'r trothwy, er nad oedd cofrestriad ffurfiol y gwasanaeth wedi'i gwblhau eto. Dywedwyd wrthym nad oedd mynediad at wasanaethau dementia cymunedol arbenigol i alluogi asesiad a thriniaeth gynnar.
- 2.58** Roedd G4S yn cyflogi sawl cynorthwydd gofal iechyd. Ar adeg yr arolygiad, roeddent yn darparu gofal personol i saith carcharor, y mwyafrif ohonynt yn byw ar unedau X3 a T6 ac angen cymorth sylweddol gydag anghenion symudedd a gofal personol. Roedd gofalwyr yn cael cefnogaeth dda ac yn adnabod y carcharorion hyn yn dda, a dywedodd y carcharorion dan sylw wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a ddarperir.
- 2.59** Roedd cynlluniau gofal unigol a chadw cofnodion yn glir ar y cyfan ond dywedodd staff awdurdodau lleol nad oedd gwybodaeth feddygol bwysig ar gael iddynt bob amser. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn gryno ac nid oedd yn gyfredol bob amser, a allai fod wedi cael effaith ar ofal yn y dyfodol.

## Gofal iechyd meddwl

- 2.60** Yn ein harolwg, dywedodd 52% o ymatebwyr fod ganddynt broblem iechyd meddwl, er dim ond 23% a ddywedodd eu bod wedi cael cymorth gyda hyn (o gymharu â 41% mewn carchardai tebyg). Roedd y galw am wasanaethau iechyd meddwl yn uchel ond, yn siomedig, nid oedd hyn wedi'i feintio yn yr asesiad anghenion iechyd diweddar (gweler prif argymhelliad A48), ac roeddem o'r farn y dylid ailedrych ar hyn. Roedd saith deg tri y cant o staff y carchar wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl, ac roedd y gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn darparu hyfforddiant gloywi misol.
- 2.61** Darparwyd gwasanaethau rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Roedd gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol wedi gwella, a sicrhodd tîm dynodedig o nyrsys iechyd meddwl fod carcharorion a sgriniwyd yn y dderbynfa neu'n hunangyfeirio yn cael eu gweld yn brydlon. Erbyn hyn, gallai'r rhai â phroblemau mân i gymedrol gael gafael ar lenyddiaeth hunangymorth, cefnogaeth cymheiriaid, gwaith un-i-un a grwpiau sy'n canolbwyntio ar reoli gorbryder a hwyliau isel. Roedd cefnogaeth gwnsela ar gael hefyd, er ei fod yn gyfyngedig. Roedd nyrsys 'risg uchel' dynodedig yn blaenoriaethu gwaith ar y cyd â'r tîm carchar mwy diogel, yn ymdrin ag adolygiadau ACCT ac yn staffio'r carchar mwy diogel.
- 2.62** Roedd y ddarpariaeth ar gyfer carcharorion ag anawsterau dysgu yn drawiadol. Roedd uned byw â chymorth arbenigol wedi agor ym mis Mehefin 2019 i gynnig cyfundrefn gefnogol i 70 o garcharorion, ac roedd y carchar wedi derbyn achrediad awtistiaeth gan y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol. Cynigiodd tîm o nyrsys anabledau dysgu asesiadau a chynlluniau rheoli cynhwysfawr ar yr uned a ledled y carchar, gan gynnwys uned X.
- 2.63** Darparwyd gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd i'r rheini â materion iechyd meddwl cymhleth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Nid oedd gan y tîm ddigon o adnoddau, ac roedd yn gwasanaethu carchar arall hefyd. Ni chafwyd digon o sesiynau seiciatreg, ac roedd diffyg darpariaeth ar gyfer cleifion ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd ac oedolion hŷn, heb unrhyw therapydd galwedigaethol, mewnbwn seicolegol minimol a dim

llwybr diagnosis deuol (i'r rheini â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau a oedd yn bodoli eisoes; gweler paragraff 2.70 hefyd, a phryder allweddol ac argymhelliad S48). Roedd nifer y llwythi achosion presennol yn 62, a oedd yn isel, o ystyried maint y carchar, gydag 13 o gleifion eraill ar y rhestr aros; ar adeg yr arolygiad, yr amser aros hiraf oedd dau fis.

- 2.64** Roedd atgyfeiriadau newydd yn cael eu blaenoriaethu mewn cyfarfodydd dyrannu wythnosol, ond nid oedd y rheini'n cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau sylfaenol, a oedd yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer gweithio integredig. Cyfrannodd nyrsys iechyd meddwl at broses y cynllun her, cefnogaeth ac ymyrraeth<sup>14</sup>, a mynychu adolygiadau ACCT a chynadleddau achos. Ar hyn o bryd, roedd 25 o gleifion yn cael eu rheoli o dan gynllun gofal a thriniaeth, ond roedd ymrwymiad cyfyngedig gan dimau iechyd meddwl cymunedol mewn cyfarfodydd cyn rhyddhau.
- 2.65** Yn ystod y chwe mis blaenorol, roedd tri allan o bedwar trosglwyddiad o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi'u cynnal yn brydlon, gydag un wedi'i oedi rhywfaint ac un arall wedi'i ganslo gan fod yr unigolyn dan sylw wedi marw ar y diwrnod cyn trosglwyddo.

## Arfer da

- 2.66** *Roedd uned byw â chymorth arbenigol ar gyfer carcharorion â diagnosis anawsterau dysgu, ac roedd hyn yn darparu lefel ragorol o ofal a chefnogaeth.*

## Triniaeth camddefnyddio sylweddau<sup>15</sup>

- 2.67** Adolygwyd strategaeth cyffuriau ac alcohol y sefydliad yn gynharach yn y flwyddyn, roedd yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cynlluniau gweithredu ar gyfer datblygu gwasanaethau yn y dyfodol. Roedd yr oruchwyliaeth strategol a gweithredol a chydweithio ag adrannau eraill, megis diogelwch, yn dda.
- 2.68** Defnyddiodd y carchar wasanaeth camddefnyddio sylweddau dynodedig, a oedd yn rhan o'r consortiwm Dyfodol ac a oedd hefyd yn gweithredu yn y gymuned. Roedd y model newydd hwn yn dal i ymsefydlu ond roedd eisoes wedi cynyddu mynediad at gymorth cyffuriau ac alcohol penodol. Mewn ymateb i ddefnydd carcharorion o sylweddau seicoweithredol (PS),<sup>16</sup> roedd y carchar wedi cyflwyno ystod o fesurau i leihau niwed a rheoli risg, megis rhaglen addysg cyffuriau adeg cynefino, gwasanaeth ymateb cyflym PS ac ymyriadau cryno, clinigau dynodedig a chofnodion arsylwadol.
- 2.69** Adeg yr arolygiad, roedd 459 o garcharorion (30% o'r boblogaeth) yn ymgysylltu â'r gwasanaeth, ac roedd ymyriadau'n cynnwys hyfforddiant hunanreoli ac adfer (SMART); grwpiau Alcoholigion Anhysbys a Narcotiaeth Anhysbys; cwnsela; grwpiau ysgogol; a'r rhaglen Adeiladu Sgiliau Adfer, a hwyluswyd gan y tîm rhaglenni. Roedd y mentrau i ehangu'r ddarpariaeth yn cynnwys ymarferwyr a enwir ar gyfer unedau eraill, treialu uned byw heb sylweddau wedi'i chymell a datblygu gwaith grŵp ar uned A.

<sup>14</sup> Defnyddir cynlluniau her, cefnogaeth ac ymyrraeth (CSIP) gan bob carchar oedolion i reoli'r carcharorion hynny sy'n dreisgar neu'n peri risg uwch o fod yn dreisgar. Mae'r carcharorion hyn yn cael eu rheoli a'u cefnogi ar gynllun gyda thargedau unigol ac adolygiadau rheolaidd. Mae rhai carchardai hefyd yn defnyddio'r fframwaith CSIP i gefnogi dioddefwyr trais.

<sup>15</sup> Yn yr adroddiad blaenorol, cafodd triniaeth camddefnyddio sylweddau ei chynnwys o fewn diogelwch, tra bod cynllunio ailintegreiddio ar gyfer cyffuriau ac alcohol yn dod o dan gynllunio adsefydlu a rhyddhau (ailsefydlu yn flaenorol).

<sup>16</sup> Mae sylweddau seicoweithredol naill ai'n gyfansoddion naturiol, rhannol synthetig neu gwbl synthetig. Pan gânt eu cymryd, maent yn effeithio ar brosesau meddwl neu gyflwr emosiynol unigolyn. Mewn carchardai, cyfeirir at y sylweddau hyn yn aml fel 'sbeis'. I gael mwy o wybodaeth gweler <https://www.gov.uk/guidance/psychoactive-substances-in-prisons#what-are-psychoactive-substances>.



- 2.70** Roedd yr angen am driniaeth glinigol wedi mwy na dyblu ers yr arolygiad blaenorol, ac ar adeg yr arolygiad, roedd methadon neu buprenorffin (amnewidion heroin) wedi'u rhagnodi ar gyfer 133 o garcharorion. Yn ystod y chwe mis blaenorol, bu angen dadwenwyno alcohol ar 12 o garcharorion ar uned X, a rheolwyd hyn yn ddiogel. Roedd y driniaeth yn hyblyg ac yn cael ei hadolygu ar y cyd â'r tîm seicogymdeithasol, ond roedd angen diweddarau protocolau clinigol o ystyried yr arfer presennol, ac nid oedd gweithio ar y cyd â'r gwasanaethau iechyd meddwl wedi'i ffurfioli (gweler paragraff 2.63 hefyd).
- 2.71** Roedd mwyafrif y cleifion (76) wedi'u lleoli yn uned Delta, lle'r oedd gweinyddu cyffuriau rheoledig yn cael ei oruchwylio'n briodol ac a oedd hefyd yn buddio o fentoriaid cymheiriaid. Oherwydd y cynnydd yn y galw, roedd A3 i fod i agor fel uned triniaeth cyffuriau gychwynnol, gyda chyfleusterau i weinyddu cyffuriau rheoledig.
- 2.72** Roedd y trefniadau paratoi cyn rhyddhau a gofal drwy'r broses yn dda. Roedd defnyddio cronfa ddata rheoli achosion a rennir yn hwyluso rhannu gwybodaeth ag asiantaethau cymunedol, a darparodd gweithwyr cymunedol wasanaeth mewngymorth i weld carcharorion cyn eu rhyddhau. Roedd cyngor lleihau niwed yn cynnwys hyfforddiant naloxone a darparu pecyn naloxone, i wrthdroi effeithiau opiadau.

## Gwasanaethau fferyllol ac optimeiddio meddyginiaethau

- 2.73** Roedd meddyginiaethau'n cael eu cyflenwi, yn bennaf ar sail glaf a enwir, o fferyllfa fewnol wedi'i staffio'n dda. Rhoddodd fferylllydd gyngor i gleifion a oedd yn casglu eu meddyginiaethau o'r fferyllfa. Yn ddiweddar, roedd y carchar wedi penodi naw technegydd fferyllfa wedi'u lleoli ar uned, a oedd wedi rhyddhau amser nyrsio, er nad oedd technegwyr a oedd wedi'u lleoli yn y fferyllfa ac ar yr uned yn gweithio'n ddigon cydlynol. Roedd rhagnodi a gweinyddu a gwblhawyd ar SystmOne (y cofnod clinigol electronig) yn dilyn fformiwlari cyffuriau (rhestr o feddyginiaethau a ddefnyddir i hysbysu rhagnodi) y cytunwyd arni ar y cyfan.
- 2.74** Roedd angen adolygu'r polisi meddiant gan fod asesiadau risg yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac ni chawsant eu hadolygu ar gyfer pob meddyginiaeth newydd (fel gwrthfotigau), a gwelsom hyn yn effeithio ar ddarparu triniaeth effeithiol. Adolygwyd asesiadau risg bob chwe mis ond nid oedd meddygon na deintyddion yn cynnal y rhain fel mater o drefn. Roedd hanner cant y carcharorion a oedd yn derbyn meddyginiaethau yn eu cadw yn eu meddiant – rhai am 14 diwrnod ac eraill am 28 diwrnod. Fe wnaethant archebu'r rhain yn uniongyrchol, a dywedodd llawer wrthym fod oedi cyn derbyn presgripsiynau. Gwelsom rywfaint o dystiolaeth o hyn, ond roeddem o'r farn nad oedd yr oedi yn afresymol, o ystyried maint y carchar. Roedd cypyrddau dan glo ar gael yn y mwyafrif o gelloedd, ond nid pob un, ar gyfer storio meddyginiaethau yn ddiogel.
- 2.75** Gweinyddwyd meddyginiaethau dan oruchwyliaeth am 8am a 4pm yn bennaf, a olygai na ellid cadw at amserlenni dos argymelledig rhai meddyginiaethau, gan gynnwys tawelydd dros nos; roedd hefyd yn annog rhagnodi tawelyddion poen rhyddhau addasedig cryf, a oedd yn amhriodol. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o ddarpariaeth ar gael ar gyfer gweinyddiaeth amser cinio canol dydd a gyda'r nos. Ychydig o feddyginiaethau cyfnewidiadwy a ragnodwyd.
- 2.76** Roedd goruchwyliaeth swyddogion o giwiau gweinyddu cyffuriau yn gadarn ar y mwyafrif o'r unedau ond roedd y trefniadau yn y fferyllfa gofal iechyd yn annigonol, gan gynnwys y ciwiau ar gyfer meddyginiaeth opiadau, a oedd o bosib yn cynyddu'r tebygolrwydd o fwlio a dargyfeirio.
- 2.77** Roedd meddyginiaethau ar gael ar gyfer mân anhwylderau heb bresgripsiwn ond roedd protocolau cyfyngedig i ddarparu meddyginiaethau cryfach heb yr angen i weld meddyg.

Roedd gweithdrefnau cysoni stoc ar waith ar gyfer meddyginiaethau a ddefnyddir y tu allan i oriau ond nid ar gyfer y rheini a gyflenwir ar gyfer mân anhwylderau. Roedd ystod eang o feddyginiaethau syml ar gael i'w prynu o restr siop y carchar.

- 2.78** Roedd cypyrddau meddyginiaeth yn daclus ond ni symudwyd meddyginiaethau nas defnyddiwyd yn brydlon. Roedd tymereddau'r oergelloedd ar unedau A ac X yn rhy isel, ac ni chymerwyd unrhyw gamau unioni. Nid oedd y cabinet cyffuriau a reolir ar uned D wedi'i ddiogelu fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Roedd presgripsiynau math gymunedol ar gael yn dilyn achosion o ryddhau heb eu cynllunio o'r llys neu mewn argyfyngau, a oedd yn briodol. Roedd polisiâu addas ar waith ac roedd cyfarfod misol ar reoli meddyginiaethau wedi'i sefydlu, yr oedd staff y fferyllfa'n ei fynychu.

## Gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg

- 2.79** Roedd *Time for Teeth* yn darparu ystod briodol o driniaethau'r GIG, o ddydd Llun i ddydd Gwener, a ddarparwyd gan dîm profiadol. Darparwyd ystod eang o wybodaeth hybu iechyd y geg a chynghor hylendid y geg yn ystod ymgynghoriadau deintyddol. Darparodd nyrs ddeintyddol asesiad brysbennu, er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau clinigol yn cael eu nodi. Gellid cyrchu apwyntiadau arferol a thriniaethau parhaus mewn modd amserol, ond nid yn achos carcharorion ar uned X; dim ond sesiwn brynhawn Gwener yr oedd gan y carcharorion hyn, a allai fod wedi arwain at oedi cyn derbyn gofal brys (gweler pryder allweddol ac argymhelliad A49).
- 2.80** Roedd prosesau llywodraethu a threfniadau rheoli ac atal heintiau yn effeithiol. Roedd y ddeintyddfa yn bodloni'r holl safonau. Roedd y glanhau'n effeithiol, cafodd offer ei gynnal a'i gadw'n briodol, cynhaliwyd gwiriadau diogelwch a rheolwyd gwaredu gwastraff yn dda.

## Adran 3. Gweithgaredd â phwrpas

**Mae carcharorion yn gallu a disgwylir iddynt gymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n debygol o fod o fudd iddynt.**

### Amser allan o'r gell

#### Canlyniadau disgwyliedig:

**Mae pob carcharor yn cael digon o amser allan o'r gell ac fe'u hanogir i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cefnogi eu hadsefydlu.**

- 3.1 Roedd adolygu'r diwrnod gwaith a gynlluniwyd ers yr arolygiad blaenorol wedi cynyddu faint o amser allan o'r gell i'r mwyafrif o garcharorion. Gallai'r rheini ar lefel uwch y cynllun cymhellion ac ennill breintiau (IEP) a oedd yn gweithio'n llawn amser fod allan o'u celloedd cyn hired â 12.25 awr y dydd rhwng dydd Llun a dydd Iau. Gallai eraill a oedd yn gweithio'n llawn amser ddisgwyl rhwng 10.25 ac 11.25 awr, a gweithwyr rhan amser ddisgwyl chwe awr allan o'r gell ar y dyddiau hynny. Bu cynnydd hefyd mewn amser allan o'r gell i'r mwyafrif o garcharorion ar ddydd Gwener ac ar benwythnosau. Fodd bynnag, gallai'r rhai heb gyflogaeth neu gyda statws IEP sylfaenol gael eu cadw dan glo am fwy na 22 awr bob dydd.
- 3.2 Roedd maint yr amser cymdeithasu yn amrywio, yn dibynnu ar statws IEP a chyflogaeth, ond yr isafswm oedd un awr y dydd i'r rheini ar lefel sylfaenol y cynllun IEP. Yn ein harolwg, dywedodd 83% o ymatebwyr eu bod yn cael amser cymdeithasu ar fwy na phum diwrnod yr wythnos, a oedd yn cymharu'n ffafriol â charchardai hyfforddi categori B a C eraill yr ydym wedi'u harolygu yn ddiweddar (66%).
- 3.3 Roedd amseroedd ymarfer corff awyr agored hefyd yn amrywio ar i fyny o isafswm o un awr yr wythnos i'r rheini â'r statws IEP sylfaenol. Roedd mwyafrif y manau ymarfer corff yn llwm, gydag ychydig o feinciau a heb unrhyw gyfarpar ymarfer corff (gweler Atodiad IV).
- 3.4 Yn ystod yr arolygiad, digwyddodd y mwyafrif o achosion o symud carcharorion ar yr amseroedd yr oedd disgwyl iddynt, ac ni welsom unrhyw dystiolaeth o lithriad na chwtdog'r gyfundrefn.
- 3.5 Roedd digonedd o le yn y llyfrgell ac roedd wedi'i osod allan yn ddeniadol, ac yn darparu gwasanaeth da ar y cyfan. Yn ein harolwg, dywedodd 51% o ymatebwyr y gallent fynd i'r llyfrgell o leiaf unwaith yr wythnos, o'i gymharu â 32% ar adeg yr arolygiad blaenorol. Dywedodd mwy o garcharorion fod gan y llyfrgell ystod ddigon eang o ddeunydd i fodloni eu hanghenion nag mewn sefydliadau tebyg yr ydym wedi'u harolygu yn ddiweddar, ac o'i gymharu ag adeg yr arolygiad blaenorol.
- 3.6 Erbyn hyn roedd atodiad i'r llyfrgell yn ardal y carchar lle'r oedd y carcharorion agored i niwed. Er bod hyn yn llawer llai na'r brif lyfrgell, dywedwyd wrthym y gallai'r llyfrgellwyr ddod â llyfrau a deunydd eraill rhwng y safleoedd, yn ôl diddordebau'r carcharorion. Er hyn, dim ond 39% o garcharorion agored i niwed a ddywedodd fod gan y llyfrgell ystod ddigon eang o ddeunydd i fodloni eu hanghenion, o'i chymharu â 91% o garcharorion yng ngweddill y carchar, ac nid oedd rhai carcharorion y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol y gallent gael gafael ar ddeunydd arall o'r prif safle.
- 3.7 Roedd y ddarpariaeth AG yn dda. Defnyddiwyd cyfleusterau'r gampfa yn dda ac yn ein harolwg dywedodd 58% o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio'r gampfa o leiaf ddwywaith yr wythnos.

- 3.8** Er ei bod yn amlwg yn her darparu mynediad i gynifer o garcharorion, bu'r adran AG yn monitro'r defnydd o gyfleusterau ymarfer corff fesul uned yn agos, ac yn mynd i'r afael â materion wrth iddynt godi. Roedd hyn yn arwain at arloesi; er enghraifft, roedd y gampfa wedi dechrau agor am 7am ar gyfer y rhai ar un o'r unedau lle'r oedd y rhan fwyaf o garcharorion yn gweithio'n llawn amser. Gwnaeth hyn ddileu'r angen i garcharorion a oedd yn gweithio i ddewis rhwng gwaith ac ymarfer corff, fel y gwelsom mewn carchardai eraill.
- 3.9** Roedd dau gae pob tywydd, gan gynnwys cae chwaraeon glaswellt artiffisial newydd a oedd newydd gael ei agor, a chwrt peli dan do. Cynhaliwyd sesiynau adsefydlu a cholli pwysau yn y gampfa, ac roedd yr adran AG yn canolbwyntio ar gynyddu'r defnydd o'r gampfa gan garcharorion hyn. Cynhaliodd yr adran ystod o gyrsiau a roddodd gyfle i garcharorion ennill cymwysterau iechyd a ffitrwydd.
- 3.10** Roedd gan yr adran AG berthnasoedd datblygedig gyda rhwydwaith fawr o randdeiliaid allanol, gan gynnwys clybiau rygbi a phêl-droed, ac roedd hyn wedi arwain at gyfleoedd hyfforddi i garcharorion, yn ogystal â digwyddiadau rheolaidd.

## Gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith (Estyn)<sup>17</sup>

### Canlyniadau disgwyliedig:

**Gall pob carcharor gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwrpasol, o fudd iddynt ac yn gwella eu cyflogadwyedd. Mae carcharorion yn cael eu hannog a'u galluogi i ddysgu yn ystod ac ar ôl eu dedfryd. Mae safon y ddarpariaeth dysgu a sgiliau a gwaith yn dda ac mae'n diwallu anghenion yr holl garcharorion yn effeithiol.<sup>18</sup>**

### **3.11** Gwnaeth Estyn yr asesiadau canlynol ar y ddarpariaeth dysgu a sgiliau a gwaith:

Safonau:	Rhagorol
Lles ac agweddau at ddysgu:	Rhagorol
Profiadau addysgu a dysgu:	Da
Gofal, cefnogaeth ac arweiniad:	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth:	Da

### Safonau

- 3.12** Roedd cyfraddau llwyddiant cyffredinol carcharorion yn gyson yn uwch na gofynion cytundebol y carchar. Roedd cyfraddau llwyddiant yn gryfach na chyfraddau carchardai eraill yng Nghymru.
- 3.13** Mewn gweithdai galwedigaethol, cyrsiau cyflogadwyedd a sesiynau addysg, gwnaeth bron pob carcharor gynnydd effeithiol tuag at eu nodau dysgu. Mewn gweithdai galwedigaethol, datblygodd carcharorion sgiliau defnyddiol a oedd yn gwella eu cyflogadwyedd, gan ennill dealltwriaeth ddilys o'r hyn y byddai cyflogwyr yn ei ddisgwyl ganddynt. Roedd lleiafrif o

<sup>17</sup> Cynhelir y rhan hon o'r arolygiad gan arolygwyr Estyn gan ddefnyddio fframwaith arolygu cyffredin Estyn. Mae hyn yn sicrhau bod carchardai yn cael eu dwyn i gyfrif i'r un safon perfformiad â cholegau addysg bellach yn y gymuned.

<sup>18</sup> Yn yr adroddiad blaenorol, roedd materion ailintegreiddio ar gyfer addysg, sgiliau a gwaith wedi'u cynnwys mewn cynllunio adsefydlu a rhyddhau (ailsefydlu yn flaenorol).

garcharorion, fel y rhai yn y gweithdy print digidol, yn gallu dangos dealltwriaeth dechnegol gadarn o brosesau diwydiannol cymhleth. Roedd llawer yn defnyddio offer a chyfarpar priodol yn gymwys a heb fawr o oruchwyliaeth. Fe wnaeth mentoriaid cymheiriaid mewn lleoliadau galwedigaethol ddatblygu ac arddangos sgiliau goruchwyllo gwerthfawr.

- 3.14** Cymerodd ychydig o garcharorion gyfrifoldeb am ddatblygu meysydd gwaith, gan greu cyfleoedd i wella eu sgiliau presennol. Er enghraifft, cymerodd un carcharor y fenter i gynhyrchu dodrefn gardd o ansawdd uchel mewn uned arddwriaeth. Roedd un, heb unrhyw brofiad blaenorol o arddwriaeth, wedi datblygu profiad manwl mewn tyfu pupurau tsili.
- 3.15** Roedd rhywfaint o garcharorion wedi cwblhau cymwysterau galwedigaethol cenedlaethol mewn garddwriaeth, a oedd wedi'u cymell i ystyried y maes hwn fel llwybr cyflogaeth yn y dyfodol. Mewn llawer o weithdai, datblygodd dysgwyr werthfawrogiad o werth llythrennedd a rhifedd.
- 3.16** Cwblhawyd y rhan fwyaf o waith cwrs a gwaith ymarferol carcharorion i safon dda, gyda rhywfaint ohonynt yn cynhyrchu gwaith rhagorol. Roedd carcharorion a oedd yn cael eu hyfforddi fel glanhawyr yn cymryd gofal wrth gyflawni eu tasgau i safon uchel. Talodd dysgwyr cerddoriaeth sylw mawr i berfformiad a chyfansoddiad technegol eu traciau cerddoriaeth o ansawdd dda. Roedd y tîm garddwriaeth yn ymfalchio yn ansawdd a chyflwyniad tir y carchar (gweler Atodiad IV), a esboniwyd eu bod yn bwysig er mwyn cynnal awyrgylch o normalrwydd i'w cyd-garcharorion.
- 3.17** Gwnaeth nifer o ddysgwyr gynnydd da wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd, gyda bron pob un yn gwella'r sgiliau hyn o leiaf un lefel. Roedd rhywfaint o garcharorion wedi gwella o lefel mynediad i lefel tri, ac roedd un carcharor, a oedd wedi cael trafferth gyda rhifedd o fewn addysg ffurfiol, wedi dechrau gradd yn seiliedig ar fathemateg yn ddiweddar.
- 3.18** Cyflawnodd y mwyafrif o garcharorion gymwysterau a fyddai'n cefnogi eu mynediad i gyflogaeth. Roedd rhywfaint o ddysgwyr yn gweithio tuag at gymwysterau uwch, gyda rhywfaint yn symud ymlaen i raddau lefel Meistr. Yn ogystal â chymwysterau ffurfiol, enillodd dysgwyr sgiliau gwerthfawr fel gweithio cymheiriaid a chydweithio, cadw amser, dilyn cyfarwyddiadau a chyfathrebu mewn grwpiau. Dangosodd rhywfaint o ddysgwyr mewn dosbarthiadau sgiliau llafaredd uwch. Dywedodd llawer o garcharorion wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfuno hyfforddiant galwedigaethol rhan amser â dosbarthiadau addysg ran amser, gan ganiatáu iddynt wella eu sgiliau a'u cymwysterau.
- 3.19** Fe wnaeth rhywfaint o garcharorion na chymerodd ran mewn dosbarthiadau addysg gymryd rhan mewn ystod ddefnyddiol o weithgareddau allgymorth. Fe wnaeth y gweithgareddau hyn wella eu hyder, ac yna roedd nifer ohonynt wedi'u hannog i fynychu dosbarthiadau prif ffrwd. Roedd mentoriaid cymheiriaid ar yr uned yn darparu anogaeth gref i'r carcharorion hyn.

## Lles ac agweddau tuag at ddysgu

- 3.20** Roedd y mwyafrif o garcharorion yn teimlo'n ddiogel mewn gweithgareddau dysgu a sgiliau, ac yn dweud bod staff yn delio ag unrhyw ddigwyddiadau o fwlio neu aflonyddu sy'n dod i'r amlwg yn brydlon ac yn dda. Roeddent yn gwybod at bwy y gallent droi os oedd ganddynt unrhyw bryderon, ac roeddent yn teimlo y gallent ymddiried yn ddiogel yn eu tiwtoriaid a'u mentoriaid cymheiriaid. Ymatebodd mwyafrif y carcharorion yn gadarnhaol i'r gefnogaeth a ddarperir gan y carchar i wella eu lles. Er enghraifft, roedd rhaglenni adsefydlu, sesiynau cwnsela, gweithgareddau cymorth dysgu a gwersi celfyddydau creadigol oll yn cael eu gwerthfawrogi fel rhai therapiwtig.

- 3.21** Roedd llawer o garcharorion yn gwerthfawrogi pwysigrwydd diet a ffordd o fyw iach. Gwnaeth mwyafrif y carcharorion ddefnydd da o gyfleusterau'r gampfa.
- 3.22** Roedd mwyafrif y carcharorion yn gwerthfawrogi pwysigrwydd datblygiad personol a chyflogadwyedd. Roedd y mwyafrif yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau a chyflawni cymwysterau, i wella eu rhagolygon cyflogaeth ar ôl cael eu rhyddhau. Fe wnaethant gymryd rhan yn hyderus ac yn llawn mewn trafodaethau am eu profiadau yn y carchar a sut roeddent wedi buddio o'r rhain.
- 3.23** Roedd bron pob carcharor yn mynychu eu gwersi yn rheolaidd ac roedd prydlondeb yn dda. Yn gyffredinol, roedd carcharorion yn ymgartrefu mewn gweithgareddau yn gyflym, yn cynnal lefelau canolbwyntio da ac yn cwblhau tasgau yn bwrpasol. Ymatebodd y mwyafrif ohonynt yn gadarnhaol i ethos cynhwysol gweithgareddau addysg a gwaith y carchar, a oedd yn eu helpu i ddatblygu sgiliau pwysig mewn goddefgarwch, gwytnwch a pharch. Roedd nifer yn dangos lefelau uchel o gymhelliant ac yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'u hamser yn y carchar.
- 3.24** Ymgysylltodd llawer o garcharorion yn dda â phrosiectau cymunedol gwerth chweil a mwynhau'r teimlad o 'roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned'. Er enghraifft, fel rhan o'r prosiect 'Rhy dda i'w wastraffu', datblygodd carcharorion ymdeimlad cryf o gyfraniad i gymunedau allanol. Dros amser, datblygodd y mwyafrif yr hyder a'r sgiliau i weithio gydag annibyniaeth gynyddol mewn gwersi.
- 3.25** Roedd bron pob mentor cymheiriaid yn fodolau rôl effeithiol. Fe wnaethant ddarparu cefnogaeth werthfawr yn y mwyafrif o wersi; er enghraifft, yn ystod gwersi rhifedd roedd mentoriaid cymheiriaid yn cefnogi carcharorion llai hyderus yn dda, gan roi esboniadau a sicrwydd clir.
- 3.26** Roedd y perthnasoedd gwaith cynhyrchiol rhwng staff addysgu, cymheiriaid a carcharorion yn nodweddiadol o waith y carchar. Datblygodd y mwyafrif o garcharorion berthnasoedd hynod effeithiol gyda staff addysgu a chymheiriaid. Roedd llawer o garcharorion yn ymddiried yn y staff ac yn teimlo bod eu barn yn cael ei werthfawrogi, a oedd yn eu helpu i wella eu hunan-barch a'u hyder, a datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Roedd cryfder ac ansawdd y perthnasoedd hyn yn hyrwyddo awyrgylch cadarnhaol o ymddiriedaeth a pharch a oedd yn arbennig o ffafriol i les a dysgu carcharorion.

### Profiadau addysgu a dysgu

- 3.27** Roedd bron pob tiwtor yn meddu ar wybodaeth a phrofiad perthnasol gwerthfawr. Roedd bron pob un yn cynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol a chefnogol gyda carcharorion. Roedd llawer yn cynllunio sesiynau ymgysylltu i helpu carcharorion i wella eu gwybodaeth a datblygu sgiliau newydd. Fodd bynnag, nid oedd rhywfaint o diwtoriaid yn darparu'n ddigon da ar gyfer yr ystod lawn o alluoedd y dysgwyr yn eu grwpiau.
- 3.28** Asesodd llawer o diwtoriaid gynnydd carcharorion yn fedrus trwy weithio gydag unigolion yn ystod sesiynau. Rhoddodd y tiwtoriaid hyn anogaeth, cyngor ac adborth ar lafar gwerthfawr i helpu carcharorion i wella eu gwaith. Roedd adborth ysgrifenedig ar waith carcharorion yn adeiladol ac yn ddefnyddiol, gan wella eu cymhelliant a'u hunangred, er i leiafrif ddarparu adborth ysgrifenedig cyfyngedig yn unig.
- 3.29** Manteisiodd llawer o diwtoriaid ar draws y ddarpariaeth yn dda ar gyfleoedd i ddatblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd carcharorion yng nghyd-destun eu dysgu galwedigaethol neu academaidd. Er enghraifft, bu dysgwyr mewn sesiynau saerniaeth a menter busnes yn ymarfer ac yn datblygu eu sgiliau rhifedd cymhwysol trwy gyfrifo costau ac arwynebedd.

- 3.30** Gweithiodd y mwyafrif o fentoriaid cymheiriaid yn dda gyda charcharorion. Fe wnaethant gynefino dechreuwyr newydd yn effeithiol, arddangos sgiliau a thechnegau pwysig yn ystod gweithgareddau gwaith ac addysg, a rhannu eu gwybodaeth â'u cyd-garcharorion. Chwaraeodd y mwyafrif rôl werth chweil hefyd wrth asesu gwaith carcharorion.
- 3.31** Roedd yr ystod eang o ddarpariaeth yn darparu'n dda ar gyfer galluoedd a diddordebau carcharorion. Roedd y carchar wedi gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth y farchnad lafur i deilwra'r gweithgareddau yr oedd yn eu cynnig. Roedd ehangu'r ddarpariaeth yn ddiweddar wedi helpu i ddarparu llwybrau dilyniant clir i garcharorion o ran eu haddysg. Er enghraifft, yn ddiweddar, roedd y rhai a ddangosodd ddiddordeb a gallu mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi gallu symud ymlaen i astudio dylunio gwefannau a dysgu sut i raglennu gan ddefnyddio cod HTML.
- 3.32** Yn ddiweddar, roedd pob tiwtor hyfforddiant galwedigaethol wedi ffurfio perthnasoedd gwerthfawr â busnesau sy'n gysylltiedig â'u diwydiannau priodol. Defnyddiwyd y cysylltiadau hyn yn effeithiol i ddarparu gwybodaeth ddiwydiannol gyfredol werthfawr i diwtoriaid a charcharorion, ac i helpu carcharorion i baratoi ar gyfer cyflogaeth.

## Gofal, cefnogaeth ac arweiniad

- 3.33** At ei gilydd, roedd y carchar wedi creu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Roedd disgwyliadau uchel mewn perthynas ag ymgysylltu a dilyniant carcharorion, gyda'r nod clir o leihau'r risg o aildroseddu.
- 3.34** Defnyddiwyd gweithdrefnau ac asesiadau cynefino yn effeithiol. Rhoddodd staff gyngor ac arweiniad gwybodus i garcharorion ar yr ystod o gyfleoedd cyflogaeth a dysgu yn y carchar ac, i'r rhai a oedd yn agosáu at gwblhau eu dedfryd, yn y gymuned. Fe wnaethant hefyd ddefnyddio canlyniadau asesiadau yn dda i nodi carcharorion ag anghenion ychwanegol.
- 3.35** Ledled y carchar, roedd systemau priodol a oedd yn olrhain y cynnydd a wnaeth carcharorion o ran eu dysgu, eu hagweddau ac o ran cyflawni cymwysterau. Fe wnaeth dysgwyr hefyd werthuso eu cynnydd a gosod targedau ar gyfer y dyfodol. At ei gilydd, roedd gan garcharorion ymdeimlad clir o bwrpas, ac roeddent yn deall buddion datblygu eu sgiliau. Fodd bynnag, nid oedd eu targedau cynllun dysgu unigol yn glir yn gyson, nac wedi'u personoli i ysgogi cynllunio ar gyfer gwelliant. Mewn lleiafrif o achosion, nid oeddent yn ddigon penodol i helpu carcharorion i ganolbwyntio ar yr union beth oedd angen iddynt ei wneud yn y tymor byrrach, i wneud y cynnydd gorau ag y gallent (gweler pryder allweddol ac argymhelliad A50).
- 3.36** Roedd ystod eang y ddarpariaeth gyflogaeth ac addysg y carchar yn cyfateb yn dda i anghenion carcharorion. Amrywiai o gyrsiau lefel mynediad i llwybrau galwedigaethol, ac astudiaeth ôl-raddedig. Roedd llwybrau clir ar gyfer dilyniant, o fewn a thu hwnt i'r carchar. Yn ddiweddar, roedd y carchar wedi datblygu cysylltiadau ag ystod ddefnyddiol o fusnesau lleol. Roedd y sefydliadau hyn wedi ymrwymo i gefnogi cyflogi carcharorion ar ôl eu rhyddhau, ac roedd ychydig llai na thraean ohonynt wedi cynnig swyddi.
- 3.37** Roedd trefniadau effeithiol i nodi ystod o anghenion carcharorion, gan gynnwys dibyniaeth ar sylweddau ac anghenion addysgol arbennig. Yn ddiweddar, roedd y carchar wedi datblygu darpariaeth fwy priodol ar gyfer carcharorion â'r anghenion hyn. Roedd carcharorion yn gallu cyrchu ystod o wasanaethau cefnogi, a chyfleoedd addysg a chyflogaeth ar unedau pwrpasol. Roedd yr uned a oedd yn cefnogi carcharorion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud gwaith defnyddiol gyda charcharorion awtistig.

- 3.38** Ni ddatblygwyd rhannu gwybodaeth ehangach yn systematig ac yn gydlynol – er enghraifft, mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig a/neu faterion camddefnyddio sylweddau carcharorion – yn ddigon da. O ganlyniad, nid oedd staff addysg bob amser mor wybodus ag yr oedd angen iddynt fod am garcharorion ag anghenion mwy cymhleth, a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio'n effeithiol.
- 3.39** Roedd carcharorion yn buddio o gefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr partneriaid a mentoriaid cymheiriaid, a ymgwymerodd â'u rolau gydag ymrwymiad a brwdfrydedd. Fe wnaethant ddangos lefelau priodol o empathi a dealltwriaeth tuag at eu cyd-garcharorion. Roeddent yn cefnogi dysgu carcharorion eraill yn dda. Roedd y rôl partner a mentor cymheiriaid wedi cael effaith gadarnhaol ar les a safonau'r partneriaid, mentoriaid a charcharorion cymheiriaid.
- 3.40** O ganlyniad i'r strategaeth lleihau aildroseddu, roedd nifer y carcharorion a oedd yn ddi-waith wedi gostwng yn sylweddol, ac roedd yn isel. Roedd y strategaeth hon wedi arwain at ystod o ddulliau cymharol newydd sy'n diwallu anghenion carcharorion yn well ac wedi darparu sgiliau gwerthfawr ac ystyrlon iddynt i'w paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 3.41** Roedd darpariaeth bwrsasol ddigonol i ddiwallu anghenion carcharorion, gyda chyfleoedd da iddynt gyfuno addysg a gwaith o fewn eu hamserlen gweithgareddau. Roedd hyn yn darparu ffyrdd gwerthfawr a hyblyg iddynt ddatblygu sgiliau a chymwysterau a oedd yn gwella eu cyflogadwyedd.
- 3.42** Roedd uwch arweinwyr yn blaenoriaethu'n gryf y statws a roddent i ddysgu, sgiliau a chyflogaeth o fewn cynllunio a rheoli strategol y carchar. Roedd hyn yn galluogi'r carchar i wella'r ystod o gyfleoedd sy'n agored i garcharorion, megis hyfforddiant cynnal a chadw rheilffyrdd a dylunio gwefannau, a chyflwyno cymwysterau i feysydd fel garddwriaeth.
- 3.43** Gwnaeth cynllunio ddefnydd cryf o wybodaeth y farchnad lafur a phartneriaethau cyflogwyr, i hysbysu datblygiad gweithgareddau dysgu a oedd yn gwella cyfleoedd carcharorion ar gyfer cyflogaeth, megis ym maes adeiladu tai modiwlaid.
- 3.44** Roedd ffocws y carchar ar gynyddu ymgysylltiad cyflogwyr wedi llwyddo i wella presenoldeb cyflogwyr mewn ffeiriau recriwtio. Roedd hyn, yn ei dro, wedi gwella mynediad carcharorion i gyflogaeth. Er enghraifft, yn y digwyddiad diweddaraf, cafodd 24 allan o'r 75 carcharor a fynychodd gynnig cyflogaeth.
- 3.45** Roedd systemau adrodd a chasglu data effeithiol, a defnyddiodd uwch reolwyr y rhain i fonitro'n agos cyfraddau uchel bresenoldeb carcharorion mewn gweithgareddau a chyflawniadau targedau dysgu neu alwedigaethol.
- 3.46** Roedd adroddiad hunanasesu cynhwysfawr yn meincodi lefelau perfformiad dysgwyr yn erbyn y rhai a gofnodwyd ar gyfer ystod eang o ddarparwyr tebyg, gan wneud defnydd effeithiol o ddata ac ystod eang o dystiolaeth i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn y ddarpariaeth. Roedd y cynllun datblygu ansawdd yn blaenoriaethu meysydd i'w datblygu yn briodol. Roedd cynnydd tuag at y rhain yn cael ei fonitro'n effeithiol bob mis gan grŵp gwella ansawdd, gan adrodd yn rheolaidd i uwch arweinwyr.
- 3.47** Er bod gan staff fynediad da at hyfforddiant, mewn rhai achosion, nid oedd eu hasesiad perfformiad yn ystyried eu holl anghenion datblygu yn llawn.



- 3.48** Roedd y carchar wedi buddsoddi'n helaeth mewn offer technoleg gwybodaeth ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, nid oedd gosod y campws rhithwir (mynediad i'r rhyngwyd ar gyfer carcharorion i gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth gymunedol) wedi'i gwblhau eto. Roedd hyn wedi gohirio mynediad carcharorion ac athrawon at ystod eang o adnoddau dysgu.

### Argymhellion

- 3.49** Dylai trefniadau datblygiad proffesiynol parhaus gael eu hysbysu trwy nodi cryfderau a diffygion sgiliau athrawon yn gadarn.
- 3.50** Dylid gwella mynediad dysgwyr ac athrawon at adnoddau dysgu ar-lein.



## Adran 4. Adsefydlu a chynllunio ar gyfer rhyddhau

**Cefnogir carcharorion i gynnal a datblygu perthnasoedd â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Cynorthwyir carcharorion i leihau eu tebygolrwydd o aildroseddu a rheolir eu risg o niwed yn effeithiol. Mae carcharorion wedi'u paratoi i gael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.**

### Plant, teuluoedd a chysylltiad â'r byd tu allan

#### Canlyniadau disgwylidig:

**Mae'r carchar yn cefnogi cyswllt carcharorion â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae'r carchar yn hwyluso rhaglenni sydd â'r nod o ddatblygu sgiliau magu plant a pherthnasoedd. Cefnogir carcharorion nad ydynt yn cael ymweliadau mewn ffyrdd eraill i sefydlu neu gynnal cefnogaeth deuluol.**

- 4.1 Roedd strategaeth y carchar ar gyfer teuluoedd ac eraill arwyddocaol yn gynhwysfawr, ac roedd cefnogaeth i garcharorion yn y maes hwn yn parhau i fod ymhlith y gorau a welsom. Roedd y ddarpariaeth arloesol a welwyd yn yr arolygiad blaenorol wedi'i gwella ymhellach. Roedd hyn yn amlwg yn ein harolwg, gyda mwy o garcharorion nag mewn carchardai tebyg yn ateb y rhan fwyaf o'r cwestiynau ynghylch cynnal cysylltiad â theulu a ffrindiau yn gadarnhaol. Er enghraifft, dywedodd 97% y gallent ddefnyddio ffôn bob dydd, o'i gymharu â 90% y cymharydd.
- 4.2 Uned T4 oedd yr uned ymyriadau teuluol, ac roedd yn dal hyd at 60 o garcharorion. Roedd yr uned yn cynnig rhaglenni a mentrau i helpu carcharorion i ailadeiladu a datblygu perthnasoedd â'u teuluoedd. Gallai carcharorion wneud cais i symud i'r uned, neu gael eu hatgyfeirio gan staff, ac roedd panel amlddisgyblaethol yn penderfynu pwy fyddai'n buddio fwyaf o gael ei leoli yno.
- 4.3 Roedd tîm Supporting Families [Cefnogi Teuluoedd] y Parc (PSF) wedi'i leoli ar uned T4, ac ers yr arolygiad diwethaf, roedd wedi ymestyn y gefnogaeth a oedd ar gael i garcharorion mewn rhannau eraill o'r carchar. Cafodd pob carcharor newydd gyfweiliad cynefino gyda gweithiwr PSF, i nodi'r materion yr oedd angen cymorth arnynt. Hefyd, nodwyd carcharorion a oedd yn gadael gofal neu'n gyn-filwyr yn ystod y cyfweiliad hwn. Roedd llinell gymorth y tîm i deuluoedd yn derbyn tua 1,000 o alwadau bob mis. Roedd PSF hefyd yn bwynt cyswllt ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill a oedd yn ymwneud â diogelu a gofalu am blant yn y gymuned. Roedd cefnogaeth ar gael i garcharorion a oedd yn ymwneud â phrosesau mabwysiadu neu ofal, a chafwyd cyngor cyfreithiol am ddim gan gyfreithwyr lleol.
- 4.4 Yn ogystal â sesiynau ymweliadau teuluol misol, trefnodd y carchar ystod o ddigwyddiadau arbennig i garcharorion eu mynychu gyda'u teuluoedd. Ymhlith y rhain roedd Baby Bliss, ar gyfer babanod o dan flwydd oed (sy'n cael ei redeg gan Barnardo's Cymru); Language and Play [laith a Chwarae], ar gyfer plant cyn-ysgol; Learn Together Club [Y Clwb Dysgu Gyda'n Gilydd], ar gyfer tadau i helpu plant oed ysgol gyda'u gwaith cartref; digwyddiadau rhieni/athrawon, a gynhaliwyd ddwywaith neu dair bob blwyddyn; ac ymyrraeth deuluol wyth sesiwn, a gynhelir mewn partneriaeth ag Action on Addiction.
- 4.5 Roedd Waliau Anweladwy Cymru (IWW), a ariannwyd ar y cyd gan G4S a HMPPS, yn darparu gwasanaeth cefnogaeth gofal drwy'r broses i deuluoedd. Bu'n gweithio gyda nifer fach o garcharorion a'u teuluoedd am hyd at ddwy flynedd, tra yn y ddalfa ac ar ôl cael eu

rhyddhau. Roedd dau ddeg chwech o garcharorion presennol, neu gyn-garcharorion, a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth yn ystod yr arolygiad. Roedd data ar gyfraddau ail-euogfarnu ar gyfer cyfranogwyr yn cael ei baratoi i'w gyhoeddi. Bellach, roedd y gwasanaeth yn ymestyn i HMP Eastwood Park (i ferched), a, gyda chyllid newydd gan y Loteri Genedlaethol, lansiodd 'IWW Accord' gan Barnado's Cymru. Roedd y prosiect hwn yn cynnig hyfforddiant dedfryd gudd a phhecyn cymorth i ysgolion, i athrawon ei ddefnyddio wrth weithio gyda phlant yr oedd carchariad rhieni yn effeithio arnynt.

- 4.6** Roedd ymweliadau'n cael eu rheoli gan y tîm ymyriadau teulu ac yn cael eu cynnal bob dydd, gan gynnwys sesiynau gyda'r nos. Roedd y ganolfan ymwelwyr, a oedd yn cael ei rhedeg gan Barnado's Cymru, yn amgylchedd wedi'i gyfarparu'n dda, lle gallai ymwelwyr gael gafael ar wybodaeth a lluniaeth; rhannu pryderon; paratoi ar gyfer eu hymweliad; a chyrchu unrhyw sgwteri symudedd, cadeiriau olwyn neu fygis plant angenrheidiol i gyrraedd y neuadd ymweliadau. Roedd y brif neuadd ymweliadau a'r cyfleuster llai ar gyfer carcharorion uned X yn ddymunol, ac roedd ganddynt fannau chwarae i blant a bariau byrbrydau a oedd yn cynnig bwyd a diodydd poeth ac oer. Defnyddiwyd y lolfa deuluol yn y brif neuadd ymweliadau ar gyfer digwyddiadau cymorth i deuluoedd. Roedd cyfleusterau ymweliadau caeedig yn llai llwm nag a welwn yn aml, ac roeddent yn cynnwys man chwarae bach i blant. Yn ein harolwg, dywedodd mwy o ymatebwyr nag mewn carchardai tebyg (69% yn erbyn 46%) fod ymweliadau'n dechrau ac yn gorffen ar amser. Roedd bws gwennol am ddim yn gweithredu rhwng yr orsaf drên agosaf a'r ganolfan ymwelwyr.
- 4.7** Roedd y carchar yn monitro'r defnydd o ymweliadau ac yn llunio dadansoddiad chwarterol o batrymau ymweld. Adroddodd y diweddaraf fod 78% o garcharorion wedi cael ymweliad yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd y gyfran na chafodd ymweliad oddeutu chwarter ym mhob dadansoddiad. Ceisiodd strategaeth 'Connect' ['Cysylltu'] y carchar fynd i'r afael â'r unigedd y gallai'r carcharorion hyn ei brofi, gan gynnwys y defnydd cyntaf o grwpiau Men's Shed<sup>19</sup> mewn carchar yng Nghymru neu Loegr. Roedd y gwaith i gefnogi pobl sy'n gadael gofal yn mynd rhagddo'n dda, gyda phenodiad gweithiwr pobl sy'n gadael gofal. Roedd ganddi lwyth achosion o 155 o bobl sy'n gadael gofal o bob oed, ac ni chafodd 44 ohonynt unrhyw ymweliadau.

## Lleihau risg, adsefydlu a dilyniant

### Canlyniadau disgwylidig:

**Mae cynllunio ar gyfer rhyddhau carcharor yn dechrau ar ôl iddynt gyrraedd y carchar. Mae gan bob carcharor reolwr achos penodedig a chynllun dalfa a gynlluniwyd i fynd i'r afael â'u hanghenion penodol, rheoli'r risg o niwed a lleihau'r risg o aildroseddu.**

- 4.8** Roedd y strategaeth lleihau aildroseddu yn gynhwysfawr, yn gyfredol ac yn seiliedig ar ddadansoddiad da o anghenion carcharorion. Roedd yn cydnabod y boblogaeth amrywiol a gedwir yn y carchar – a oedd yn cynnwys carcharorion ar remand, oedolion ifanc, poblogaeth fawr o garcharorion a euogfarnwyd o drosedd rywiol, carcharorion hŷn a phoblogaeth fawr a ddedfrydwyd o ystod eang o droseddau – a'r angen am gefnogaeth unigol. Aseswyd bod ychydig yn llai na hanner y boblogaeth yn cyflwyno risg uchel neu uchel iawn o niwed i eraill yn rhinwedd eu hymddygiad troseddol, roedd 55% yn treulio cyfnodau dedfryd o bedair blynedd neu'n hirach, roedd 5% yn treulio cyfnodau dedfryd amhenodol a chyhuddwyd neu euogfarnwyd ychydig yn llai nag un o bob pump o drosedd rywiol. Roedd gan bob rhan o'r strategaeth gynllun gweithredu ategol, ac roedd cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y rhain. Roedd grŵp o uwch reolwyr, a gyfarfu bob dau fis, yn goruchwyllo'r gwaith. Roedd cysylltiadau â'r darparwr gwasanaethau ailsefydlu a benodwyd yn gynharach yn y flwyddyn yn datblygu'n dda (gweler paragraff 4.26).

<sup>19</sup> Mae'r mudiad Men's Shed yn cynnig lleoedd cymunedol i ddynion, gyda gweithgareddau iddynt eu mwynhau gyda'i gilydd a helpu i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd.

- 4.9** Roedd y carchar yn gwneud cynnydd da o ran cyflwyno Rheoli Troseddwy yn y Ddalfa (OMiC).<sup>20</sup> Yn yr achosion yr edrychom arnynt, roedd sesiynau gweithwyr allweddol gyda'u carcharorion penodedig yn cael eu cynnal yn rheolaidd, gyda chofnodi manwl a chysylltiad effeithiol gan weithwyr allweddol gyda'r timau rheoli ac ailsefydlu troseddwy ar ran carcharorion.
- 4.10** Roedd carcharorion o Gymru wedi cael eu trosglwyddo i gyfnod dau OMiC (sy'n newid y trefniadau rheoli troseddwy yn y ddalfa ar gyfer carcharorion), ac roedd carcharorion o Loegr ar fin cael eu trosglwyddo yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. Yn achos staff a oedd yn rheoli troseddwy yn y Parc, roedd hyn yn golygu rhedeg dau fodel ar yr un pryd, gyda gwahanol feysydd cyfrifoldeb ar gyfer ymarferwyr gwarchodol a chymunedol yn y ddau fodel. Roedd hyn yn cael ei reoli'n dda, ac, ar y cyfan, roedd y ddarpariaeth rheoli troseddwy wedi'i datblygu'n dda. Er bod yr uned rheoli troseddwy (OMU) wedi'i rhannu rhwng gwahanol leoliadau yn y carchar, roedd y ddarpariaeth rheoli troseddwy yn ganolog i ymagwedd y carchar.
- 4.11** Roedd yr ôl-groniad o garcharorion heb asesiad system asesu troseddwy (OASys) yn fach, gydag 86 o garcharorion a ddylai fod wedi cael asesiad heb gael un. Cyfrifoldeb y carchar oedd cwblhau pum deg pedwar o'r rhain, a chyfrifoldeb partneriaid cymunedol oedd 32 ohonynt. Roedd y carchar yn lleihau nifer yr asesiadau heb eu cwblhau yn raddol, ac yn mynd ar drywydd partneriaid cymunedol. Yn ein harolwg, dim ond 48% o'r ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt gynllun dalfa, a oedd yn waeth na'r cymharydd (60%). Roedd rheolwyr yn yr OMU yn synnu at y canfyddiad hwn, gan fod pob carcharor yn cael amlinelliad ysgrifenedig o'i amcanion penodol ar gyfer mynd i'r afael â'i ymddygiad troseddol; yn ystod yr arolygiad, fe wnaethant ddisgrifio sut y byddent yn mynd i'r afael â hyn trwy ddefnyddio gweithwyr allweddol i atgyfnerthu dealltwriaeth carcharorion o dargedau cynlluniau deddfryd.
- 4.12** Roedd yr OMU yn cynnwys dau uwch swyddog prawf, pedwar rheolwr anweithredol, 20 swydd rheolwr troseddwy carchar (POM) mewn lifrai gyfwerth ag amser llawn (gan gynnwys chwe swyddog gweithredol, y rheolwyd eu defnyddio ar gyfer gwaith arall i leihau'r effaith ar waith POM) a saith a hanner o swyddi POM prawf cyfwerth ag amser llawn. Roedd rhai swyddi gwag heb eu llenwi o hyd, ond roedd staff newydd wrthi'n cael eu recriwtio'n raddol. Roedd swyddi gwag, a throsglwyddo achosion a arferai gael eu rheoli gan weithwyr camddefnyddio sylweddau i'r POMs, wedi arwain at lwyth achosion uchel, gyda rhai POMs yn delio â mwy na 100 o achosion. Roedd y cyfathrebu â'r tîm cymorth gweinyddol trefnus yn dda.
- 4.13** Roedd gan y tîm arweinyddiaeth dda. Gallai'r POMs mewn lifrai symud ymlaen i haen uwch yn y tîm, ac yna cael achosion mwy cymhleth wedi'u neilltuo iddynt eu rheoli. Cynhaliwyd cyfarfodydd tîm rheolaidd a darparwyd mentora i aelodau newydd y tîm. Roedd y rheolwyr yn y tîm, gan gynnwys y pennaeth swyddogaeth, yn sicrhau ansawdd yn rheolaidd, ac roedd pob POM yn cael rhywfaint o oruchwyliaeth, naill ai gan yr uwch swyddogion prawf neu reolwyr gweithredol y carchar yn y tîm.
- 4.14** Dywedodd carcharorion wrthym eu bod yn poeni am eu diffyg cyswllt â staff OMU. Dangosodd yr achosion a welsom fod y cysylltiad hwn yn anaml weithiau, hyd nes bod rheswm penodol amdano, megis gwneud trefniadau ar gyfer rhyddhau neu adolygu adroddiadau rhaglenni. Dywedodd y POM eu bod yn gobeithio cyflawni mwy o waith un-i-un gyda carcharorion ar ôl i swyddi gwag yn y tîm gael eu llenwi. Fodd bynnag, roedd cyswllt da iawn rhwng gweithwyr allweddol a'r carcharorion yn eu gofal, gyda llawer o enghreifftiau o hyn yn arwain at ganlyniadau da, megis dilyn trefniadau ar gyfer rhaglenni neu ar gyfer

<sup>20</sup> Yn dilyn adolygiad o reoli troseddwy yn 2015, dechreuodd HMPPS gyflwyno model rheoli troseddwy newydd o 2017. Mae'r model newydd yn cael ei weithredu mewn cyfnodau, gan ddechrau gyda gweithwyr allweddol swyddogion carchar newydd. Cafodd yr ail gyfnod, rheoli troseddwy craidd a chyflwyno rheolwyr troseddwy yn y carchar, ei gyflwyno'n raddol yn ystod 2019 a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn ystod 2020 bellach.

rhyddhau trwy gyswllt gweithwyr allweddol â POMs neu weithwyr ailsefydlu. Roedd hyn yn lliniaru'r diffyg cyswllt uniongyrchol rhwng POMs a charcharorion.

- 4.15** Gwnaethom adolygu detholiad o 15 achos yn fanwl, gan gynnwys carcharorion a oedd wedi cyrraedd yn ddiweddar, rhai a oedd ar fin cael eu rhyddhau neu rai a oedd yn y sefydliad ar sail tymor hir. Roedd asesiad wedi'i gynnal ar gyfer pob achos a oedd angen asesiad OASys, wedi'u cwblhau i safon resymol, yn ogystal â chynllun dedfryd a chynllun rheoli risg lle bo angen. Roedd adroddiad asesu parôl da ar gyfer carcharor yn y sampl a oedd yn destun adolygiad y bwrdd parôl.
- 4.16** Roedd POM wedi gweld unrhyw garcharorion nad oeddent yn gymwys i gael asesiad OASys o dan OMiC, ac roedd hyn wedi arwain at greu cofnod amddiffyn y cyhoedd ar gyfer dogfen rhannu gwybodaeth (PPRIS), a oedd ar gael yn electronig i holl staff y carchar. Dyluniwyd y PPRIS gan reolwyr yn y sefydliad, ac roedd yn rhoi sylw i sgrinio ar gyfer risg o niwed, ymyriadau, statws pobl sy'n gadael gofal ac yn cofnodi manylion o gyswllt â'r carcharor, neu amdano. Er nad oedd yn asesiad OASys llawn, roedd yn cynnwys llawer o'r un meysydd.
- 4.17** Rheolwyd cyrffiw cyfyngu i'r cartref (HDC) yn dda ond roedd gormod o garcharorion yn profi oedi cyn cael eu rhyddhau ar HDC. O'r 185 o garcharorion a gafodd HDC yn ystod y chwe mis blaenorol, roedd 48 wedi'u rhyddhau ar ôl eu dyddiad cynharaf posibl. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod gwaith papur yn cael ei ddychwelyd yn hwyr neu yn sgil diffyg llety'r Gwasanaeth Llety a Chefnogaeth Mechnïaeth. Gwrthodwyd y nifer fach o garcharorion nad oeddent wedi'u cymeradwyo i'w rhyddhau ar HDC am resymau y gellid eu cyfiawnhau.
- 4.18** Nid oedd y carchar wedi gwneud unrhyw ddefnydd o ryddhau ar drwydded dros dro (ROTL), ac roedd angen gwneud mwy i sicrhau bod addasrwydd carcharorion a oedd yn gymwys ar gyfer hyn yn cael ei asesu'n brydlon a bod opsiynau defnyddiol ar gael iddynt. Ar adeg yr arolygiad, roedd y gwaith i ddatblygu strategaeth ROTL yn dirwyn i ben. Roedd disgwyl i'r carcharor cyntaf i gael ROTL gael ei gymeradwyo i fynd ar leoliad seiliedig ar waith yn ystod yr wythnos ar ôl yr arolygiad.
- 4.19** Ar adeg yr arolygiad, roedd 32 o garcharorion yn treulio cyfnodau dedfryd amhenodol i amddiffyn y cyhoedd ac roedd 59 yn treulio cyfnodau dedfryd am oes, ac roedd nifer ohonynt wedi'u galw yn ôl i'r ddalfa. Dyrannwyd carcharorion â dedfrydau amhenodol a dedfrydau am oes i POMs mwy profiadol ond fel arall nid oedd eu rheolaeth yn wahanol i'r rheolaeth o garcharorion eraill.

## Arfer da

- 4.20** *Roedd defnyddio'r cofnod amddiffyn y cyhoedd a ddyfeisiwyd yn lleol ar gyfer y ddogfen rhannu gwybodaeth yn rhoi darlun da o risgiau ac anghenion carcharorion nad oedd angen asesiad system asesu troseddwr (OASys) arnynt ac roedd ar gael yn electronig i'r holl staff, i hysbysu gwaith a rhyngweithio gyda'r carcharor hwnnw.*

## Amddiffyn y cyhoedd

- 4.21** Roedd gwaith amddiffyn y cyhoedd yn flaenoriaeth i'r carchar a'r OMU. Roedd yr asesiadau cychwynnol a wnaed gan POMs a gweinyddwyr yn nodi pryderon perthnasol, a pharhaodd y rheolaeth o'r rhain nes eu rhyddhau, gan gynnwys amodau trwydded priodol ar gyfer eu rhyddhau. Roedd yr achosion a adolygwyd gennym yn dangos bod yr OMU yn rheoli rhyddhau achosion trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA) yn effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau gwaith papur rhannu gwybodaeth (ffurflenni MAPPA F) yn dda a rhannu gwybodaeth rhwng y POM a'r rheolwr troseddwr cymunedol.

Roedd gan staff OMU fynediad i system rheoli achosion (n-Delius) y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, a helpodd i nodi lefelau rheoli MAPPA yn brydlon. Roedd y cyfarfod rheoli risg cyn rhyddhau misol yn goruchwyllo rheolaeth carcharorion a oedd yn agosáu at gael eu rhyddhau, a'u risg oedd yn peri'r pryder mwyaf.

- 4.22** Defnyddiwyd cyfyngiadau cyswllt yn brydlon a'u hadolygu'n rheolaidd, gyda mewnbwn gan yr uwch swyddogion prawf. Roedd gan staff yn yr ystafell bost fynediad at restrau cyfoes o garcharorion a oedd yn destun y cyfyngiadau hyn, yr oeddent yn eu defnyddio wrth brosesu post a negeseuon e-bost a oedd yn dod i mewn ac allan. Roedd y trefniadau ar gyfer cychwyn ac adolygu monitro ffôn a phost yn cael eu rheoli'n dda.

## Categoreiddio a throsglwyddiadau

- 4.23** Roedd adolygiadau categoreiddio yn amserol, ond rhannodd sawl carcharor eu rhwystredigaeth ynghylch yr arosiadau hir i symud i garchar agored ar ôl cael eu hail-gategoreiddio i D. Roedd chwe deg tri yn aros i symud yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys rhai a oedd wedi'u cymeradwyo'n addas ar gyfer amodau agored bron i dri mis ynghynt. Dywedodd rheolwyr nad oedd yn anarferol i garcharorion aros dau neu dri mis am y trosglwyddiadau hyn, a amlygodd yr angen am fwy o ddefnydd o ROTL (gweler paragraff 4.18). Roedd prosesau effeithlon i drefnu trosglwyddiadau eraill, gan gynnwys ar gyfer symudiadau blaengar.

## Ymyriadau

### Canlyniadau disgwylidig:

#### Gall carcharorion gyrchu ymyriadau a gynlluniwyd i hybu adsefydlu llwyddiannus.

- 4.24** Roedd y carchar yn cynnig sawl rhaglen achrededig ac ymyriadau heb eu hachredu. Cyflwynodd y tîm rhaglenni'r rhaglen sgiliau meddwl (TSP), Resolve (ar gyfer trais ac ymddygiad ymosodol), Building Skills for Recovery [Adeiladu Sgiliau ar gyfer Adferiad] (ar gyfer camddefnyddio sylweddau a lleihau'r risg o aildroseddu), Building Better Relationships [Meithrin Perthnasoedd Gwell] (ar gyfer trais partner agos) a Timewise [Amserol] (ymyrraeth un-i-un yn mynd i'r afael â thrais). Roedd y tîm ar y trywydd iawn i gyflawni ei darged o bron i 300 o garcharorion yn cymryd y lleoedd hyn ar y rhaglen yn 2019/20. Penderfynwyd ar addasrwydd ar gyfer y rhaglenni hyn, a'u dyrannu iddynt, trwy asesu'r amser oedd yn weddill i gyflawni'r ymyrraeth cyn eu rhyddhau. Anogwyd carcharorion a oedd yn ymwneud â TSP a Resolve i fyw ar uned T5 a oedd yn cynnig cefnogaeth ychwanegol, fel grwpiau ymwybyddiaeth ofalgar a mentoriaid cymheiriaid, i helpu i gwblhau'r rhaglenni yn llwyddiannus. Gallai carcharorion ar draws y safle gael gafael ar ffynonellau eraill o ymyriadau a gefnogodd eu dilyniant, gan gynnwys gan y tîm PSF (gweler paragraff 4.3) a'r tîm camddefnyddio sylweddau.
- 4.25** Roedd y prif fwllch yn y ddarpariaeth ar gyfer carcharorion a euogfarnwyd o droseddau rhywiol, a oedd yn cyfrif am 17% o'r boblogaeth. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod y carchar wedi gwneud ymdrechion sylweddol i ddarparu rhaglen addas yn fewnol. Er iddo gael ei liniaru i raddau gan nifer y trosglwyddiadau a drefnodd y carchar i sefydliadau eraill a oedd yn cynnig ymyriadau a oedd yn mynd i'r afael â throsteddu rhywiol, roedd absenoldeb yr ymyriadau hyn yn y Parc yn wendid.
- 4.26** Roedd Ymddiriedolaeth St Giles, ar ran Seetec (contractiwr CRC Cymru), wedi darparu cefnogaeth ailsefydlu ers mis Ebrill 2019, gan adeiladu'r tîm ar y safle yn raddol. Helpodd y gweithwyr hyn garcharorion i agor cyfrifon banc cyn cael eu rhyddhau ond nid oeddent wedi cyflwyno unrhyw waith yn ymwneud â dyledion hyd yma. Cafodd carcharorion mewn dyled

rywfaint o gefnogaeth gan dîm mentoriaid cymheiriaid RALPH (Desg Gymorth Carcharorion Llinell Gyngor ar Ailsefydlu), a allai ddarparu llythyrau templed i'w hanfon at gredydwyr. Roedd staff y Ganolfan Byd Gwaith ar gael yn y carchar bob diwrnod o'r wythnos i roi cyngor am hawlio budd-daliadau i garcharorion a oedd yn agosáu at gael eu rhyddhau, neu'r rhai a oedd angen cau hawliau budd-daliadau presennol i lawr. Er na allai carcharorion ddechrau cais ar-lein am Gredyd Cynhwysol yn y carchar, gwnaed apwyntiad yn eu Canolfan Byd Gwaith lleol ar gyfer diwrnod eu rhyddhau.

- 4.27** Roedd gweithwyr timau ailsefydlu yn cefnogi carcharorion i ddod o hyd i lety ar ôl cael eu rhyddhau, gan gynnwys ysgrifennu at awdurdodau lleol i'w hysbysu bod carcharorion a fyddai'n ddigartref ar fin cael eu rhyddhau. Fe wnaethant ymdrechion hefyd i lunio rhestr o landlordiaid cyhoeddus a phreifat y gallent fynd atynt i ddarparu llety, ac roedd gwybodaeth ar gael am asiantaethau cefnogi ar gyfer pobl oedd yn cysgu ar y stryd. Roedd y carchar yn datblygu ei brosiect ei hun i helpu nifer fach o garcharorion iau i gael llety. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, yn ystod y chwe mis blaenorol, roedd tua 17% o garcharorion wedi cael eu rhyddhau heb gyfeiriad i fynd iddo, a danseiliodd gyfleoedd am ailsefydlu. Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael ynghylch faint o bobl a gyflwynodd i'w hawdurdod lleol yn ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau a oedd wedi darparu llety ar eu cyfer. Ni wnaeth y carchar fonitro nifer y carcharorion a gynhaliodd eu llety am 12 wythnos ar ôl cael eu rhyddhau, i asesu effeithiolrwydd y ddarpariaeth.

## Cynllunio ar gyfer rhyddhau

### Canlyniadau disgwylidig:

**Mae anghenion ailintegreiddio penodol carcharorion unigol yn cael eu diwallu trwy gynllun amlasiantaethol unigol i fwyhau'r tebygolrwydd o ailintegreiddio'n llwyddiannus i'r gymuned.**

- 4.28** Ar gyfartaledd, roedd 100 o garcharorion yn cael eu rhyddhau bob mis. Yn yr achosion a adolygwyd gennym, roedd tîm adsefydlu'r cwmni adsefydlu cymunedol (CRC) wedi darparu asesiad amserol o anghenion carcharorion, gan gynnwys llety (gweler paragraff 4.27 hefyd), ac wedi cyfathrebu â rheolwyr troseddswyr cymunedol i sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael sylw.
- 4.29** Roedd y trefniadau ar ddiwrnod rhyddhau wedi'u trefnu'n dda, ond roedd carcharorion fel arfer yn cael eu noeth chwilio cyn cael eu rhyddhau, a oedd yn anghymesur. Rhoddodd staff y dderbynfa fag plaen i bob carcharor a oedd ei angen i gario eu heiddo ar gael eu rhyddhau, ac roedd storfa o ddillad heb fod yn ddillad carchar ar gael, a roddwyd gan garcharorion eraill ar gyfer y rhai nad oedd ganddynt unrhyw beth addas i'w wisgo wrth adael y carchar. Roedd carcharorion nad oedd yn cyfarfod â rhywun gyda thrafnidiaeth yn cael gwarant teithio a dywedwyd wrthynt sut i gyrraedd trenau a bysiau. Os oedd gan y carchar bryderon ynghylch gallu'r carcharor i gyrraedd yr orsaf leol heb gymorth, darparwyd cludiant. Aeth staff trwy drwyddedau rhyddhau a chyfarwyddiadau adrodd gyda charcharorion oedd ar fin gadael.



## Adran 5. Crynodeb o bryderon allweddol, argymhellion ac arfer da

Mae'r canlynol yn rhestr o bryderon allweddol ac argymhellion a ailadroddir a rhai newydd, argymhellion cyffredinol ac enghreifftiau o arferion da sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Mae'r cyfeirnodau yn y golofn ar y chwith yn cyfeirio at leoliad y paragraff yn y prif adroddiad.

Pryderon allweddol ac argymhellion		Cyfeirir at:
S47	<p>Pryder allweddol: Ymddengys fod lefel yr angen ymhlith poblogaeth y carchar wedi cynyddu, ac roedd hyn yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau cefnogaeth. Er gwaethaf tystiolaeth o ddirywiad yn ystod y flwyddyn flaenorol, parhaodd y lefel hunan-niweidio i fod yn uchel iawn ac roedd, ynghyd â'r nifer gymharol uchel o farwolaethau o hunanladdiad, yn parhau i beri pryder difrifol.</p> <p><b>Argymhelliad: Dylid lleihau lefelau hunan-niweidio ar frys.</b></p>	<b>Y Cyfarwyddwr</b>
S48	<p>Pryder allweddol: Roedd y galw am wasanaethau iechyd meddwl yn uchel ac nid oedd y ddarpariaeth gwasanaeth yn bodloni'r galw. Er bod y gefnogaeth a oedd ar gael ar gyfer mân broblemau neu broblemau cymedrol wedi gwella, roedd yr ystod o ymyriadau a chefnogaeth arbenigol i garcharorion ag anghenion mwy cymhleth yn annigonol ac roedd gormod o gleifion yn aros yn rhy hir i gael mynediad at wasanaethau presennol.</p> <p><b>Argymhelliad: Dylid sefydlu anghenion iechyd meddwl y boblogaeth a dylai'r model gwasanaeth ddarparu asesiad prydlon a mynediad amserol i gefnogaeth integredig ac ystod lawn o ymyriadau therapiwtig ar gyfer yr holl gyflyrau seiciatrig.</b></p>	<b>Y Cyfarwyddwr</b>
S49	<p>Pryder allweddol: Dim ond un sesiwn ddeintydd wythnosol y gallai carcharorion agored i niwed ar uned X gael mynediad iddi, a allai fod wedi arwain atynt yn wynebu oedi wrth dderbyn gofal ar frys.</p> <p><b>Argymhelliad: Dylai fod gan bob carcharor fynediad teg at ofal deintyddol, gan gynnwys darparu gofal brys.</b></p>	<b>Y Cyfarwyddwr</b>
S50	<p>Pryder allweddol: Nid oedd targedau cynllun dysgu unigol carcharorion yn glir yn gyson, nac wedi'u personoli i ysgogi cynllunio gwella. Mewn lleiafrif o achosion, nid oeddent yn ddigon manwl i helpu carcharorion i ganolbwyntio ar yr union beth oedd angen iddynt ei wneud yn y tymor byrrach i wneud y cynnydd gorau y gallent.</p> <p><b>Argymhelliad: Dylid personoli targedau cynllun dysgu unigol carcharorion i ysgogi cynllunio gwella.</b></p>	<b>Y Cyfarwyddwr</b>
S51	<p>Pryder allweddol: Euogfarnwyd dau ar bymtheg y cant o boblogaeth y Parc o drosedd rywiol ond nid oedd unrhyw ymyriadau penodol ar gael</p>	<b>Y Cyfarwyddwr</b>

	yno i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol. Yn hytrach, roedd yn rhaid iddynt drosglwyddo i garchardai eraill i gael mynediad at ymyriadau.  <b>Argymhelliad: Dylai carcharorion sy'n euog o droseddau rhywiol allu cael mynediad at ymyriadau ymddygiad troseddol perthnasol heb fod angen trosglwyddo i garchar arall.</b>	
S52	Pryder allweddol: Er gwaethaf ymdrechion y tîm ailsefydlu a'r carchar, roedd tua 17% o garcharorion a ryddhawyd yn ystod y chwe mis blaenorol wedi gadael y carchar heb gyfeiriad i fynd iddo, a danseiliodd gyfleoedd ailsefydlu.  <b>Argymhelliad: Dylai HMPPS weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod llety ar gael i garcharorion sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa.</b>	<b>HMPPS</b>
<b>Argymhellion cyffredinol</b>		<b>Cyfeirir at:</b>
1.35	Dylid gwella cyfundrefn yr uned wahanu, er mwyn sicrhau bod carcharorion yn cael amser y tu allan yn gyson ac yn gallu cysylltu â'u teuluoedd ar amser priodol.	<b>Y Cyfarwyddwr</b>
2.8	Dylid ateb clychau galwadau celloedd brys o fewn pum munud.	<b>Y Cyfarwyddwr</b>
2.33	Dylid arddangos gwybodaeth am garcharorion sydd ar gynlluniau personol gadael mewn argyfwng yn glir ar ddrysau eu celloedd, neu'n agos atynt, ac yn y brif swyddfa.	<b>Y Cyfarwyddwr</b>
2.34	Dylai carcharorion trawsryweddol allu cael gafael ar ddillad a cholur addas yn hawdd ac yn gyflym.	<b>Y Cyfarwyddwr</b>
3.49	Dylai trefniadau datblygiad proffesiynol parhaus gael eu hysbysu trwy nodi cryfderau a diffygion sgiliau athrawon yn gadarn.	<b>Y Cyfarwyddwr</b>
3.50	Dylid gwella mynediad dysgwyr ac athrawon at adnoddau dysgu ar-lein.	<b>Y Cyfarwyddwr</b>
<b>Enghreifftiau o arfer da</b>		
1.28	Roedd ansawdd defnyddio grym, ei reolaeth a sicrhau ansawdd ei ddefnydd yn rhagorol; edrychodd y cydlynnydd defnyddio grym ar bob ddogwyddiad, gyda'r holl arfer da a gwael yn cael ei amlygu yn y cyfarfod defnyddio grym a'i ddefnyddio i wella hyfforddiant i staff.	
2.66	Roedd uned byw â chymorth arbenigol ar gyfer carcharorion â diagnosis anawsterau dysgu, ac roedd hyn yn darparu lefel ragorol o ofal a chefnogaeth.	
4.20	Roedd defnyddio'r cofnod amddiffyn y cyhoedd a ddyfeisiwyd yn lleol ar gyfer y ddogfen rhannu gwybodaeth yn rhoi darlun da o risgiau ac anghenion carcharorion nad oedd angen asesiad system asesu troseddwy'r (OASys) arnynt ac roedd ar gael yn electronig i'r holl staff, i hysbysu gwaith a rhyngweithio gyda'r carcharor hwnnw.	

## Adran 6. Atodiadau

### Atodiad I: Y tîm arolygu

Peter Clarke	Prif Arolygydd
Angus Mulready-Jones	Arweinydd y tîm
Hayley Edwards	Arolygydd
David Foot	Arolygydd
Angela Johnson	Arolygydd
Ian McFadyen	Arolygydd
Chris Rush	Arolygydd
Becky Duffield	Ymchwilydd
Rahul Jalil	Ymchwilydd
Amilcar Johnson	Ymchwilydd
Chloe Moore	Ymchwilydd
Billie Powell	Ymchwilydd
Shannon Sahni	Ymchwilydd
Steve Ely	Prif arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol
Siggi Engelen	Arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol
Deborah Hylands	Fferyllydd
Tom Stephenson	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Alun Connick	Arolygydd Estyn
Huw Davies	Arolygydd Estyn
Emma Leighton	Arolygydd Estyn
Sion Peters-Flynn	Arolygydd Estyn
Keith Humphries	Arolygydd rheoli troseddwy



## Atodiad II: Cynnydd ar argymhellion a wnaethpwyd yn yr adroddiad diwethaf

Mae'r canlynol yn crynhoi prif ganfyddiadau'r adroddiad diwethaf ac yn rhestru'r holl argymhellion a wnaethpwyd, wedi'u trefnu o dan y pedwar prawf carchar iach. Mae'r cyfeirnodau ar ddiwedd pob argymhelliad yn cyfeirio at leoliad y paragraff yn yr adroddiad blaenorol. Os yw argymhelliad wedi'i ailadrodd yn y prif adroddiad, mae ei rif paragraff newydd wedi'i nodi hefyd. Mae'r argymhellion ym mhreif gorff yr adroddiad yn seiliedig ar bumed argraffiad Expectations [Disgwyliadau], ond mae'r rhai isod yn seiliedig ar y pedwerydd argraffiad. Felly, gall eu trefn fod ychydig yn wahanol i'r prif adroddiad.

### Diogelwch

**Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel.**

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2005, rheolwyd dyddiau cynnar carcharorion yn y carchar yn dda. Cynhaliodd staff a chefnogwyr cymheiriaid dderbynfa lân a chroesawgar. Roedd gweithdrefnau noson gyntaf a chynefino yn dda. Roedd lefelau trais yn uchel iawn ac roedd un o bob pum carcharor yn teimlo'n anniogel. Roedd ymateb y carchar yn rhagweithiol ac yn drylwyr ond roedd angen gwneud mwy i wneud y carchar yn fwy diogel. Roedd lefel yr hunan-niweidio yn uchel. Roedd gweithdrefnau rheoli achosion ar gyfer carcharorion mewn argyfwng yn dda, ond roedd gormod yn cael eu rheoli mewn llety arbennig ac roedd rhai arferion arsylwi yn anniogel. Rheolwyd diogelwch yn dda ac roedd y cynllun breintiau yn effeithiol. Roedd y defnydd o rym yn uchel ond yn gymesur, ac roedd y llywodraethu yn rhagorol. Ac eithrio llety arbenigol, defnyddiwyd yr uned wahanu yn briodol i reoli'r carcharorion mwyaf heriol. Nid oedd ymdrechion y carchar i fynd i'r afael ag argaeledd cyffuriau a dyled carcharorion cysylltiedig yn ddigon effeithiol. Nid oedd y canlyniadau i garcharorion yn ddigon da yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

### Prif argymhellion

Dylai'r carchar archwilio a mynd i'r afael ymhellach â'r rhesymau dros y lefelau uchel a chynyddol o drais, a rhoi mwy o ffocws ar reoli a chefnogi carcharorion sydd mewn dyled. Dylid ymgynghori mwy â charcharorion a chynrychiolwyr cymheiriaid i drafod trais a'i brif achosion. (A40)

**Heb ei gyflawni**

### Argymhellion

Dim ond fel dewis olaf y dylid gosod carcharorion ar reolaeth achos asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) ar lefel sylfaenol y cynllun cymhellion ac ennill breintiau, a hyd yn oed wedyn ni ddylid eu cyfyngu i'w celloedd am gyfnodau hir. (I.22)

**Cyflawnwyd**

Dylai carcharorion sydd angen gwyliadwriaeth gyson gael eu monitro gan aelod penodedig o staff wyneb yn wyneb ac nid gan CCTV. (I.23)

**Cyflawnwyd**

Dylai'r carchar weithio gyda'r heddlu i archwilio ffyrdd o atal cyffuriau ac eitemau anghyfreithlon eraill rhag dod i mewn i'r carchar, a chymryd camau i leihau neu ddileu dulliau cael mynediad. (I.39)

**Cyflawnwyd**

Ni ddylid lleoli'r holl garcharorion sydd ar y lefel sylfaenol ar yr un landin na rhoi arwyddion ar eu drysau i nodi lefel eu cyfundrefn. (1.47)

#### **Cyflawnwyd**

Dylid cyfiawnhau pob defnydd o lety arbennig ac ni ddylid defnyddio'r llety hwn ar gyfer carcharorion sydd mewn argyfwng. Dylai carcharorion y mae'n rhaid eu dal yn y celloedd hyn gael eu symud cyn gynted â phosibl. (1.56)

#### **Cyflawnwyd**

Dylai'r carchar ddatblygu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ymhellach i ddiwallu anghenion carcharorion, a dylid cynyddu'r ystod o gefnogaeth i garcharorion sy'n defnyddio Sbeis. (1.65)

#### **Cyflawnwyd**

## Parch

### **Mae carcharorion yn cael eu trin mewn ffordd sy'n parchu eu hurddas dynol.**

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2005, darparodd y Parc amgylchedd byw gweddus ac roedd cyfleusterau'n dda. Roedd perthnasoedd rhwng staff a charcharorion yn gadarnhaol ac roedd yn hawdd mynd at staff. Gweithiodd y cynllun swyddog personol yn dda ac roedd gan staff wybodaeth dda am y carcharorion dan eu gofal. Ar y cyfan, roedd canlyniadau i garcharorion yn y mwyafrif o grwpiau gwarchoddedig yn dda. Roedd diffyg hyder yn y prosesau ceisiadau a chwynion. Roedd mwyafrif y gwasanaethau iechyd yn weddol dda ond roedd y ddarpariaeth iechyd meddwl yn wan. Roedd y canlyniadau i garcharorion yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

### **Prif argymhellion**

Dylai carcharorion ag anghenion iechyd meddwl sylfaenol ac eilaidd, gan gynnwys diagnosis deuol, dderbyn cefnogaeth gofal gynlluniedig boddhaol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol o fewn amserlenni cytunedig. (S41)

#### **Heb ei gyflawni**

Dylai carcharorion sydd angen eu trosglwyddo i'r ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl gael eu hasesu'n brydlon a'u trosglwyddo o fewn y canllawiau trosglwyddo cyfredol. (S42)

#### **Cyflawnwyd**

### **Argymhellion**

Dylai carcharorion gael mynediad at gyfarpar ymarfer corff yn yr iardiau ymarfer corff. (2.7)

#### **Heb ei gyflawni**

Dylid defnyddio system monitro clychau galw celloedd i fonitro amseroedd ymateb. (2.8)

#### **Heb ei gyflawni**

Dylai'r system rheoli ganolog electronig (CMS) ddisodli'r system ceisiadau ar bapur, a dylid cyflwyno monitro a sicrhau ansawdd systematig. (2.9)

#### **Cyflawnwyd**

Dylai rheolwr a enwir fynd ar drywydd materion a godir gan garcharorion mewn cyfarfodydd ymgynghori yn brydlon. (2.15)

#### **Heb ei gyflawni**

Dylai cyfarfod y tîm gweithredu cynhwysiant cymunedol sicrhau polisi, cynllunio ac ymgynghori effeithiol ar gyfer yr holl grwpiau gwarchoddedig, sy'n mynd i'r afael ag angen, canfyddiadau carcharorion a data monitro. (2.23)

**Heb ei gyflawni**

Dylid rhoi o leiaf un mis o rybudd i garcharorion sy'n wladolion tramor cyn iddynt gwblhau eu dedfryd o unrhyw fwriad i'w cadw. (2.32)

**Heb ei gyflawni**

Dylai pob carcharor sydd wedi ymddeol a'r rheini sy'n anaddas i weithio gael mynediad at ddarpariaeth debyg i'r hyn sydd ar gael yn yr uned byw â chymorth. (2.33)

**Heb ei gyflawni**

Dylai'r carchar asesu a diwallu anghenion carcharorion trawsryweddol, gan gynnwys trwy hyfforddi staff. (2.34)

**Heb ei gyflawni**

Dylai pob ystafell gofal iechyd gydymffurfio â safonau rheoli heintiau, ac ni ddylai'r tymheredd fod yn uwch na 25°C. (2.52)

**Cyflawnwyd**

Dylai carcharorion gael mynediad at system cwynion iechyd gyfrinachol sydd wedi'i hysbysebu'n dda. Dylai ymatebion i gwynion iechyd fynd i'r afael â'r holl faterion a godir, a chynghori carcharorion o'r opsiynau os ydynt yn anhapus â'r ymateb. (2.53)

**Cyflawnwyd**

Dylai pob newydd-ddyfodiad gael asesiad iechyd eilaidd o fewn 72 awr. (2.61)

**Cyflawnwyd**

Dylai carcharorion allu cyrchu'r holl glinigau gofal sylfaenol, gan gynnwys gwasanaethau deintyddol, o fewn amseroedd aros sy'n cyfateb i'r gymuned, a dylai cyfraddau diffyg presenoldeb fod yn is na 12%. (2.62)

**Heb ei gyflawni**

Dylai carcharorion gael mynediad prydlon i apwyntiadau ysbyty allanol, a dylid monitro'r amseroedd aros o'r atgyfeiriad i fynychu'r apwyntiad. (2.63)

**Cyflawnwyd**

Dylid gweinyddu'r holl feddyginiaeth ar amser priodol i gael yr effaith therapiwtig fwyaf, a dylid cwblhau cofnodion gweinyddu. (2.69)

**Heb ei gyflawni**

Dylai staff carcharol oruchwylio gweinyddu meddyginiaethau yn ddigonol i sicrhau cyfrinachedd ac atal dargyfeirio a bwlio. (2.70)

**Heb ei gyflawni**

Dylai carcharorion gael storfa ddiogel ar gyfer eu meddyginiaeth, a dylid cynnal gwiriadau systematig ar gleifion sy'n derbyn meddyginiaeth mewn meddiant. (2.71)

**Heb ei gyflawni**

Dylid gweini brecwast ar y diwrnod y bydd yn cael ei fwyta. (2.87)

**Heb ei gyflawni**

Dylai carcharorion gael eu goruchwylio'n gyson gan staff yn ystod amser bwyd. (2.88)

**Cyflawnwyd**

## Gweithgaredd â phwrpas

**Mae carcharorion yn gallu, ac mae disgwyl iddynt, gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n debygol o fod o fudd iddynt.**

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2005, cafodd gormod o garcharorion eu cloi y tu ôl i'w drysau yn ystod y diwrnod craidd. Roedd arweinyddiaeth a rheolaeth dysgu a sgiliau yn dda, ac roedd ystod eang o gyrsiau a gweithleoedd ar gael, ond dim digon i'r holl garcharorion. Roedd ansawdd y ddarpariaeth yn dda ac roedd carcharorion yn gallu symud ymlaen a chyflawni cymwysterau ar lefel uchel. Roedd y brif lyfrgell yn dda ond roedd mynediad ar gyfer carcharorion agored i niwed yn wael. Roedd yr adran AG yn cynnig ystod dda o weithgareddau ar gyfer pob gallu. Roedd y canlyniadau i garcharorion yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

### Argymhellion

Dylid datgloi carcharorion nad oedd yn ofynnol iddynt fod mewn gweithgareddau yn ystod y diwrnod craidd. (3.5)

#### Heb ei gyflawni

Dylai NOMS ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr y cwmni adsefydlu cymunedol werthuso effaith dysgu carcharorion ar eu dilyniant i waith ac ar eu hymddygiad troseddol ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar. (3.14)

#### Cyflawnwyd yn rhannol

Dylai'r gwaith paratoi gyda charcharorion sydd angen gwella eu sgiliau rhifedd sicrhau eu bod yn deall perthnasedd y dosbarthiadau hyn. (3.21)

#### Cyflawnwyd

Dylid cynnwys targedau CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol) yng nghynlluniau dysgu unigol carcharorion. (3.33)

#### Cyflawnwyd yn rhannol

Dylai carcharorion agored i niwed gael gwell mynediad i'r llyfrgell. (3.37)

#### Cyflawnwyd

## Ailsefydlu

**Mae carcharorion yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned ac yn cael cymorth effeithiol i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu.**

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2005, roedd y carchar wedi gosod rheoli troseddwr wrth wraidd ei waith i leihau aildroseddu. Roedd y strategaeth yn glir, ac roedd cysylltiadau rhwng yr adrannau perthnasol a sefydliadau allanol wedi'u hen sefydlu. Derbyniodd mwyafrif y carcharorion gefnogaeth dda gan bob adran ailsefydlu, ac roedd ansawdd y gwaith achos yn dda, er nad oedd digon o ffocws ar gynlluniau rheoli risg. Roedd trefniadau amddiffyn y cyhoedd yn gadarn ar y cyfan. Roedd cynllunio ailintegreiddio yn dda, gyda goruchwylwyr troseddwr a'r cwmni adsefydlu cymunedol (CRC) yn helpu carcharorion i baratoi ar gyfer eu rhyddhau. Parhaodd gwaith y carchar ar y llwybr plant a theuluoedd i fod ymhlith y gorau a welsom. Roedd y canlyniadau i garcharorion yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.



## Argymhellion

Ni ddylid trosglwyddo carcharorion i'r Parc heb OASys cyfoes. (4.16)

### **Ddim yn berthnasol bellach**

Dylai sicrhau ansawdd asesiadau OASys sicrhau bod cynlluniau rheoli risg yn disgrifio'n glir sut y dylid rheoli carcharorion, yn y ddalfa ac yn y gymuned. (4.17)

### **Cyflawnwyd**

Dylai NOMS sicrhau bod y lefel MAPPA y bydd carcharorion yn cael ei rhyddhau arni yn cael ei phenderfynu ar y cyfle cyntaf i sicrhau rheoli risg effeithiol cyn rhyddhau. (4.22)

### **Cyflawnwyd**

Dylai CRC Cymru fynd ar drywydd carcharorion sy'n dod atynt am gymorth tai fel mater o drefn i gadarnhau'r llety y maent yn cael ei ryddhau iddo mewn gwirionedd, a defnyddio gwybodaeth o'r fath yn ei strategaeth i ddatblygu cymorth gwasanaeth. (4.30)

### **Heb ei gyflawni**

